



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Canllaw Cynllunio Atodol:  
Tirweddau a Morluniau Eryri  
*Corffennaf 2014*

07



# **AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**



## **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: ASESIAD CYMERIAD TIRWEDDAU A MORLUNIAU ERYRI**

**Gorffennaf 2014**

## CYNNWYS

Adran	Tudalen
Cyflwyniad.....	4
Dull o baratoi.....	8
Grymoedd dros newid.....	9
Canllawiau ar gyfer rheoli newid tirwedd.....	12
Ardal Cymeriad Tirwedd 1 - Ucheldir y Gogledd.....	21
Ardal Cymeriad Tirwedd 2 - Y Carneddau.....	24
Ardal Cymeriad Tirwedd 3 - Yr Wyddfa a'r Glyderau.....	27
Ardal Cymeriad Tirwedd 4 - Moel Hebog.....	30
Ardal Cymeriad Tirwedd 5 - Y Moelwynion.....	34
Ardal Cymeriad Tirwedd 6 - Coedwig Gwydyr.....	37
Ardal Cymeriad Tirwedd 7 - Dyffryn Conwy.....	40
Ardal Cymeriad Tirwedd 8 - Dyffryn y Ddwryd.....	43
Ardal Cymeriad Tirwedd 9 - Y Migneint.....	46
Ardal Cymeriad Tirwedd 10 - Morfa Harlech.....	49
Ardal Cymeriad Tirwedd 11 - Morfa Dyffryn.....	52
Ardal Cymeriad Tirwedd 12 - Cefnwlad Arfordir Ardudwy.....	55
Ardal Cymeriad Tirwedd 13 - Y Rhinogau.....	58
Ardal Cymeriad Tirwedd 14 - Dyffrynoedd Mawddach.....	61
Ardal Cymeriad Tirwedd 15 - Yr Arenig.....	64
Ardal Cymeriad Tirwedd 16 - Llyn Tegid a Dyffryn Dyfrdwy.....	67
Ardal Cymeriad Tirwedd 17 - Aber y Fawddach.....	70
Ardal Cymeriad Tirwedd 18 - Mynyddoedd yr Aran.....	73
Ardal Cymeriad Tirwedd 19 - Coedwig Penllyn.....	76
Ardal Cymeriad Tirwedd 20 - Cadair Idris.....	79

Ardal Cymeriad Tirwedd 21 - Pen Dyffryn Dyfi.....	82
Ardal Cymeriad Tirwedd 22 - Coedwig Dyfi.....	85
Ardal Cymeriad Tirwedd 23 - Dyffryn Dysynni.....	88
Ardal Cymeriad Tirwedd 24 - Y Tarrenau.....	91
Ardal Cymeriad Tirwedd 25 - Aber y Ddyfi.....	94
Cyflwyniad - Ardaloedd Cymeriad Morluniau.....	97
Ardal Cymeriad Morlun 2 - Bae Colwyn.....	103
Ardal Cymeriad Morlun 3 - Traeth Lafan.....	110
Ardal Cymeriad Morlun 19 - Criccieth i Fochras .....	116
Ardal Cymeriad Morlun 20 - Porthmadog ac Aber y Glaslyn.....	122
Ardal Cymeriad Morlun 21 - Aber y Ddwryd a Morfa Harlech.....	128
Ardal Cymeriad Morlun 22 - Mochras i Fairbourne a Sarn Badrig.....	136
Ardal Cymeriad Morlun 23 - Aber y Fawddach.....	143
Ardal Cymeriad Morlun 24 - Fairbourne i Donfannau.....	149
Ardal Cymeriad Morlun 25 - Tywyn a Sarn-Y-Bwlch.....	155
Ardal Cymeriad Morlun 26 - Borth.....	161
Ardal Cymeriad Morlun 27 - Aber y Ddyfi.....	167
Ardal Cymeriad Morlun 33 - Bae Tremadog.....	173
Ardal Cymeriad Morlun 34 - Bae Abermaw.....	179
Ardal Cymeriad Morlun 35 - Bae Aberdyfi.....	185
Ardal Cymeriad Morlun 36 - Bae Ceredigion.....	191
Atodiad 1	



## Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl i gefnogi'r polisiâu yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri. Bwriad y Canllawiau Cynllunio Atodol yw cyflwyno rhagor o fanylion ar faterion penodol nad yw'n bosibl neu'n briodol yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri.
- 1.2 Mae'r canllaw penodol hwn yn nodi nodweddion allweddol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT), ac Ardaloedd Cymeriad Morluniau (ACM) unigol ac yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â sut i reoli newid oddi mewn iddynt.

## Pwrpas

- 1.3 Er bod bron pob un o'r tirweddau a morluniau yn Eryri o ansawdd eithriadol, sydd wedi'i adlewyrchu yn ei ddynodiad fel Parc Cenedlaethol, mae angen diffinio ardaloedd cymeriad tirwedd a morol a gwerthfawrogi'r nodweddion unigol yn ogystal â'r dylanwadau a all arwain at newidiadau mewn cymeriad. Prif bwrpas y canllaw hwn felly yw:
  - Diffinio'r ffiniau ac enwi'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) ac yr Ardaloedd Cymeriad Morluniau (ACM) unigol ym Mharc Cenedlaethol Eryri;
  - Adnabod eu nodweddion allweddol a'r priodoleddau a werthfawrogi. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel dogfennau ar wahân ar gyfer pob ACT ac ACM;
  - Adnabod y grymoedd dros newid sy'n debygol o ddylanwadu ar newidiadau yn y dirwedd - ar gyfer yr ACT ac ACM unigol a'r Parc Cenedlaethol yn fwy cyffredinol; ac
  - Adnabod strategaethau tirwedd ar gyfer pob ACT, gan nodi sut y dylid eu rheoli a'u diogelu yn y dyfodol.
  - Adnabod ffactorau sensitif pob ACM
- 1.4 Wrth wneud hynny, bydd yr wybodaeth yn y CCA hwn yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gymhwyso'r polisiâu perthnasol yn y CDLIE a'r camau gweithredu yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol yn effeithiol er mwyn rheoli a lliniaru yn erbyn unrhyw effaith andwyol ar y tirwedd ac ar y morluniau.

## Statws

- 1.5 Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar geisiadau cynllunio. Cynghorir datblygwyr i asesu effaith unrhyw gynnydd unigol ar gymeriad ACT unigol neu grwpiau o ACT ac ystyried mesurau lliniaru os oes effeithiau andwyol. Dylid cynnwys cofnod o'r dadansoddiad hwn mewn datganiadau Dylunio a Mynediad unigol a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio, neu mewn dogfen ar wahân sy'n dadansoddi effeithiau ar y dirwedd.
- 1.6 Mae'r Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn ategu'r polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE, 2007-2022) a Chynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (CRhPC, 2010-2015). Mae nifer o'r polisiau defnydd tir yn y CDLIE a'r amcanion yn y CRhPC yn cael eu hategu ag ymddangosiad '*Nodweddion Arbennig*' Eryri yn y ddwy ddogfen. Y nodweddion arbennig yw nodweddion diffiniol y Parc Cenedlaethol yn y bôn; maent yn nodedig ac yn amlwg ac yn gosod yr ardal ar wahân.
- 1.7 Nid yw'n syndod felly bod llawer o'r nodweddion arbennig yn ymwneud â, neu'n deillio o'r dirwedd a chysylltiad pobl â hi dros sawl cenhedlaeth. Maent yn cynorthwyo yn ein dealltwriaeth, ein gwerthfawrogiad a'n canfyddiad o'r Parc Cenedlaethol, ac maent wedi'u rhestru isod;

- yr amrywiaeth o dirweddau ac ardaloedd arfordirol o ansawdd uchel o fewn ardal ddaearyddol fach – sy'n amrywio o arfordir i ucheldiroedd o fryniau a phantiau, i fynyddoedd garw y mae Eryri yn enwog amdanynt;
- yr ymdeimlad cadarn o gydlynid cymunedol, perthyn a bywiogrwydd sy'n cyfuno i roi 'ymdeimlad o le' pendant;
- bywiogrwydd parhaus yr iaith Gymraeg fel y brif iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'r agwedd hon yn amlwg mewn enwau lleoedd lleol sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal;
- ardal sydd wedi ysbrydoli peth o ddiwylliant, llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth mwyaf nodedig y genedl, dylanwad sy'n parhau hyd heddiw;
- y cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol, gan barhau i gynnal ardaloedd o lonyddwch ac unigedd, a thrwy hynny hyrwyddo agweddau ar iechyd, lles a myfyrdod personol;
- cyfleoedd helaeth ar gyfer adloniant, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu;
- tirweddau a threfweddau sy'n cofnodi rhyngweithiad pobl dros y canrifoedd, o'r Cyfnod Neolithig hyd heddiw. Mae hyn yn amlwg mewn olion archeolegol, enwau lleoedd, hanes llafar ac ysgrifenedig, ac arferion rheoli tir heddiw. Mae treftadaeth bensaernïol Eryri yn cael ei hadlewyrchu yn nwysedd yr Adeiladau Rhestredig a'r amgylchedd hanesyddol ehangach;
- daeareg gymhleth, amrywiol ac enwog, sy'n hollbwysig wrth ddylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol;
- bioamrywiaeth amrywiol sy'n adlewyrchu tirweddau, daeareg, arferion rheoli tir a hinsawdd Eryri. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft rhywogaethau sy'n olion o Oes yr Iâ ddiwethaf, sy'n rhoi

cipolwg ar gynefinoedd lled-Arctig. Eryri yw'r man mwyaf deheuol yn y D.U. ar gyfer llawer o rywogaethau o'r fath.

## Cyswllt â pholisïau CDLIE

- 1.8 Mae **Polisi A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy** yn bolisi creiddiol pwysig sy'n ceisio gwarchod a gwella nodweddion arbennig Eryri (gweler Atodiad 1 am y polisi yn llawn). Mae'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella'r harddwch naturiol a'r angen i gynnal pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol. Mae'r polisi hwn hefyd yn rhoi cyfeiriad strategol o ran sut y dylid gwerthuso datblygiadau. Mewn achosion o wrthdaro â materion eraill wrth ymdrin â chynigion datblygu, bydd yr ystyriaeth bennaf yn cael ei rhoi i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd a nodweddion ei dirweddau cydrannol.
- 1.9 Y prif bolisi yn y CDLIE sy'n ymdrin â'r dirwedd yn benodol yw **Polisi 2: Datblygu a'r Dirwedd** (gweler Atodiad 2 am y polisi yn llawn). Mae'r polisi hwn yn nodi y dylai graddfa a dyluniad datblygiadau newydd barchu lleoliad y dirwedd a chymeriad yr ardal, ac yr ymwrthodir ag effeithiau annerbyniol. Bydd effeithiau o'r fath yn cael eu beirniadu yn ôl natur, graddfa a dyluniad y cynnig. Bydd y diffiniad o ardaloedd cymeriad tirwedd unigol a'u nodweddion cydrannol yn helpu i werthuso'r effeithiau ar y dirwedd. Ymwrthodir ag effeithiau annerbyniol ar gymeriad y dirwedd, ac amcan y polisi yw diogelu'r dirwedd bresennol. Er bod effeithiau ar y dirwedd yn farn oddrychol i ryw raddau, bydd adnabod yr hyn sy'n bwysig wrth gyfrannu at ansawdd y dirwedd yn helpu i fesur effeithiau andwyol arfaethedig. Mae'r CCA hwn yn cynnig sail dystiolaeth fanwl i gefnogi'r polisi hwn. Bwriedir ymgymryd â gwaith pellach hefyd i asesu sensitifrwydd y dirwedd a'i gallu i ymdopi â gwahanol fathau o ddatblygiadau.
- 1.10 Mae Polisi 2 hefyd yn cyfeirio at ddiogelu golygfeydd sy'n weladwy o olygfannau. Er nad yw'n bosibl adnabod yr holl olygfeydd yn y Parc Cenedlaethol, mae rhywfaint o'r prif rai wedi'u cynnwys yn y nodweddion allweddol yn nisgrifiadau'r ACT. Er mwyn cynnal yr ymdeimlad o lonyddwch, pellenigrwydd ac ansawdd y dirwedd, bydd yr effeithiau gweledol newydd o bwys yn cael eu gwerthuso'n ofalus er mwyn ystyried a fyddant yn cael effaith negyddol ar y golygfeydd.
- 1.11 Mae'r golygfeydd yn cynnwys y rhai yn y Parc Cenedlaethol ei hun yn ogystal â'r rhai a welir wrth edrych allan o'r ffin. Yr un mor bwysig mewn sawl ffordd yw'r golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig pan fyddant yn helaeth ac yn gosod yr ardal o fewn ei chyd-destun daearyddol a lleoliad y dirwedd. Yr Awdurdod fydd yn penderfynu ar gynigion yn y Parc Cenedlaethol, ond mae nifer cynyddol o gynigion datblygu mwy y tu hwnt i'w ffin, ond yn gymharol agos ati. Gallai cynigion o'r fath, yn sgil eu hagosrwydd, graddfa neu effaith gronnydd, gael effaith andwyol ar leoliad ac ansawdd tirwedd y Parc Cenedlaethol. Bydd APCE yn gwerthuso unrhyw gynnig a allai effeithio ar olygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r dirwedd a ddiogelir yn ofalus.

## Cyswllt ag amcanion Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol

- 1.12 Mae Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (CRhPC 2010-15) yn cyflwyno'r fframwaith polisi strategol ar gyfer sefydliadau i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol wrth gyflawni eu dyletswyddau yn y Parc Cenedlaethol. Er mai APCE sydd wedi'i baratoi, mae'n ddogfen ar gyfer pob sefydliad ac unigolyn sy'n meddu ar rôl i ddylanwadu ar ddyfodol Eryri.
- 1.13 Mae'r CRhPC yn rhannu gweledigaeth gyffredin â'r CDLIE, ac mae'n atgyfnerthu nodweddion arbennig Eryri, fel y disgrifiwyd yn barod. Ar ben hynny, mae'n nodi 26 o amcanion strategol a chyfres gyfatebol o gamau y dylai pob sefydliad ac unigolyn sy'n

gweithio yn y Parc ymdrechu i'w cyflawni. Mae'r Cynllun Rheolaeth yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer pob cais cynllunio yn y Parc Cenedlaethol.

### **Cyswllt â pholisïau a dogfennau eraill**

- 1.14 Yn y ddogfen hon, nid yw'n bosibl nodi pob math o ddatblygiad a allai gael effaith andwyol ar y dirwedd. Bydd angen asesu cynigion unigol yn erbyn yr holl bolisïau yn y CDLIE a'u heffaith ar ACT unigol a ddisgrifir fel rhan o'r CCA hwn. Dylid darllen y CDLIE yn ei gyfanrwydd ac fel arfer bydd mwy nag un polisi neu ddogfen Canllaw Cynllunio Atodol yn berthnasol i gynnig unigol.
- 1.15 Mae sawl rhan o'r Parc Cenedlaethol hefyd wedi'u gwarchod yn statudol am eu diddordeb cadwraeth natur a bioamrywiaeth. Mae cysylltiad o ran diogelu bioamrywiaeth a'r dirwedd gan fod cynefin newidiol yn debygol o arwain at newid gweledol yn y dirwedd. Felly, dylid darllen CCA APCE ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth ochr yn ochr â'r canllaw hwn er mwyn cael dealltwriaeth fwy cyflawn o'r warchodaeth statudol a roddir i rai safleoedd penodol.
- 1.16 Mae APCE hefyd wedi comisiynu gwaith ar y cyd i ddadansoddi gwerth a chymeriad morluniau Eryri o'r enw '*Asesiad Cymeriad Morluniau Eryri ac Ynys Môn*' (2013). Bydd yr asesiad hwn o'r morluniau sy'n berthnasol i Eryri (15 ohonynt) hefyd yn rhan o'r Canllaw ac yn cael ei ystyried wrth edrych ar ddatblygiadau mewn ardaloedd arfordirol a morol, a'r rhannau o'r Parc Cenedlaethol sy'n meddu ar berthynas cryf â'r morluniau cyfagos.



## **2 Y DULL A DDILYNWYD I BARATOI ASESIAD CYMERIAD TIRWEDD ERYRI**

- 2.1 Mae'r Asesiad Cymeriad Tirwedd sy'n sail i'r CCA hwn yn tynnu ar LANDMAP fel rhan o'i sail dystiolaeth, ynghyd ag ystod eang o wybodaeth arall sydd ar gael sy'n disgrifio nodweddion naturiol, diwylliannol ac esthetig / canfyddiadol y Parc Cenedlaethol. Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd sy'n seiliedig ar system wybodaeth ddaearyddol Cymru gyfan lle mae nodweddion, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso i set ddata sy'n gyson yn genedlaethol. Mae'n cynnwys pump o 'Agweddau a Werthuswyd'; Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyraidd, Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol.
- 2.2 Yn dilyn canfyddiadau asesiad pen-desg - a oedd yn cynnwys adolygiad o'r wybodaeth LANDMAP a data gofodol arall - ymgwymerwyd ag ymarfer gwirio maes i gadarnhau'r ffiniau a'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer y 25 Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT). Mae'r ACT wedi'u dylunio i gynrychioli ardaloedd daearyddol arwahanol o dirwedd y Parc Cenedlaethol sy'n cael eu cydnabod am eu natur unigryw leol ac ymdeimlad o le. Maent yn ffurfio fframwaith gofodol defnyddiol i ddisgrifio'r dirwedd a chynorthwyo yn y pen draw wrth wneud penderfyniadau ar sut y dylai gael ei gynllunio a'i reoli i gadw neu wella ei nodweddion arbennig.
- 2.3 Yn y dyfodol, gallai'r fframwaith a ddarperir gan yr ACT hefyd gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer monitro newidiadau yn y dirwedd yn fwy manwl. Bydd methodoleg i asesu sensitifrwydd y dirwedd a'i gallu i ymdopi â newid yn cael ei datblygu mewn CCA pellach. Yn y pen draw, mewn adolygiad o'r CDLIE, gellir mireinio polisïau cynllunio i ymdrin ag amgylchiadau newidiol sy'n codi drwy fonitro sensitifrwydd a newid yn y dirwedd yn fwy manwl.
- 2.4 Dangosir map o ACT y Parc Cenedlaethol yn Ffigur 2.1, a disgrifir pob ACT ar wahân gan ddefnyddio strwythur cyffredin, fel a ganlyn:
- Crynodeb o leoliad a ffiniau'r ACT, gan gynnwys map a ffotograffau cynrychioliadol
  - Nodweddion allweddol
  - Grymoedd dros newid sy'n effeithio ar gymeriad y dirwedd
  - Strategaeth tirwedd ar gyfer y dyfodol
  - Canllawiau ar gyfer rheoli newid yn y dirwedd yn y dyfodol (gyda chroesgyfeiriad at Bennod 4 o'r CCA hwn).
- 2.5 Fel y nodwyd eisoes, prif bwrpas y canllaw hwn yw cyflwyno sail dystiolaeth i gynorthwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol i arwain y mathau priodol o ddatblygiadau i'r lleoliadau priodol; gan ddefnyddio'r wybodaeth i hysbysu ei leoliad a'i ddyluniad mewn ffyrdd sy'n gwarchod ac yn gwella nodweddion arbennig y Parc.
- 2.6 Mae gweddill y CCA hwn yn cynnwys pennod sy'n amlinellu'r grymoedd dros newid generig sy'n effeithio ar dirweddau Eryri, a ddilynir gan ganllawiau tirwedd lefel uchel. Mae'r ddwy bennod hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth fanwl a ddarperir ar gyfer pob un o'r 25 ACT.

### **3 GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR DIRWEDDAU ERYRI**

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno trosolwg o'r prif rymoedd dros newid sy'n effeithio ar dirweddau Eryri, ac maent wedi'u trefnu o dan nifer o benawdau gwahanol. Mae'n ystyried grymoedd dros newid y gorffennol / presennol sydd wedi, ac sy'n parhau i ddylanwadu ar y tirweddau a welir heddiw, yn ogystal â grymoedd dros newid y dyfodol sy'n debygol o ddod yn fwyfwy cyffredin yn y Parc Cenedlaethol.
- 3.2 Ar ben hynny, mae gwybodaeth ar rymoedd dros newid sy'n bwysig yn lleol wedi'i chynnwys ym mhob disgrifiad o'r ACT.
- 3.3 Mae deall y grymoedd dros newid sy'n effeithio ar dirweddau'r Parc Cenedlaethol yn allweddol i lunio ymatebion rheoli a chynllunio. Mae'r rhain yn cael eu hystyried, drwy gynhyrchu canllawiau tirwedd lefel uchel, yn y bennod nesaf.

#### **Grymoedd dros newid y gorffennol / presennol**

##### ***Gweithfeydd mwynau a chwareli***

- Tystiolaeth greiriol o weithfeydd mwynau, sy'n darparu tystiolaeth o gyn-weithgareddau diwydiannol. Gall cyn-fwyngloddiau metelifferaidd a chwareli llechi a thomenni cysylltiedig yn aml fod yn amlwg ond mae rhai wedi ail-gymhathu i'r dirwedd ac wedi dod yn llochesau ar gyfer casgliadau anarferol o blanhigion (metaloffytau) ac ystlumod. Erbyn hyn, mae llawer ohonynt yn agweddau gwerthfawr ar dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

##### ***Coedwigo ar raddfa fawr***

- Mae ardaloedd helaeth o blanhigfeydd conifferaidd o'r 20fed ganrif gynnar ledled y Parc Cenedlaethol, yn aml ar rostiroedd a llethrau dyffrynnoedd a oedd wedi'u gorchuddio â choedlannau brodorol neu borfeydd ansawdd gwael (ffridd) cyn hynny. Yn fwy diweddar mae rhai ardaloedd wedi'u teneuo neu'u cwmpo yn gyfan gwbl.
- Cyfundrefnau plannu, rheoli a thorri amhriodol o blanhigfeydd conifferaidd, sy'n arwain at effaith niweidiol ar y dirwedd, yn enwedig ar ffiniau planhigfeydd.
- Mewn rhai ardaloedd, mae prosiectau adfer i blannu coedlannau brodorol yn lle rhywogaethau conwydd anffrodorol ar y gweill i wella ansawdd y dirwedd a chynefinoedd.

##### ***Newid amaethyddol***

- Economeg amaethyddol newidiol dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, sy'n effeithio ar gymeriad agored ac amrywiaeth llystyfiant y mynydd - yn enwedig lledaeniad eithin a rhedyn.
- Dirywiad diweddar yng ngwerth da byw ar y farchnad hefyd yn arwain at lai o stoc ar yr ucheldiroedd.
- Costau cynhyrchu uwch ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Newidiadau diweddar i gynlluniau cefnogi'r cynllun amaeth-amgylcheddol yng Nghymru (symud i ddull sy'n seiliedig ar wasanaeth ecosystem trwy Glastir), gydag ansicrwydd o ran ei weithrediad, yn enwedig yr elfen 'Uwch'.
- Dirywiad parhaus mewn ffermio ucheldir traddodiadol a thir comin, sydd wedi arwain ymhellach at newid tymor hir yn natur a lefelau pori da byw yn yr ucheldiroedd.

- Draeniau tir yn bresennol mewn cynefinoedd cors i wella amaethyddiaeth, gyda rhai bellach yn cael eu blocio i adfer cynefinoedd cors a meysydd mawn i'w defnyddio fel storfa garbon.
- Ymlediad rhywogaethau anffroddol fel rhododendron.

### ***Datblygiadau***

- Gwifrau pŵer gweledol ymwithiol.
- Datblygiadau achlysurol sy'n anghydnaws â'r cymeriad lleol mewn aneddiadau arfordirol.
- Datblygiad rhuban sy'n arwain at gyfuno aneddiadau cyfagos sydd hefyd wedi digwydd mewn mannau ar hyd arfordir Arduddy.
- Gweithfeydd gwasanaeth ac ynni yn dominyddu rhai ardaloedd, gan leihau ansawdd y dirwedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys pwerdy niwclear Trawsfynydd, gwaith trin dŵr yn Llidiardau a safle rheoli gwastraff Ffridd Rasmus.
- Mae lefelau sylweddol o gynhyrchu ynni trydan dŵr yn y Parc Cenedlaethol.
- Tystiolaeth o weithgarwch milwrol yn y gorffennol a thiroedd datblygu a hyfforddi cysylltiedig (ee maes awyr milwrol Llanbedr, gwerysilloedd hyfforddi Tonfannau a Bronaber a meysydd tanio ucheldiroedd yr Arenig)
- Cynlluniau gwella ffyrdd.
- Poblogrwydd cynyddol ardaloedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, gyda galw cysylltiedig ar gyfer cefnogi datblygiad a seilwaith (gweler ymhellach 'grymoedd dros newid' yn y dyfodol)

### **Grymoedd Dros Newid yn y Dyfodol**

#### Effeithiau newid hinsawdd

- Potensial ar gyfer sychu rhostir gwlyb, gorgors a gwernydd oherwydd cynnydd mewn amllder sychder yn ystod misoedd yr haf. Gall yr amodau hyn hefyd arwain at danau rhostir amlach a dwys ac achosi difrod erydiad ar safleoedd archeolegol
- Gallai mwy o lefelau gwlybanaeth yn yr hydref a'r gaeaf arwain at briddoedd dirlawn a lefelau dŵr uwch yn nentydd yr ucheldir, corydd a lleiniau o gors blanced, gan arwain at lifogydd i lawr yr afon yn amlach
- Tymor tyfu hirach a gwell cyfraddau twf llystyfiant gan gynnwys rhedyn, eithin a choetir eilaidd gan arwain at ostyngiad yn y rhannau o rostir grug agored / cynefinoedd mynyddig a 'sgrwbio i fyny' cymoedd nentydd ucheldirol.
- Cynnydd yn nifer yr achosion o blâu a chlefydau a all effeithio ar rywogaethau fel grug a llus ac effeithiau dilynol ar fioamrywiaeth.
- Ymlediad rhywogaethau anffroddol ac estron mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd.
- Newid yng nghyfansoddiad rhywogaethau coetir / coed fel mae plâu / clefydau newydd yn lledaenu (Megis Chalara fraxinea a Phytophthora ramorum).
- Cynnydd yn lefel y môr a mwy o gyfnodau stormus yn arwain at erydu arfordirol a gwasgfa arfordirol, gan arwain at angen am ymatebion hirdymor, fel adlinio rheoledig.

### ***Ymatebion Newid yn yr Hinsawdd***

- Cynnydd yn y galw ar gyfer tyrbinau gwynt ar gyrion y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y môr (gweladwy o olygfeydd o'r mynyddoedd)
- Potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o fiomas tanwydd coed, gan arwain at newid yn y ffordd y defnyddir ac y rheolir coedwigoedd masnachol. Efallai y bydd y cynnydd yng ngwerth coetiroedd masnachol o ganlyniad yn arwain at goedwigoedd yn cael eu hymestyn a chael eu rheoli yn fwy dwys, yn ogystal â chyflwyniad coedlan gylchdro fyr
- Galw uwch am gynhyrchu bwyd yn y DU a allai arwain at gynnydd mewn lefelau stocio ar y tiroedd comin mynydd a ffridd, gan arwain at gor-bori cynefinoedd yr ucheldir a lledaeniad pellach glaswelltir.
- Galw pellach am osodiadau ynni adnewyddadwy yn y cartref ac ar raddfa gymunedol megis paneli solar, tyrbinau gwynt bach a phympiau gwres o'r ddaear
- Adfer rhostiroedd gwlyb, gorgors a gwernydd drwy gau ffosydd i greu ardaloedd newydd o briddoedd mawn ac atafaelu CO<sub>2</sub>
- Gyriant ar gyfer mwy o blannu ac adfywio coetir, gan gynnwys ar bennau nentydd cymoedd i wella y gallu i storio llifogydd, hidlo dŵr a swyddogaethau dal a storio carbon i gryfhau gwytnwch y dirwedd rhag newid yn yr hinsawdd
- Gwella cysylltedd cynefinoedd a chreu nodweddion tirwedd llinol newydd i weithredu fel coridorau bywyd gwyllt i gynorthwyo mudo rhywogaethau a gwydnwch
- Darparu ar gyfer datblygiadau newydd o ganlyniad i wasgfa arfordirol.

### ***Dyfodol ansicr ar gyfer ffermio ucheldirol***

- Gall newid yn y math o gnydau amaethyddol ddigwydd i gynyddu hyfywedd economaidd ffermio, ar y tir mwy cynhyrchiol
- Dirywiad mewn a cholli arferion ffermio traddodiadol yn arwain at newidiadau mewn gorchudd cynefinoedd. Gostyngiad yn nifer y ffermwyr sy'n arwain at faint ffermydd mwy a cholli patrymau caeau.
- Cynlluniau ffermio sensitif i ddalgylch afon i wella gwasanaethau ecosystem. Gwella storffeydd carbon (fel plannu coetir) i helpu gyda rheoleiddio'r hinsawdd ac amddiffyn rhag llifogydd.

### ***Datblygiad / perthnasol i dwristiaeth***

- Cynnydd mewn twristiaeth yn y DU gyda chynnydd cysylltiedig yn y galw am hamdden mewn safleoedd pot mël a'r cyfleusterau a'r isadeiledd perthnasol (ee meysydd parcio)
- Cynnydd yn y galw am osodiadau gwyliau, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol, gan arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer trosi eiddo, safleoedd carafanau a mathau newydd o letai ar gyfer ymwelwyr
- Mwy o ddarpariaeth a mynediad ar gyfer chwaraeon anffurfiol ac a reolir a thwristiaeth antur fel heicio, beicio, dringo / mynydda a chwaraeon dŵr.
- Cynnydd yn y pwysau am dai oherwydd bod y Parc Cenedlaethol yn ardal ddymunol i fyw ynnddi, yn enwedig ar gyfer pobl mewn oedran ymdeol.
- Gall llinellau cyflenwi pŵer ymwithiol eu golwg hefyd ddeillio yn sgil datblygiadau newydd.
- Gall cynnydd yn y defnydd o lwybrau troed mwy poblogaidd arwain at erydiad a chreithiau



- Effeithiau datblygu newydd a gwelliannau ffyrdd newydd ar lonyddwch ac ymdeimlad o anialwch.

#### **4 CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID TIRWEDD**

4.1 Mae'r tabl canlynol (Tabl 4.1) yn nodi canllawiau ar lefel-uchel ar gyfer rheoli a chynllunio ar gyfer newid yn y dirwedd yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n cael ei strwythuro o dan y penawdau a ganlyn

- Rheoli Tir a ffermio (gan gynnwys croesgyfeirio ac ACTau perthnasol)
- Rheoli Coedwigoedd a Choedlannau
- Adeiladu Gwytnwch rhag Newid Hinsawdd
- Llywio Datblygiad ar gyfer y Dyfodol (gan gynnwys croesgyfeirio at ACTau perthnasol)
- Mynediad a Thwristiaeth

4.2 Dylid darllen y canllawiau hyn gyda disgrifiadau ACTau, yn enwedig diwedd y rhannau ar '*Grymoedd Dros Newid yn Effeithio ar Gymeriad Tirwedd*' a '*Strategaeth Tirwedd ar gyfer y Dyfodol*'.

**Tabl 4.1:** Canllawiau tirwedd lefel uchel ar gyfer y Parc Cenedlaethol

CANLLAWIAU		ACTau PERTHNASOL
<b>RHEOLI TIR A FFERMIO</b>		
<b><u>Perthnasol i'r holl dirweddau</u></b>		
Sicrhau bod arferion ffermio sensitif sy'n gwella cymeriad tirwedd a bioamrywiaeth ymhellach.		
Cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i barhau i reoli'r tirlun gan ddefnyddio arferion traddodiadol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy ymylol. Parhau i gydnabod rôl bwysig amaethyddiaeth i'r economi leol		
Diogelu cyfanrwydd a'r gallu i olrhain yr amgylchedd hanesyddol drwy reolaeth sensitif (gan gynnwys rheoli hamdden lle bo hynny'n berthnasol) a chyfundrefnau pori da byw priodol. Cynnwys dehongliad sensitif, lle y bo'n briodol, ar safleoedd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd		
<b><u>Mynyddoedd / Ucheldiroedd</u></b>		
Gwarchod nodweddion daearegol a geomorffolegol o'r tirweddau mynydd, gan gynnwys nodweddion rhewlifol clasurol, gweithredu cyfundrefnau rheoli priodol (ee cynnal pori ar lethrau sgrï i osgoi prysgwydd / llechfeddiannu coetir eilaidd).		1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
Rheoli a gwella darnau o gynefinoedd mynyddig a rhostir grug drwy barhau gyda phori da byw helaeth a llosgi dan reolaeth ar lefelau sy'n briodol i wella bioamrywiaeth a chynnal arferion ffermio ucheldirol.		1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
Rheoli a diogelu ffiniau waliau cerrig traddodiadol a nodi ffiniau ardaloedd o ffridd ac ymylon y tir comin, gan ddefnyddio arddulliau carreg ac adeiladu lleol i adlewyrchu'r rhai a geir yn yr Ardal Cymeriad Tirwedd. Annog cominwyr a thirfeddianwyr i barhau i ddefnyddio waliau cerrig, yn hytrach na ffensys, i atgyfnerthu cymeriad y dirwedd.		1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
Rheoli a thrwsio ysguboriau caeau traddodiadol, gan ddefnyddio technegau cerrig ac adeiladu lleol lle bo hynny'n bosibl.		1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
<b><u>Ymylon Ucheldirol</u></b>		
Rheoli a gwella lleiniau o rostir grug a chynefinoedd eraill ucheldirol drwy barhau i bori da byw yn helaeth a llosgi dan reolaeth ar lefelau sy'n briodol i wella bioamrywiaeth, a chynnal arferion ffermio traddodiadol yr ucheldir a chynnal cysylltiadau gweledol a diwylliannol gyda'r ucheldiroedd cyfagos.		1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24

<b>CANLLAWIAU</b>	<b>ACTau PERTHNASOL</b>
Rheoli a gwella diddordeb bywyd gwyllt y dirwedd ffermio, gan gynnwys drwy gyfrwng y weithred o gadw clytiau o laswellt y gweunydd a phorfa frwyn a dolydd wedi'u lled wella.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
Rheoli a diogelu ffiniau caeau traddodiadol, gwneud gwaith atgyweirio cydymdeimladol ar waliau cerrig (gan adlewyrchu arddulliau a deunyddiau o'r Ardal Cymeriad Tirlun) a defnyddio rhywogaethau coed brodorol a thechnegau plygu gwrychoedd traddodiadol lle mae gwrychoedd nodweddiadol.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
Annog a chefnogi ffermwyr i ddefnyddio ffiniau caeau traddodiadol, yn hytrach na ffensys post a gwifren, wrth lenwi rhannau o ffiniau a gollwyd neu greu darnau newydd.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
Rheoli a gwarchod y patrymau caeau neilltuol o ardaloedd ymylol yr ucheldir, sy'n eistedd yn wahanol i ardaloedd cyfagos o ucheldir agored a thiroedd comin.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
Rheoli a thrwsio ysguboriau caeau traddodiadol, gan ddefnyddio technegau cerrig ac adeiladu lleol lle bo hynny'n bosibl.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
<b><u>Dyffrynnoedd / Aberoedd</u></b>	
Rheoli a gwella coetiroedd lled-naturiol y cymoedd trwy gyfrwng technegau traddodiadol, gan gynnwys coedlannu. Rheoli mynediad da byw i hyrwyddo adfywiad naturiol i wella hirhoedledd tra'n defnyddio pori helaeth i hyrwyddo amrywiaeth o rywogaethau o fflora daear coetir. Archwilio cyfleoedd i gymunedau ddefnyddio gweddillion coedlannau fel ffynhonnell danwydd carbon-isel.	7, 8, 14, 16, 17, 21, 23, 25
Rheoli a gwella cynefinoedd gwlyptir pwysig, porfa arbennig o wlyb a choetir glannau afon, drwy gadw a rheoli llif y dŵr, rheoli llystyfiant ymledol a gwrthsefyll gwelliannau amaethyddol. Bydd y mesurau hyn yn gwella eu rolau wrth reoleiddio llif nentydd ac afonydd.	7, 8, 14, 16, 17, 21, 23, 25
Rheoli a diogelu ffiniau caeau traddodiadol, gwneud gwaith atgyweirio cydymdeimladol ar waliau cerrig (gan adlewyrchu arddulliau a deunyddiau o'r Ardal Cymeriad Tirlun) a defnyddio rhywogaethau coed brodorol a thechnegau plygu gwrychoedd traddodiadol lle mae gwrychoedd nodweddiadol.	7, 8, 14, 16, 17, 21, 23, 25
Annog a chefnogi ffermwyr i ddefnyddio ffiniau caeau traddodiadol, yn hytrach na ffensys post a gwifren, wrth lenwi rhannau o ffiniau a gollwyd neu greu darnau newydd.	7, 8, 14, 16, 17, 21, 23, 25
<b><u>Arfordirol</u></b>	
Rheoli a diogelu ffiniau caeau traddodiadol, gwneud gwaith atgyweirio cydymdeimladol ar waliau cerrig (gan adlewyrchu arddulliau a deunyddiau o'r Ardal Cymeriad Tirlun) a defnyddio rhywogaethau coed brodorol a thechnegau plygu gwrychoedd traddodiadol lle mae gwrychoedd nodweddiadol.	10, 11
Annog a chefnogi ffermwyr i ddefnyddio ffiniau caeau traddodiadol, yn hytrach na ffensys post a gwifren, wrth lenwi	10, 11

<b>CANLLAWIAU</b>	<b>ACTau PERTHNASOL</b>
rhannau o ffiniau a gollwyd neu greu darnau newydd.	



## RHEOLI COEDWIGOEDD A CHOEDLANNAU

Rheoli planhigfeydd conwydd i leihau unrhyw effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â lleiniau cwympo coed.

Rheoli planhigfeydd tymor hir i sicrhau fod ffiniau yn dilyn tirlurf a thopograffeg ar gyfer tirwedd sy'n cydweddu / ffitio'n well. Lle bo modd, dylai ail-blannu gynnwys cyflwyno coed collddail i feddalau ymylon a chyflwyno mwy o amrywiaeth a diddordeb.

Cynllunio ar gyfer y symud ac adfer planhigfeydd i gynefinoedd agored yn raddol, o fewn y mynyddoedd a'r ucheldir ac ar hyd y gwastadedd arfordirol ill dau (ee ACT 10: Morfa Harlech). Lle mae coetir presennol yn rhoi rôl sgrinio gwerthfawr i ddatblygiad newydd neu bresennol, anelu at ail-strwythuro gyda [hinsawdd-wydn] choed llydandail brodorol yn hytrach na rhywogaethau coniferaidd.

Dylai unrhyw waith cwympo barchu presenoldeb nodweddion archeolegol a bywyd gwyllt.

## CYNYDDU GWYDNWCH RHAG NEWID HINSAWDD

Rheoli a gwella cynefinoedd gwlyptir pwysig, yn enwedig corsydd blanced a gwernydd dyffryn, trwy gadw a rheoli llif dŵr a rheoli llystyfiant ymledol. Bydd hyn yn gwella eu rolau wrth storio ac amsugno carbon deuocsid yn yr atmosffer a rheoleiddio nant a'r afon llif, gan gynnwys drwy annog a chefnogi mentrau megis Prosiect Adfer Cors a ariennir gan LIFE yr UE.

Caniatáu i'r aildyfiant naturiol o goetir lled-naturiol a phrysgwydd ar hyd y cyrsiau uchaf nentydd i wella cynhwysedd storio llifogydd i leihau llifogydd i lawr yr afon a gwella ansawdd dŵr. Peidio â gadael i adfywio naturiol ddigwydd ar y rhostir agored nac ochrau mynydd. Lle y bo'n briodol, rheoli trwy gyfrwng technegau coedlannu sensitif, gyda'r gweddillion yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell tanwydd ar gyfer y gymuned lle bynnag y bo modd.

Cynllunio ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd ar hyd yr arfordir yn y dyfodol, yn enwedig o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, erydu arfordirol, gan ganiatáu i brosesau naturiol ddigwydd lle bo hynny'n bosibl tra'n sicrhau bod cymunedau lleol yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu tirwedd yn y dyfodol. Cynllunio ar gyfer cyfleoedd i ehangu cynefinoedd arfordirol ac aberol er mwyn adeiladu gwytnwch rhag newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

## ARWAIN DATBLYGIAD Y DYFODOL

### Perthnasol i bob tirwedd

Ystyried 'Strategaethau Tirwedd' pob ACT wrth ystyried unrhyw gynigion datblygu.

Diogelu a gwella'r golygfeydd allweddol i ac o dirweddau eraill o fewn y Parc Cenedlaethol, a'r rhai y tu allan i'r dirwedd a ddiogelir.

Gwerthuso ac asesu pob cynnig datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn atgyfnerthu a, lle bo modd, gwella'r hynodrwydd lleol a chymeriad y dirwedd leol.

Cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd, neu newidiadau / estyniadau / addasiadau i ddatblygiad sy'n bodoli eisoes, i aros yn gyson â graddfa fernaciwlar, ffurf a deunyddiau'r Ardal Cymeriad Tirwedd leol.

Rheoli datblygiad newydd fel nad yw'n tresmasu / llechfeddiannu i mewn i letemau gwyrdd dynodedig yn y CDLIE.

Cynllunio unrhyw welliannau ffyrdd i gael eu lliniaru i adlewyrchu patrwm y dirwedd leol a chynnal y golygfeydd tuag at y tirweddau o gwmpas.

<b>CANLLAWIAU</b>	<b>ACTau PERTHNASOL</b>
<b><u>Mynyddoedd / Ucheldiroedd</u></b>	
Diogelu pob un o'r tirweddau hyn rhag datblygiadau anghydawns, hyd yn oed y rhai mewn mannau llai amlwg yn gyhoeddus.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
Gwarchod cymeriad 'heb ei ddatblygu' y mynyddoedd agored a'r ucheldiroedd, gan osgoi datblygu strwythurau fertigol a phlannu coed / coetir i gynnal eu cymeriad agored a diffyg ymyrraeth.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 13, 15, 18, 19, 20, 21, 22, 24
<b><u>Ymylon Ucheldirol</u></b>	
Gwarchod patrymau datblygu presennol yr ardal, gan gynnwys y cynllun a ffurf pentrefi a threfi hanesyddol	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
Gwarchod cymeriad heb ei ddatblygu o gopaon y brynau uwch, gan osgoi datblygu strwythurau fertigol a phlannu coed / coetir i gynnal eu cymeriad agored a diffyg ymyrraeth.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 12, 20, 24
<b><u>Dyffrynnoedd / Aberoedd</u></b>	
Amddiffyn patrymau datblygu presennol yr ardal, gan gynnwys y cynllun a ffurf pentrefi a threfi hanesyddol.	7, 8, 14, 16, 17, 21, 23, 25
Gwarchod cymeriad agored yr aberoedd (Mawddach, Dysynni a Dyfi) a'u golygfeydd pwysig i ac o'r ucheldiroedd cyfagos	17, 23, 25
<b><u>Arfordirol</u></b>	
Gwarchod cymeriad agored y tirweddau arfordirol, diogelu lefelau rhyngwelededd rhwng yr ucheldiroedd cyfagos, aneddiadau arfordirol y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a Phenrhyn Llŷn.	10, 11, 20, 25
Cyfyngu datblygiad newydd o fewn ffiniau anheddiad presennol lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn diogelu'r ardaloedd pwysig o arfordir agored sy'n weddill.	10, 11, 20, 25
Gwarchod cymeriad yr arfordir heb ei ddatblygu.	20, 25
Lleihau'r defnydd o amddiffynfeydd yr arfordir sy'n weledol ymwithiol, gwarchod (ac adfer lle bo'n berthnasol) prosesau arfordirol naturiol gweithredol lle bynnag y bo'n bosibl	10, 11, 20, 25

## MYNEDIAD A THWRISTIAETH

### Perthnasol i'r holl dirweddau

Cynllunio i unrhyw welliannau a wneir i'r rhwydwaith llwybrau troed a'r seilwaith cysylltiedig i fod yn sensitif i gymeriad y dirwedd leol tra'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd priodol ar gyfer mwynhau

Diogelu cyfanrwydd tirwedd y Parc Cenedlaethol tra'n cynnal ei werth a'i bwysigrwydd i'r economi leol trwy gyfrwng twristiaeth


Cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad twristiaeth neu hamdden newydd i wella cyfleusterau a rheoli ymwelwyr yn hytrach na chynyddu gallu cyffredinol. Fodd bynnag, bydd achosion i gynyddu capasiti drwy gynigion newydd.

Rheoli effaith weledol safleoedd gwerysyla / carafanio trwy ymdrin â ffiniau yn sensitif a thirweddau gwell, gan gynnwys plannu coetiroedd oddi mewn iddynt yn enwedig lle golygfeydd uwch i mewn i'r safle yn bosibl. Osgoi safleoedd newydd mewn safleoedd mynyddig agored neu ardaloedd arfordirol lle byddent yn arbennig o amlwg.

Parhau i gefnogi ac annog y defnydd o fannau coediog trwm y dirwedd (ee ACT 6, 19 a 22) fel adnoddau hamdden, gan ddargyfeirio gweithgarwch dwys oddi wrth dirweddau mwyaf sensitif y Parc Cenedlaethol

Cynllunio i unrhyw welliannau ffyrdd gael eu lliniaru i adlewyrchu patrwm y dirwedd leol ac i gynnal golygfeydd allweddol tuag at y tirweddau o amgylch.






	Ffin y Parc Cenedlaethol		ACT 13 - Y Rhinogau
	ACT 1 - Ucheldir y Gogledd		ACT 14 - Dyffrynnoedd Mawddach a'r Wnion
	ACT 2 - Y Carneddau		ACT 15 - Yr Arenig
	ACT 3 - Yr Wyddfa a'r Glyderau		ACT 16 - Llyn Tegid a Dyffryn Dyfrdwy
	ACT 4 - Moel Hebog		ACT 17 - Aber y Fawddach
	ACT 5 - Y Moelwynion		ACT 18 - Mynyddoedd yr Aran
	ACT 6 - Coedwig Gwydyr		ACT 19 - Coedwig Penllyn
	ACT 7 - Dyffryn Corwy		ACT 20 - Cadair Idris
	ACT 8 - Dyffryn y Ddwryd		ACT 21 - Pen Dyffryn Dyfi
	ACT 9 - Y Migneint		ACT 22 - Coedwig Dyfi
	ACT 10 - Morfa Harlech		ACT 23 - Dyffryn Dysynni
	ACT 11 - Morfa Dyffryn		ACT 24 - Y Tarrenau
	ACT 12 - Cefnwlad Arfordir Ardudwy		ACT 25 - Aber y Ddyfi

**Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Eryri**

**Ffigwr 2.1**  
**Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn y Parc Cenedlaethol**  
**Graddfa Map 1:300000**


Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata /  
 Crown copyright and database rights  
 2014, Ordnance Survey 100022403

Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri /  
 Copyright Snowdonia National Park





## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae Ucheldir y Gogledd yn ffurfio'r dirwedd ucheldir sylweddol gyntaf yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol. Mae'n cynnwys cyfres o gopaon - Moel Wnion, Drosogl, Foel Ganol, Pen y Castell, Drum, Carnedd Gwenllian, Tal y Fan a Mynydd y Dref sy'n codi rhwng 600 a 940m uwch datwm ordnans. Mae'r ardal yn ymestyn o Ffethesda (y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol) yn y gorllewin i lethrau gorllewinol dyffryn Conwy yn y dwyrain. Mae hefyd yn cynnwys cyrion Conwy i'r gogledd i greu cefnlen ger yr arfordir.

## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Topograffi dramatig ac amrywiol**; mae'n codi'n serth o arfordir Conwy ym Mhentir Penmaen-bach i greu cyfres o fynyddoedd, ac yn cyrraedd uchafbwynt ym Moel-Fras (942 metr). Mae'r godreon yn gostwng i lawr o'r mynyddoedd i greu tirwedd fwy cymhleth i'r dwyrain a'r gorllewin.
- **Tirwedd ddaearegol a geomorffaid gymhleth sy'n enwog drwy'r byd**, gyda chymysgedd o greigiau igneaidd a chreigiau gwaddod a ffurfiwyd gan symudiadau'r ddaear filiynau o flynyddoedd yn ôl, ac a gafodd eu datguddio a'u hail-ffurfio gan rewlifiant.
- **Nentydd amrywiol sy'n draenio i lawr o'r mynyddoedd**, ac yn plymio i lawr crognentydd fel rhaeadrau mewn mannau. Cymoedd siâp U a gerfiwyd drwy'r mynyddoedd, yn aml â dyddodion marian ac arwynebol helaeth.
- Cronfeydd dŵr yn Llyn Anafon, Dulyn, Melynlyn a Llyn Eigiau.
- Strimynnau bach o goedlannau a chellioedd sy'n gysylltiedig â thir amaeth yn yr iseldir ac ochrau'r cymoedd, sy'n cynnwys **coedlannau brodorol dynodedig cenedlaethol** yng Nghoedydd Aber, Coed Merchlyn, Coed Gorswen a Choed Dolgarrog. Blociau coedwig amlwg ar lethrau isaf Llwytmor Bach ac ym Mharc Mawr.
- **Mynyddoedd mawr agored sy'n gwrthgyferbynnu'n bendant â'r patrymau caeau hanesyddol bach yn y godreon**. Diffinnir yr ardal ganolig gan **ffridd amgaeedig reolaidd** fawr, sy'n darparu cysylltiadau diwylliannol a naturiol gwerthfawr rhwng yr ucheldiroedd a'r iseldiroedd o'u hamgylch.
- Caeau pori amgaeedig wedi'u gwahanu gan **waliau cerrig neu berthi**, yn aml iawn â choed perthi niferus. **Tir comin garw sy'n cael ei bori gan ddefaid** ar y mynyddoedd.
- **Cynefinoedd a rhywogaethau mynydd rhyngwladol bwysig** yn ACA / SoDdGA Eryri, sy'n cynnwys planhigion arctig-alpaidd prin, gwaun mynydd, siliau clogwyni a gwlyptiroedd. Coedlannau gwlyb a derw mes di-goes yn ACA / SoDdGA / GNG Coedydd Aber, sy'n cysylltu'r mynyddoedd â'r arfordir i'r gogledd.
- **SoDdGA Bwlch Sychnant**, yng ngogledd-ddwyrain yr Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT), sy'n cynnwys gweundir sych, glaswelltir asidig, rhedyn, corstir, pyllau a nentydd – sy'n darparu cefnlen naturiolaid i Aber Conwy gerllaw.
- **Cyfoeth o nodweddion archeolegol rhyngwladol bwysig** gan gynnwys henebion angladdol a defodol o'r Oes Efydd (e.e. y meini hir ym Mwlich y Ddeufaen), bryngaerau amlwg o'r Oes Haearn (e.e. Maes y Gaer a Dinas) a thystiolaeth o anheddiad, systemau caeau a llwybrau cludiant cynnar (e.e. y ffordd Rufeinig sy'n mynd trwy Fwlch y Ddeufaen a Chastell Aber o'r 11<sup>eg</sup> ganrif).
- **Gweddillion chwareli llechi o'r 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif** i'w canfod trwy'r ardal i gyd, gan gynnwys chwareli a thomenni segur.
- **Mynyddoedd anghyfnedd, gyda darnau mawr o dir mynediad agored** a rhydwraith gwasgaredig o hawliau tramwy (ond dim mynediad ffordd). Mae'r tir amaeth amgaeedig ar lefel is yn cynnwys ffermydd o gerrig a llechi yma ac acw, ac ambell bentrefan clystyrog sydd wedi'u cysylltu gan ffyrdd gwledig troellog.
- Mae anheddiad hanesyddol Abergwyngregyn (Ardal Gadwraeth) mewn lleoliad cysgodol ar lannau Afon Aber; man cychwyn strategol i deithwyr sy'n croesi'r Fenai. Saif pentref Llanllechid (sydd hefyd yn Ardal Gadwraeth) o boptu ffin y Parc Cenedlaethol yn y godreon gorllewinol.
- **Mynyddoedd sy'n creu cefnlen ddramatig i'r arfordir a'r morlun gerllaw** (gan gynnwys ffordd arfordirol yr A55) sy'n aml yn nodweddu golygfeydd o Ynys Môn, y Fenai a morlin Conwy.
- **Golygfeydd pell i'r gogledd ar draws y morlin, allan i'r môr ac i Ynys Môn**. Mae'r ffermydd gwynt ym Môr Iwerddon yn nodweddion amlwg ar y gorwel pell. Mae golygfeydd i'r de wedi'u hatal gan fynyddoedd y Carneddau.
- **Tirwedd anghysbell, hynod dawel** gydag ychydig iawn o ymyriadau modern, ac mae ansawdd 'anial' cyffredinol yn gysylltiedig â'r mynyddoedd.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Planhigfeydd coed conwydd sy'n amharu ar ansawdd gweledol cyffredinol Dyffryn Aber uwchlaw Abergwyngregyn.
- Tyrbinau gwynt ar y môr sy'n weladwy o'r ACT ac sy'n effeithio ar lonyddwch a natur anghysbell y dirwedd.
- Dwysáu amaethyddiaeth ar dir is sy'n arwain at oruchafiaeth tir pori wedi'i wella mewn mannau. Ymlediad coedlannau eilaidd ar gyrion mynyddoedd sy'n dangos gostyngiad mewn lefelau pori yn yr ardaloedd ymylol hyn.
- Waliau cerrig yn cwmpo mewn mannau, a'r bylchau yn aml yn cael eu cau â ffensys postyn a gwifren.
- Pwysau gan ddatblygiadau twristaidd yn gysylltiedig â chyrchfannau poblogaidd Rhaeadr Fawr, Bwlch Sychant a thref Conwy gerllaw.
- Yn gysylltiedig â'r uchod: pwysau am leoedd parcio ac addasu eiddo i'w gosod fel llety gwyliau.
- Pwysau am seilwaith newydd, megis piblinellau dŵr a thyrbinau gwynt y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.
- Twf trefol yng Nghonwy (y tu allan i ffin y Parc ond yn weladwy o'r ACT), a datblygiadau'r 20<sup>fed</sup> ganrif ar gyrion anheddiad hanesyddol sy'n effeithio ar y cymeriad traddodiadol lleol (e.e. Rowen).


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Ystyrir bod yr ACT hon yn un o'r tirweddau sy'n 'ganolbwynt' yn Eryri, ac mae llawer ohoni wedi'i diffinio fel '*harddwch naturiol*' fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a'r elfennau sy'n cyfrannu ato - yn enwedig nodweddion llongydwch a natur anghysbell - yn cael eu gwarchod a'u gwella.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y penawdau 'Mynyddoedd' a 'Cyrion yr Ucheldir'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Tirwedd ucheldir yw hon rhwng ffordd yr A5 ac Ucheldir y Gogledd (ACT 1). I'r gorllewin, mae dyffryn siâp U nodedig Nant Ffrancon yn ffin iddi, ac Afon Llugwy a ffordd yr A5 i'r de. Mynyddoedd y Carneddau, yn enwedig Carnedd Llywelyn, yr ail gopa uchaf yn Eryri, 1,064 metr uwch datwm ordnans, yw'r nodwedd amlycaf yn y dirwedd.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Linell crib uchel ac amlwg mynyddoedd y Carneddau**, sy'n codi i gopa Carnedd Llywelyn 1,064 metr uwch datwm ordnans.
- **Tirwedd ddaearegol a geomorffaidd gymhleth sy'n enwog drwy'r byd**, gyda dyddodion folcanig a chyfres o ddyffrynnoedd a grëwyd gan ffawtliniau oddi tanodd.
- **Tystiolaeth sylweddol o rewlifiant**, gan gynnwys cymoedd, crognentydd, dyddodion clog-glai yn llawr y dyffryn, sgri a marian. Dynodwyd GNG Cwm Glas Crafnant a SoDdGA Cors Geuallt am eu nodweddion rhewlifol.
- **Dyffryn siâp U Nant Ffrancon** sy'n creu nodwedd tiffurf amlwg. Nentydd amrywiol sy'n draenio i lawr o'r mynyddoedd i Afon Llugwy a Nant Ffrancon islaw.
- **Llynnoedd ar wasgar drwy'r ardal gyfan**, gan gynnwys Llyn Ogwen (ym mhen Nant Ffrancon), llynnoedd cwm Ffynnon Lloer, Ffynnon Caseg a Ffynnon Llyffant a chronfeydd dŵr Llyn Cowlyd a Ffynnon Llugwy.
- **Tirwedd agored a di-goed yn bennaf**, gyda choedlannau wedi'u cyfyngu i ambell goeden ynn ar lethrau Craig Wen.
- **Copaon mynydd agored** a llethrau uwch yng nghanol **ffridd amgaeedig** reolaidd fawr. Caeau ar raddfa lai sy'n diffinio llawr dyffryn Nant Ffrancon ar y cyfan.
- **Tir comin garw sy'n cael ei bori gan ddefaid** ar y mynyddoedd, gyda thir pori wedi'i led-wella a chaeau porfa arw ar y llethrau isaf.
- **Cynefinoedd a rhywogaethau mynydd rhyngwladol bwysig** yn ACA / SoDdGA Eryri (sy'n cynnwys yr ACT gyfan), gan gynnwys planhigion arctig-alpaidd prin, gwaun mynydd, siliau clogwyni a gwlyptiroedd. Mae'r rhain wedi'u cymysgu â rhedyn a glaswelltir asidig / corsiog.
- **Mae'n cynnwys tir yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen**, sy'n dangos tystiolaeth o ddefnydd tir cynhanesyddol (safleoedd angladdol a defodol) ac ecsbloetiaeth ddiwydiannol o lechi yn ystod y 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif.
- **Tirwedd anghyfannedd yn bennaf**, gydag adeiladau wedi'u cyfyngu i glystyrau bach o fythynnod llechi a phentrefannau ar hyd yr A5.
- Coridor ffordd yr A5 sy'n dilyn llwybr hanesyddol, hardd drwy'r porth gogleddol hwn i weddiill y Parc Cenedlaethol. **Dim mynediad ffordd i'r mynyddoedd, ond mae llawer ohono yn dir mynediad agored** â llond llaw o lwybrau troed diffiniedig.
- **Mynyddoedd anghysbell a gwyllt**. Mae'r A5 wedi erydu'r ymdeimlad cryf o lonyddwch yn lleol ar y cyfan, yn ogystal â datblygiadau twristaidd yn nyffryn Llugwy ac o amgylch Llyn Ogwen a Rhaeadr Ogwen.
- **Golygfeydd panoramig o'r mynyddoedd**, gan gynnwys i'r gogledd tua'r arfordir a morluniau Conwy ac Ynys Môn, lle mae'r tyrbinau gwynt ar y môr yn weladwy, ac i'r de tuag at masiff yr Wyddfa.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.

## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Datblygiadau twristaidd yn nyffryn Llugwy ac o amgylch Llyn Ogwen a Rhaeadr Ogwen (gan gynnwys canolfan gweithgareddau awyr agored, meysydd parcio a meysydd gwerysyla ar hyd dyffryn Llugwy).
- Cynigion am dyrbinau gwynt y tu allan i’r Parc Cenedlaethol (gan gynnwys cynlluniau yn bell yn y môr) sy’n effeithio ar olygfeydd agored, panoramig o’r ACT hon.
- Pwysau gan gynigion twristaidd, yn enwedig y galw am leoedd parcio ar hyd yr A5.
- Waliau cerrig sy’n diffinio cyrion tir comin mynyddoedd ac ardaloedd hanesyddol o ffridd, sy’n aml yn cael eu hamnewid am ffensys.
- Ceblau / llinellau trydan uwchben sy’n cysylltu eiddo preswyl ar y llethrau isaf.
- Blociau geometrig o blanhigfeydd coed conwydd sy’n amlwg iawn yn y dirwedd agored.

## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Ystyrir bod yr ACT hon yn un o’r tirweddau sy’n ‘ganolbwynt’ yn Eryri, ac mae llawer ohoni wedi’i diffinio fel ‘*harddwch naturiol*’ fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a’r elfennau sy’n cyfrannu ato - yn enwedig nodweddion llonyddwch a natur anghysbell - yn cael eu gwarchod a’u gwella.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Canllawiau’ yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y penawdau ‘Mynyddoedd’ a ‘Cyrion yr Ucheldir’.



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Yr ACT hon yw craidd gweledol a hanesyddol y Parc Cenedlaethol. Mae fwy neu lai wedi'i hamgylchynu gan yr A4085 (gorllewin), yr A4086 (de a'r dwyrain) a'r A5 (gogledd) gyda bwch ar hyd llawr y dyffryn sy'n cerffio drwy'r mynyddoedd oddi amgylch. Prif nodwedd y dirwedd yw'r Wyddfa ei hun, sy'n codi i 1,086 metr uwch datwm ordnans ac mae nifer o gopaon eigionig eraill bob ochr iddo, megis Crib Goch a'r Lliwedd. Mae Bwlch Llanberis (A4086) yn rhannu'r ardal fwy neu lai yn ei hanner; mae mynyddoedd y Glyderau i'r gogledd (a'r Wyddfa i'r de).



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- Tir mynyddig garw, â chefnau creigiog, copaon â chreigiau ar wasgar a nifer o gymoedd o gwmpas copaon y mynyddoedd. **Mae'r Wyddfa yn codi i 1,086 metr uwch datwm ordnans fel y mynydd uchaf yng Nghymru.**
- **Daearog gymhleth:** cymysgedd o greigiau igneaidd a chreigiau gwaddod, sy'n destun symudiadau platiau tectoneg, folcanigrwydd a rhewlifant gyda nifer o gymoedd wedi'u gwahanu gan gribau a chlogwyni creigiog amlwg. Ardal ryngwladol bwysig ar gyfer astudio nodweddion rhewlifol ac ôl-rewlifol, gan gynnwys GNG Cwm Idwal<sup>2</sup> a SoDdGA Cwm Dwythwch.
- **Nentydd sy'n llifo'n gyflym a rhaedrau sy'n draenio i lawr o'r mynyddoedd** i gwrdd â'r dyffrynnoedd islaw, gan gynnwys dyffryn serth siâp V Afon Nant Peris, sy'n rhannu'r ACT fwy neu lai yn ei hanner.
- **Mynyddoedd yn frith o nifer o lynnoedd cwm**, gan gynnwys Llyn Dwythwch a Glaslyn, yn ogystal â chronfeydd dŵr yn Llyn Ffynnon-y-gwas a Llyn Llydaw.
- Gorchudd coed / coedlannau wedi'i gyfyngu i lethrau isaf y dyffryn, yn enwedig uwchlaw Afon Glaslyn ac o amgylch Betws Garmon.
- **Copaon mynydd agored a llethrau uchaf** wedi'u hamgylchynu gan ffridd amgaeedig reolaidd fawr **wedi'i rannu gan waliau cerrig.** Mae llethrau isaf a lloriau'r dyffryn wedi'u diffinio gan batrwm o gaeau afreolaidd ar raddfa lai.
- **Tir comin garw sy'n cael ei bori gan ddefaid ar y mynyddoedd**, gyda thir pori wedi'i led-wella a chaeau porfa arw ar y llethrau isaf. Mae'r dyffrynnoedd yn cynnwys rhai caeau o dir pori wedi'i wella.
- **Cynefinoedd a rhywogaethau mynydd rhyngwladol bwysig** yn ACA / SoDdGA Eryri, gan gynnwys planhigion arctig-alpaidd prin, gwaun mynydd, siliau clogwyni a gwlyptiroedd. Caiff Llyn Idwal ei werthfawrogi'n rhyngwladol am lystyiant gwlyptir cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r grognant a'r rhewlyn prin ei faethynnau.
- **Ardal fawr yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig**, gan gynnwys tystiolaeth o ddefnydd tir cynhanesyddol ac anheddiad (e.e. cytiau a thir caeedig sy'n edrych allan dros Lyn Ogwen) a chreiriau mwyngloddio llechi o'r 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif, megis chwareli a thomenni.
- **Anheddiad wedi'i gyfyngu i gyrion y mynyddoedd**, gan gynnwys ymylon canolfan dwristaidd Llanberis, ac ambell bentrefan ar ochr y dyffryn, a phentref hanesyddol Nant Peris (Ardal Gadwraeth).
- **Mae'r mwyafrif o'r mynyddoedd yn dir mynediad agored**, gydag ambell i hawl tramwy. Mae'r ACT yn cynnwys Rheilffordd yr Wyddfa (atyniad twristaidd poblogaidd) ac mae wedi'i amgylchynu gan brif ffyrdd (gan gynnwys Bwlch Llanberis) sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol.
- **Tirwedd eiconig sy'n ysbrydoli** ac sy'n boblogaidd ymhlith artistiaid ac awduron, sy'n meddu ar gysylltiadau agos â Chymru, a hunaniaeth a llên gwerin Cymru.
- **Ymdeimlad cyffredinol o bellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb**, sydd wedi'i ddwysáu gan berthynas agos y dirwedd â mynyddoedd yr ACT gyfagos.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.

<sup>2</sup> Gwarchodfa Natur Genedlaethol gyntaf Cymru, a ddynodwyd ym 1954

## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Ymlediad coedlannau eilaidd ar gyrion y mynyddoedd sy'n dangos gostyngiad mewn lefelau pori yn yr ardaloedd ymylol hyn.
- Waliau cerrig yn cwmpo mewn mannau, a'r bylchau yn aml yn cael eu cau â ffensys postyn a gwifren.
- Cyfleusterau parcio ychwanegol i ymwelwyr ym Mhen y Gwryd.
- Cynnydd o ran pwysau ymwelwyr yn dilyn cwblhau Rheilffordd Ucheldir Eryri drwy Feddgelert.
- Adeilad newydd ar gopa'r Wyddfa, sef Hafod Eryri.
- Mae rhai o'r farn bod yr adeilad ar gopa'r Wyddfa a'r rheilffordd yn amharu ar nodweddion anghysbell y dirwedd.

## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL


Ystyrir bod yr ACT hon yn un o'r tirweddau sy'n 'ganolbwynt' yn Eryri, ac mae llawer ohoni wedi'i diffinio fel '*harddwch naturiol*' fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a'r elfennau sy'n cyfrannu ato - yn enwedig nodweddion llonyddwch a natur anghysbell - yn cael eu gwarchod a'u gwella.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y penawdau 'Mynyddoedd' a 'Cyrion yr Ucheldir'.



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT hwn yn ffurfio rhan ucheldirol orllewinol o Ogledd Eryri ac mae'n cynnwys copaon Mynydd Mawr (698m), Mynydd Graig Goch (609m), Craig Cwm Silyn (734m), Moel yr Ogof (655m) a Moel Hebog (782m). Mae'r rhain yn rhedeg i lawr tarren amlwg uwchben Tremadog, ac yn gor-edrych dros rannau isaf yr Afon Glaslyn. Mae'r ACT wedi ei ffinio tua'r dwyrain gan yr A4085 fel mae'n pasio trwy'r dyffrynoedd sydd o amgylch y mynyddoedd. Mae'r dirwedd yn cynnig golygfeydd trawiadol o'r arfordir a chraidd Eryri.



NODWEDDION ALLWEDDOL ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Tirwedd Clasurol Eryri** yn cynnwys dyffrynnoedd rhewlifol wedi'u cerfio rhwng copaon mynyddoedd creigiog, Moel Hebog (782 metr AOD) yw'r copa uchaf.
- **Daeareg gymhleth** sy'n cynnwys cymysgedd o greigiau folcanig (igneaid) a chreigiau gwaddodol sydd wedi'u ffurfio gan symudiadau'r ddaear ac wedi eu hail – fodelu'n sylweddol gan weithredoedd rhewlifant. Mae AoDdGA Craig- y- Garn yn cynnwys creigiau folcanig sy'n bwysig yn rhyngwladol o'r Cyfnod Ordfigaidd .
- Dyffrynnoedd clasurol siâp U yn cerfio drwy'r mynyddoedd, gan gynnwys yr Afon Glaslyn, Afon Dwyfor a Dyffryn Nantlle. Mae dyddodion marian a dyddodion clogfeini clai yn nodweddion o fewn y cymoedd hyn.
- **Llynnoedd rhewlifol wedi cael eu canfod ar ben y dyffrynnoedd**, megis Llyn Cwm Dulyn , Llyn Nantlle Uchaf a Llyn Cwmystradllyn. Llynnoedd cwm hefyd wedi cael eu gwasgaru drwy'r mynyddoedd, gyda chronfa Llyn Cwmystradllyn hefyd o fewn yr ACT.
- Coedwig Beddgelert yn cynnwys coedwigoedd coniferaidd eang mewn lleoliad amlwg ar fryniau. Planhigfeydd bach a bandiau sylweddol o goetir llydanddail lled - naturiol i'w canfod ar ochrau'r dyffryn.
- **Copaon mynydd heb eu hamgau** wedi ei hamgylchynu gan gaeau **ar raddfa fawr o ffridd** cyffredin, wedi'u rhannu â waliau cerrig neu ffensys. **Dyffrynnoedd a ddiffinnir gan batrwm caeau hanesyddol ar raddfa fach** , gyda waliau cerrig sy'n darparu undod â'r ucheldir creigiog.
- **Tir garw cyffredin yn cael ei bori gan ddefaid** ar y mynyddoedd , gyda thir pori wedi ei led wella a chaeau glaswelltir garw ar y llethrau
- **Cynefinoedd lled-naturiol amrywiol, gan gynnwys gweundir grugog, glaswelltir asidig, corsydd a llaciau** (ee AoDdGAu Moel Hebog a Chors Graianog), **a glaswelltiroedd llawn rhywogaethau ac yn frith o goetiroedd** lled -naturiol derw / bedw mewn dyffrynnoedd (ee Coedydd Derw Meirionnydd ACA sy'n bwysig yn rhyngwladol)
- **Tirwedd hanesyddol cyfoethog yn adlewyrchu'r economi ddeuol mwngloddio** ac amaethyddol yr ardal. Tystiolaeth sy'n bwysig yn genedlaethol o ddefnydd tir cynhanesyddol (ee cylchoedd cytiau hynafol a systemau caeau ger Nantlle) yn ogystal ag aml greiriau diwydiannol (ee melin llechi slab Ynys y Pandy ac anheddiad chwarel diffaith yn Nhreforys).
- **Mae rhannau sylweddol yn cael eu cydnabod fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol** (ToDdHE) - rhan ogleddol yr ACT yn dod o fewn y ToDdHE Dyffryn Nantlle, a dyffryn Glaslyn o fewn ToDdHE Aberglaslyn. Mae rhannau o Feddgelert ac Ardaloedd Cadwraeth Nantmor yn dod o fewn yr ACT.
- **Mynyddoedd ansefydlog wedi'u hamgylchynu gan batrwm hanesyddol o ffermydd cerrig / llechi gwasgaredig a phentrefannau achlysurol wedi'u clystyru** ac wedi'u cysylltu gan lonydd neu lwybrau croesi pontydd cerrig crwm. Mae ffyrdd yr A498 a'r A4085 yn ffinio ag ymylon deheuol a dwyreiniol yr ACT yn yr un drefn.
- **Y rhan fwyaf o'r mynyddoedd yn anhygyrch i gerbydau , ond mae rhannau mawr wedi'u diffinnir fel tir mynediad agored / tir cyffredin** gyda hawliau tramwy yn cysylltu'r cymoedd cyfagos. Atyniadau ymwelwyr megis Rheilffordd Ucheldir Cymru a phentref hanesyddol Beddgelert yn gwneud y fan hon yn gyrchfan twristiaeth poblogaidd.
- **Tirlun gyda chysylltiadau diwylliannol ac ieithyddol cryf**, gan gynnwys ogof Owain Glyndŵr ar lethrau gorllewinol Moel yr Ogof .
- **Golygfeydd eang tua'r dwyrain tuag at Benrhyn Llŷn a tua'r gogledd tuag at Gaernarfon** – gyda'r mynyddoedd eu hunain yn ffurfio cefndir gwerthfawr i'r

<sup>1</sup> Mae print amlwg yn dangos y nodweddion allweddol hynny a ystyrir fel 'rhinweddau gwerthfawr' yn yr ACT : agweddau cymeriad sy'n cyfrannu llawer tuag at hunaniaeth leol.

isaf. Dyffrynnoedd yn cynnwys rhai caeau o dir pori wedi'i wella.

morluniau cyfagos

## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD TIRWEDD

Dylech gyfeirio at y rhan ' Grymoedd dros Newid ' yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol . Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd canlynol dros newid:

- Tresmasiad coetir eilaidd ar gyrion mynydd yn dangos gostyngiad yn y lefelau pori yn yr ardaloedd ymylol hyn.
- Ysguboriau carreg traddodiadol yn troi'n adfeilion oherwydd diffyg defnydd / cynnal a chadw
- Waliau cerrig yn mynd i gyflwr gwael mewn rhai mannau, gyda'r bylchau yn aml wedi'u cau gyda ffensys pyst - a - gwifrau.
- Pwysau am ddatblygiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr ardal.
- Blociau Geometrig o blanhigfeydd conifferaidd yn sefyll allan yn amlwg yn y dirwedd agored, gan gynnwys Coedwig Beddgelert.

### STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL


Mae'r ACT hwn yn cael ei ystyried fel un o'r tirweddau sy'n 'ganolbwynt ' yn Eryri, gyda llawer ohono'n cael ei ddiffinio fel ' *harddwch naturiol*' fel y'i dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri ( CDLIE ). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a'r elfennau hynny sy'n cyfrannu tuag ato - yn enwedig y rhinweddau o lonyddwch a phellenigrwydd - yn cael eu gwarchod a'u gwella.

### CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID TIRWEDD YN Y DYFODOL

Cyfeiriwch at yr adran ' Canllawiau ' o'r brif ddogfen CCA , yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan ' Mynyddoedd ' a phenawdau ' Ucheldir Ymylol'



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT hon yn cynnwys rhannau mewndirol uchaf yr Afon Glaslyn o Feddgelert, gan gynnwys ochrau'r dyffryn cysylltiedig a chopau yr ucheldir (yn codi i 872 metr uwchlaw'r seilnod ordnans yng Ngharnedd Moel Siabod). Mae llawr y dyffryn yn gymharol gul ac mae'n cynnwys cyrff dŵr mawr Llyn Dinas a Llyn Gwynant, sy'n dominyddu llawr y dyffryn. Mae llawer o'r llethrau ochr wedi cael eu gorchuddio â phlanhigfeydd, coniferaidd yn bennaf, ac mae ardaloedd llai o goetir llydanddail yma ac acw. Mae'r ACT yn amgylchynu tref a diwydiant Blaenau Ffestiniog, sydd y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- **Tirwedd a ddiffinnir gan ddyffryn dwfn Nant Gwynant, sydd â chefnidir o gopaon mynyddoedd golygfaol fel cefnlen** olynol (gan gynnwys Ysgafell Wen). Y copa uchaf yw Carnedd Moel Siabod ( 872 metr uwchlaw'r seilnod ordnans).
- **Dyffrynnoedd Nant Gwynant a Nanmor wedi'u siapio gan weithred rhewlifol**, gyda marianau eang, blaen ddyddodion, sgri a chlogfeini clai.
- **Y mynyddoedd o amgylch yn cynnwys brigiadau craig folcanig** sy'n genedlaethol bwysig(ee SoDdGA Yr Arddu) a nodweddion geomorffolegol wedi eu gadael fel etifeddiaeth wedi rhewlifant (ee SoDdGA Moelwyn Mawr) .
- **Llyn Dinas a Llyn Gwynant yn ffurfio cyrff mawr o ddŵr ar lawr y dyffryn.** Llynnoedd 'Cwm' yn y mynyddoedd (ee Llyn Llagi, Llyn yr Adar a Llynau Diffwys) , ynghyd â nifer o Gronfeydd dŵr.
- **Ardaloedd corsïog, corsydd, rhaeadrau a nentydd sy'n llifo'n gyflym** yn draenio o'r mynyddoedd i'r dyffrynnoedd islaw.
- Planhigfeydd conwydd ar raddfa Ganolig, ar ffurf geometrig ar lethrau amlwg, gyda bandiau gwerthfawr o goetiroedd llydanddail lled -naturiol ar ochrau'r dyffryn.
- **Copaon mynyddoedd agored wedi'u amgylchynu gan amgaeadau rheolaidd mawr o ffridd. Llethrau a gwaelodion dyffrynnoedd a ddiffinnir gan batrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach.** Y ffiniau yw waliau cerrig, sy'n rhoi undod gyda'r ddaearog waelodol.
- Lloriau a llethrau Dyffryn sy'n cael eu diffinio i raddau helaeth gan gaeau bugeiliol, tra bo' ochrau mynyddoedd a chopau yn cael eu nodweddu gan dir comin garw sy'n cael ei bori gan ddefaid.

- **Ardaloedd yr ucheldir a nodweddir gan rostir a glaswelltir mynyddig**, gyda Chreigiau'r Garth yn dod o fewn AGA/SoDdGA Eryri (sydd hefyd yn werthfawr oherwydd y planhigion arctig - alpaidd prin, silffoedd clogwyni a gwlyptiroedd ). **Coetir 'Iwerydd' gwlyb sy'n genedlaethol werthfawr yng Nghoedydd Nantgwynant**
- **Parc diroedd cofrestredig Gradd II, gyda choedlannau addurniaol a gerddi ffurfiol**, ar lethrau Dyffryn y Glaslyn (Bryn Gwynant, Plas Gwynant a Chraflwyn). Gerddi teras Gradd II\* o'r 17eg Ganrif sy'n gor-edrych dros Afon Maesgwm.
- **Creiriau diwydiannol, gan gynnwys nifer o domenni segur, chwareli, lefelau a mwyngloddiau** (yn rhannol o fewn Tirwedd Hanesyddol Bwysig Eithriadol Blaenau Ffestiniog. **Tystiolaeth o anheddiad hynafol** ar ffurf cytiau cylch a safleoedd anheddau o bwysigrwydd cenedlaethol, yn ogystal â chastell canoloesol Cymreig Dolwyddelan.
- Anheddiad hanesyddol Beddgelert (cyrchfan ymwelwyr hir sefydledig) a Nantmor – sydd ill dau yn Ardaloedd Cadwraeth – wrth fynediad y ddau dyffryn.
- Mewn lleoedd eraill, **ffermydd achlysurol o wneuthuriad carreg a phentrefannau wedi eu gwasgaru ar draws y dyffrynnoedd cysgodol** – yn atodol i'r rheiny mae'r meysydd gwerysyla, meysydd parcio a datblygiad perthnasol i dwristiaeth arall.
- Prif ffyrdd yn troelli trwy'r dyffrynnoedd, gan gynnwys Bwlch Golygfaol Nant Gwynant (A498). Bwlch Gerddinen (A470) yn torri trwy'r rhan ddeheuol o'r ACT. **Mae llawer o dirwedd y mynydd yn dir mynediad / tir comin agored** ac yn atodol i hynny mae ambell i hawl tramwy. Mae Nant Gwynant yn fan cychwyn ar gyfer Llwybr Watcyn hyd copa'r Wyddfa.
- **Pentref Beddgelert sy'n lle panoramig sy'n ysbrydoli, gyda'i gysylltiad cryf gyda llen gwerin y Ci o'r enw Gelert.**
- **Mae'r ACT yn cynnwys gorsaf bwmpio a storio trydan dwr Tanygrisiau, y cyntaf ym Mhrydain (1963).** Mae'r argae uchaf sydd 500 metr AOD yn un o'r tir nodweddion mwyaf amlwg a wnaed gan ddyn yn yr ardal ehangach.
- **Tirwedd heddychlon olygfaol iawn sy'n cael ei or edrych gan Yr Wyddfa**, ac mae'r rhinweddau hyn yn cael eu heffeithio yn lleol gan swm/gweld traffig ar hyd y prif ffyrdd dosbarth A.

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol.

## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd canlynol dros newid:

- Tresmasiad coetir eilaidd ar gyrion mynydd yn dangos gostyngiad mewn lefelau pori yn yr ardaloedd ymylol hyn.
- Waliau cerrig sydd angen eu hatgyweirio mewn rhai lleoliadau, gyda bylchau aml neu wedi cael eu hatgyweirio gyda ffens pyst a gweifren.
- Pwysau ar lwybr ffyrdd cludiant a pharcio o fewn y dirwedd, gan gynnwys ar ymylon pentrefi hanesyddol.
- Blociau geometrig o blanhigfeydd conifferaidd sy’n sefyll allan yn amlwg ar lethrau mynyddoed agored.
- Cynigion datblygu ym Mlaenau Ffestiniog a all gael effeithiau gweledol andwyol ar y dirwedd o gwmpas.

## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**


Mae Beddegelert yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr ac mae'r ardal yn cynnwys bwlch golygfaol Aberglaslyn a Nant Gwynant. Mae treftadaeth gref a chymdeithasau diwylliannol ledled yr ACT gyda thystiolaeth o fwyngloddio copr yng Nghwm Bychan ac mewn mannau eraill. Bydd gweithgareddau twristiaeth a hamdden cynaliadwy yn cael eu hannog er y bydd rhaid darparu gwarchodaeth rhag datblygiadau amhriodol.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran ‘Canllawiau’ o’r brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan benawdau ‘Mynyddoedd’ ac ‘Ymylon Ucheldirol’.



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT hon yn cael ei dominyddu gan blanhigeydd conifferaidd eang sydd i'w gweld tua'r gogledd, y de a'r gorllewin o Fetws-y-Coed ar ran ddwyreiniol y PC. Mae Dyffryn Conwy yn nodi ffin ddwyreiniol yr ACT (yn disgyn o fewn ACT 7), ac ar hyd y gwaelodion mae Afon Lledr ac Afon Machno – sy'n isafonydd o'r Conwy.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- Tirwedd tonnog cryf yn cynnwys bryniau gyda chopau crwn wedi'u rhannu gan gyfres o gymoedd. Tir uwch yn y de gyda chyfres o gopaon ucheldirol, a'r uchaf ydi Y Ro Wen.
- **Dyffrynnoedd rhewlifol siâp U clasurol** a llethrau bryniau is gyda dyddodion clai clog helaeth ynghyd â drymlinau, dyddodion mawn a phen sy'n creu'r dopograffeg gymhleth
- **Nentydd a rhaedrau sy'n llifo'n gyflym** sy'n draenio o'r bryniau i'r prif gymoedd isod, yn plymio drwy geunentydd mewn rhai lleoliadau. Tirwedd yn cael ei dorri gan y brif Afon Conwy, Machno, Llugwy a Lledr
- **Llynnoedd rhewlifol** a chronfeydd yn nythu yn y bryniau (e.e. Llyn Crafnant a Llyn Geirionydd).
- Planhigfeydd coniferaidd eang ar lethrau brynai a chopau; yn dylanwadu'n gryf ar gymeriad y dirwedd. **Coedlannau llydanddail rhannol naturiol a werthfawrogir a ddeuir o hyd iddynt ar lethrau dyffrynnoedd / ceunentydd.**
- Copaon bryniau agored a phlanhigfeydd sy'n cyferbynnu gyda **phocedi isel o gaeau afreolaidd ar raddfa fach.** Mae llawr dyffryn Conwy yn cynnwys matrices o gaeau rheolaidd.
- **Pori garw ar gopaon mynydd, â ffermio bugeiliol yn bennaf ar y llethrau isaf,** a thir pori/dolydd gwlyb mewn dyffrynnoedd
- **Mae ardaloedd sylweddol o ddolydd llawn blodau gweddilliol, glaswelltir corsïog a llaciau** ar hyd llawr y dyffryn, ac mae llawer o'r ardaloedd wedi'u dynodi fel SoDdGA
- **AGA Mwyngloddiau Coedwig Gwydyr** sy'n cael eu gwerthfawrogi yn rhyngwladol oherwydd y gweithfeydd a'r tomenni gwastraff o diwydiant plwm, haearn a sinc o'r gorffennol – sy'n cefnogi cymunedau planhigion prin.
- **Treftadaeth ddiwylliannol gref yn gysylltiedig gyda diwydiant y gorffennol,** gan gynnwys hen fwyngloddiau, tomenni gwastraff, siaftiau a lefelau (e.e. Mwyngloddiau Plwm Hafna a Choed Mawr – sydd ill dau yn Henebau Rhestredig). Mae Caer Rufeinig Bryn-y-Gefeiliau yn meddiannu lle strategol wrth ochr yr Afon Llugwy.
- **Ardal yn cael ei gwasanaethu gan Fetws-y-Coed, tref wedi'u niwcleiddio o fewn pensaerniaeth lluniadol yr 19 ganrif.** Cysylltiadau gydag artistiaid a'r economi ymwelwyr a oedd yn tyfu yn ystod y cyfnod hwnnw (sy'n cael ei adlewyrchu yn y statws Ardal Gadwraeth).
- Mae anheddau eraill sy'n canolbwyntio ar lawr y dyffryn wedi'u cysylltu â'r prif ffyrdd (e.e. ffyrdd yr A470 a cefnffordd yr A5), gyda **ffermydd o wneuthuriad carreg / llechi a phentrefannau** ar eu hyd.
- Datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth megis meysydd parcio, safleoedd gwersylla a'r ganolfan gweithgareddau awyr agored Towers – sydd wedi'i ganolbwyntio yn benodol o gwmpas Betws-y-Coed. Mae llawer o'r ardal goediog a'r ucheldiroedd cyfagos yn dir mynediad agored, ynghyd â hawliau tramwy a llwybrau beicio mynydd atodol.
- Sŵn a symudiadau o'r prif ffyrdd, ynghyd â datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth, yn amharu ar y rhinweddau a fyddai fel arall yn rinweddau **heddychlon, gwledig a golygfaol** o'r dirwedd (porth pwysig at fynyddoedd y Parc Cenedlaethol)
- **Golygfeydd panoramig a golygfannau a werthfawrogir o dir uwch** yn caniatáu golygfeydd o'r mynyddoedd gerllaw.

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol.

## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan 'Grymoedd dros Newid ' yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol . Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd canlynol dros newid:

- Tresmasiad coetir eilaidd oherwydd gostyngiad mewn lefelau pori, gan leihau ardaloedd o gynefin agored ac amharu ar olygfeydd tua'r mynyddoedd o amgylch
- Cynnydd ym mhoblogrwydd yr ardal ar gyfer dibenion hamddena, yn enwedig beicio mynydd ar draciau drwy Barc Coedig Gwydyr.
- Waliau cerrig sydd angen eu hatgyweirio mewn rhai lleoliadau, gyda bylchau aml neu wedi cael eu hatgyweirio gyda ffens pyst a gwifren.
- Blociau geometrig o blanhigeydd coniferaidd wedi cael eu cyflwyno ers yr 20fed Ganrif.
- Datblygiad perthnasol i dwristiaeth ymyl ffordd rhwng Betws-y-Coed a Chapel Curig, gan gynnwys arwyddion amlwg.
- Cynnydd yn y lefelau o perygl llifogydd ym Metws-y-Coed.

## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**


Mae hamdden yn nodwedd bwysig o'r ardal hon ac mae llawer o'r ACT yn cael ei gwmpasu gan Barc Coedwig Gwydyr. Bydd gweithgareddau twristiaeth a hamdden cynaliadwy yn cael eu hannog. Mae'r ardal yn gyfoethog mewn archeoleg ddiwydiannol mae'n parhau i fod yn gysylltiedig â mwynloddio plwm a sinc, ac mae llawer o safleoedd wedi cael eu cadw a'u dehongli. Ceisir gwella bioamrywiaeth drwy well rheolaeth coedwigaeth a choetiroedd.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran 'Canllawiau' o'r brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan y penawdau 'Mynyddoedd' ac 'Ymylon Ucheldriol'.



RHAN 1: DISGRIFIAD



**CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU**

Mae'r ACT wedi'i ganolbwyntio ar yr Afon Conwy fel mae'n llifo trwy rhan ddywreiniol y Parc Cenedlaethol ar ei chwrs i Fae Conwy (o'i tharddiad yn Cerrig Llwynogod yn ACT 9). Mae'r tirwedd heddychlon, wledig yn darparu porth dwyreiniol i mewn i Eryri oddi ar yr A5.

## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- Tirwedd cwm tonnog gyda chopauon bryniog crwn achlysurol, gan gynnwys Moel Trefriw (325 metr AOD), Capel Garmon (329m) a Dinas Mawr (254m).
- Daeareg o dan yr wyneb yn cynnwys creigiau Siluraidd o fewn grwp Llanymddyfri, yn cynnwys, cerrig llaid, cerrig silt a cherrig tywod, gyda bandiau achlysurol o **twff igneaidd yn ffurfio brigiadau creigiog.**
- **Tirwedd a ddiffinnir gan Afon Conwy a'i llednentydd**, gan gynnwys yr Afon Eidda, Afon Gwrysgog a nifer o nentydd a ffynhonnau draenio o'r tir uwch
- **Cymoedd a nentydd yn aml wedi'u gwisgo mewn bandiau o goetir llydanddail.** Blociau o blanhigfa gymysg a choed coniferaidd sy'n gysylltiedig â'r llethrau dyffryn serth yng ngogledd yr ACT
- **Patrwm hanesyddol cryf o gaeau afreolaidd bach a chanolig wedi'u rhannu gan waliau cerrig neu wrychoedd (yn aml gyda banciau blodau ac yn rhedyn-gyfoethog).** Mae pcedi o dir pori garw agored ar gopaon bryniau
- **Cymeriad bugeiliol yn bennaf**, gyda chymysgedd o gaeau wedi'u gwella a'u led-wella a rhai ardaloedd cynhyrchu â'r raddfa fwy dwys. **Darnau o laswelltir garw, porfa frwyn, eithin a rhostir yn cyfrannu at fosaig amrywiol.**
- **Glaswelltir gwlyb sy'n gyfoethog o rywogaethau ac ardaloedd o laswellt y bwla sy'n darparu ddiddordeb cadwraeth natur** (ee SoDdGA Porfeydd Pont Bancog a Eidda), ynghyd â'r coetir lled-naturiol, cymunedau rhedyn a chen Ceunant Conwy (SoDdGA Coed Ffos Noddyn)
- **Ardaloedd bychain yng AGA Mwyngloddiau Coedwig Gwydyr**, gyda gweithfeydd a thomenni gwastraff o'r diwydiant plwm, haearn a sinc yn y gorffennol yn cefnogi cymunedau planhigion prin
- **Tystiolaeth o anheddau ac arferion defodol cynhanesyddol**, gan gynnwys siambr garnedd hir a charneddau crwn Capel Garmon yn Y Foel. Afon Conwy yn cael ei gor edrych gan ddwy o ystadau parcdir, Ty Hendre (Gradd II) a Foelas (Gradd II \*) – y diwethaf yn werthfawr yn enwedig oherwydd ei leoliad hardd ar lan yr afon
- **Patrwm gwasgaredig o bentrefannau a ffermydd wedi'u cysylltu gan lonydd troellog a llwybrau gwledig.** Ardal a wasanaethir gan bentrefi hanesyddol clystyredig Capel Garmon, Ysbyty Ifan a chanolfan groeso Betws-y-Coed gerllaw (ACT 6)
- Mae cefnffordd yr A5 a'r B4406 yn darparu'r prif lwybr ffyrdd drwy'r dirwedd. Mae rhwydwaith o hawliau tramwy ac ardaloedd o dir mynediad agored uwchben Dyffryn Conwy yn darparu cyfleoedd hamdden
- **Tirlun heddychlon a gwledig yn darparu golygfeydd a phorth braf i mewn i Eryri.** Yr unig beth sy'n erydu'r rhinweddau hyn yn lleol yw traffig ar yr A5 a datblygiad llinellol yr 20fed ganrif yn lledaenu ar hyd y B4406 o Benmachno
- **Golygfannau a werthfawrogir o dir uwch** yn canitau golygfeydd o'r mynyddoedd gerllaw sy'n ffurfio craidd y Parc Cenedlaethol.

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol.



### **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol . Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd canlynol dros newid:

- Tresmasiad coetir eilaidd oherwydd lleihad mewn lefelau pori, gan leihau ardaloedd o gynefin agored ac amharu ar olygfeydd tua'r mynyddoedd o amgylch
- Dirywiad mewn gwaith rheoli gwrychoedd sy’n gyfoethog mewn rhywogaethau mewn rhai lleoliadau, gyda darnau wedi’u disodli gan ffensys pyst-a-gwifrau neu waliau cerrig
- Llinellau telathrebu yn mynd heibio drwy'r tirlun, yn erydu ei nodweddion dilychwin, gwledig mewn mannau

### **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Mae’r ACT hon yn ffurfio ffin ddwyreiniol yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol, gan godi o orlifdir Afon Conwy i lwyfandir uchel sy’n cynnig golygfeydd tuag at y Conwy a rhostiroedd Dinbych. Mae’r llethrau yn cynnwys coedwig gonwydd yn bennaf ac mae etifeddiaeth o fwyngloddio plwm a sinc yn yr ardal. Ceisir gwella bioamrywiaeth drwy well rheolaeth coedwigol a rheolaeth metaloffytau ar gloddfeydd ysbeiliol.

### **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran ‘Canllawiau’ o’r brif ddogfen CCA , yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan benawdau ‘Ymylon Ucheldriol’ a ‘Dyffrynnoedd/Aberoedd.’



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ardal yn ymestyn o ffin y Parc Cenedlaethol i'r gogledd o Lan Ffestiniog i lawr i Benrhyndeudraeth, ac mae ei chanolbwynt yn anheddiad Maentwrog. Mae'n ddyffryn gwastad, agored a chymharol lydan sydd dan ddylanwad estyniad llanw Afon Dwyryd a'i his-afonydd.



## NODWEDDION ALLWEDDOL ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Topograffi cymhleth sydd wedi'i ddiffinio gan ffurf llanw Afon Dwryd a'i his-afonydd**, sydd wedi'i amgylchynu gan dirwedd dyffryn tonnog amrywiol, â cheunant serth yn gefnlen iddo.
- **Bryniau coediog yn edrych allan dros estyniad llanw gorllewinol yr afon** i'r gogledd, sy'n codi i 234 metr uwch datwm ordnans yn Y Gysgfa.
- Daeareg o greigiau gwaddod Cambria yn bennaf, gan gynnwys tywodfeini, cerrig silt a cherrig llaid. Tywod, traethellau a dyddodion llifwaddod yn ymylu Afon Dwryd.
- **Nentydd, llynnoedd bach a rhaedrau** (e.e. Rhaeadr Cynfal) yn draenio i mewn i Afon Dwryd a'i his-afonydd.
- **Ochrau serth y dyffryn wedi'u gorchuddio â choedlannau**, coed conwydd yn bennaf â rhai rhannau sylweddol o goetiroedd derw hynafol cenedlaethol bwysig.
- Matrics rheolaidd o gorsydd wedi'u hadfer ar lawr y dyffryn a rhannau o'r dyffryn amgylchynol, yn frith o borfeydd afreolaidd llai. Pcedi o gopaon bryniau agored sy'n cael eu pori gan ddefaid.
- **Caeau wedi'u hamgáu yn gyffredinol gan waliau llechi**, sy'n cyflwyno undod â'r cymeriad lleol. Rhai darnau o ffensys postyn a gwifren.
- **Lleiniau helaeth cenedlaethol bwysig o goedlannau derw ac ynn** ar lethrau bryniau a cheunentydd, sy'n cynnal cennau prin, yn ogystal â mwsoglau, adar ac ystumod magu. Mae gerddi a choedlannau addurnol Gradd II\* Plas Tan y Bwlch yn edrych allan dros Afon Dwryd.
- **Rhan ddeheuol yr ACT yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor**, sy'n adlewyrchu hanes hir o anheddu gan bobl. Mae'r nodweddion yn cynnwys clystyrau cytiau hynafol ar Nurse Cae Due, Ffordd Rufeinig Sarn Helen a llinell reilffordd (a thraphont) segur Ffestiniog.
- **Aneddiadau clystyrog Gellilydan, Llan Ffestiniog a phentref stad Maentwrog** (Ardal Gadwraeth). Gwelodd Llan Ffestiniog dwf cyflym yn ystod y 19<sup>eg</sup> ganrif yn gysylltiedig â'r diwydiant llechi.
- **Wedi'i anheddu yma ac acw mewn mannau eraill**, gyda ffermydd a phentrefannau ar wasgar sydd wedi'u cysylltu gan ffyrdd gwledig troellog. Mae cefnffordd yr A470, yr A487 a'r A496 yn rhannu'r dirwedd.
- **Mae Afon Dwryd yn gyrchfan poblogaidd ar gyfer pysgota a chwaraeon dŵr** megis canwio a chaiacio.
- **Tirwedd wledig iawn sydd wedi'i fframio gan olygfeydd o'r mynyddoedd oddi amgylch.**

<sup>1</sup> Mae print amlwg yn dangos y nodweddion allweddol hynny a ystyrir fel 'rhinweddau gwerthfawr' yn yr ACT : agweddau cymeriad sy'n cyfrannu llawer tuag at hunaniaeth leol.

## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD TIRWEDD**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Mae peilonau’r National Grid yn nodweddion dynol amlwg yn aber Afon Dwryd.
- Nodwedd amlycaf y dyffryn yw ffyrdd, yr A470 (ar gyrion y gogledd) a’r A496 (ar gyrion y de) – nodwedd sy’n tarfu yn weledol ac yn glywedol.
- Tynnu a theneuo coed planhigfa yng Nghoed Llyn y Garnedd.
- Esgeuluso waliau cerrig a llechi ac adeiladau amaethyddol cerrig traddodiadol yn nhirwedd amaethyddol y dyffryn.

## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**


Â’i chanolbwynt yn Afon Dwryd, mae’r ACT hon yn cynnwys ardaloedd helaeth o goedlannau derw brodorol ar lethrau’r dyffryn gyda phlanhigfeydd coed conwydd yma ac acw. Mae cymeriad lleol nodedig sy’n seiliedig ar Stad Tan y Bwlch, sydd wedi’i arddangos gan bentref Maentwrog. Anogir gweithgareddau twristiaeth a hamdden cynaliadwy tra byddir yn diogelu rhag datblygiadau amhriodol. Ceisir gwella bioamrywiaeth drwy reoli’r coedwigoedd a’r coedlannau’n well.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Canllawiau’ yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd ‘Dyffrynnoedd/Aberoedd’.



## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT ucheldir hon yn ffinio â dyffrynnoedd Prysor a Thryweryn i'r de, a'r A470 i'r gorllewin. Mae'n ymestyn dros ucheldiroedd y Migneint, gan gynnwys copaon Carnedd y Filiast (669 metr) ac Arenig Fach (689 metr). Mae dyffryn Machno a ffin y Parc Cenedlaethol yn cwblhau ymlediad yr ardal i'r gogledd a'r dwyrain.



**NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>**

- **Bloc ucheldir agored a thonnog** â'i ganolbwynt yn y Migneint. Tirwedd sy'n cynnwys copaon anghysbell Carnedd y Filiast (669m) ac Arenig Fach (689m).
- Creigiau gwaddod ac igneaidd amrywiol gyda chyfresi gwaddodol rhewlifol a ffrwd-rewlifol trwchus drostynt. **Nodweddion tirffurf dramatig, gan gynnwys dyffrynnoedd siâp U a chymoedd.**
- Tir yn disgyn yn raddol i'r gorllewin, ac yn cynnwys tir fferm amgaeedig tonnog sydd wedi'i rannu gan nentydd (e.e. Afon Prysor).
- **Gwlyptiroedd yn cynnwys gorgors, cyfargors a chwam ucheldir a llynnoedd oligotroffig. Nifer o nentydd sy'n llifo'n gyflym a rhaedrau** sy'n draenio i lawr o'r ucheldiroedd, gan gynnwys rhagnentydd Afon Conwy.
- **Ucheldiroedd di-goed yn bennaf**, gyda blociau planhigfeydd geometrig ar yr ymylon (e.e. Ffridd Nant-Crethyll, Hafod Fawr, ac ar y llethrau uwchlaw Afon Machno). Strimynnau bach o goedlannau llydanddail ar y llethrau sy'n cael eu ffermio.
- **Ochrau a lloriau rhan isaf y dyffryn â phatrwm o gaeau bach, afreolaidd** â pherthi yn ffin iddynt, sy'n cyferbynnu â'r ardaloedd o ffridd a'r ucheldiroedd agored.
- **Ucheldiroedd yn dir pori garw (gan ddefaid yn bennaf);** â thir fferm bugeiliol ar ochrau a llethrau rhan isaf y dyffryn.
- **Lleiniau o waun uchel, gorgors, tyfiant a choedlannau rhyngwladol bwysig sy'n cynnal poblogaethau adar pwysig yr ucheldir** (SoDdGA/ACA/AGA Migneint-Arenig-Dduallt). I ffrwd o'r rhostir, mae mannau o borfa ucheldir sy'n llawn rhywogaethau sy'n cynnal planhigion a blodau prin (SoDdGA Castell Prysor).
- **Gweddillion archeolegol cenedlaethol bwysig** gan gynnwys cyfadeiladau caer Rufeinig, amffitheatr, (Tomen y Mur) a gwerylloedd ymarfer cysylltiedig (Dol-ddinas), ynghyd ag aneddiadau anghyfannedd wedi'r canoloesoedd a charneddau cynhanesyddol ar wasgar drwy'r ardal.
- **Cysylltiad diwylliannol cryf â'r bardd Ellis Evans (Hedd Wyn)** a ennillodd y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1917 ar ôl ei farwolaeth yn Passchendaele. Mae cartref y teulu, sef Yr Ysgwrn ger Trawsfynydd, yn cael ei ddatblygu fel canolfan ddiwylliannol gan APCE.
- **Chwareli llechi, tomenni a mwynefydd manganîs ledled** yr ardal, ynghyd â rheilffordd ddatgymaledig.
- **Mae llawer o'r ardal yn Stad Ysbyty, a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.** Mae'r rhan fwyaf o'r dirwedd ucheldir yn dir mynediad agored neu dir comin.
- **Ucheldiroedd anghyfannedd, gydag ambell fferm llechi ar y llethrau isaf sy'n cael eu ffermio.** Mae sawl ffordd yn croesi'r ucheldiroedd, gan gynnwys y B4407, y B4431 a'r A4212.
- **Tirwedd ag ymdeimlad uwch o lonyddwch ac unigedd** nag ardaloedd mwy poblogaidd Eryri

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.

## GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Sŵn ymwithiol o’r A4212
- Gwifrau trydan uwchben y National Grid i’w canfod ar hyd yr A4212.
- Planhigfeydd coed conwydd mawr â ffiniau syth, unffurf nodedig.
- Datblygiadau ffermydd gwynt mawr yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych cyfagos, â’r potensial i effeithio ar olygfeydd o’r ardal.
- Addasu ysguboriau i ddarparu llety / ysguboriau cysgu i ymwelwyr.
- Cynigion ar gyfer gwella ffyrdd dosbarth A a B sy’n croesi’r ACT.


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Ystyrir bod yr ACT hon yn un o’r tirweddau sy’n ‘ganolbwynt’ yn Eryri, ac mae llawer ohoni wedi’i diffinio fel ‘*harddwch naturiol*’ fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a’r elfennau sy’n cyfrannu ato - yn enwedig nodweddion llonyddwch a natur anghysbell - yn cael eu gwarchod a’u gwella.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Canllawiau’ yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd ‘Mynyddoedd’.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Tirwedd arfordirol isel ac unigryw sy'n gorwedd yn agos at, ond yn is na thref hanesyddol Harlech. Mae'r rhan fwyaf o'r dirwedd yn dir sydd wedi'i adfer, gyda'r ymyl arfordirol wedi'i ddiffinio gan y twyni tywod bryncynnog a thraeth tywod llydan Morfa Harlech – cyrchfan boblogaidd i dwristiaid.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Tirwedd arfordirol isel, yn bennaf islaw 10 metr uwch datwm ordnans**, gyda rhai o'r creigiau ieuengaf yn Eryri oddi tanodd. Mae'r rhain ochr yn ochr â rhai o'r hynaf yn Ffawt Egryn, gyda dyddodion morydol arwynebol helaeth drostynt.
- Dyddodion mawn a choedwig tanddwr sy'n cael eu datgelu gan y llanw o bryd i'w gilydd ar hyd y blaendraeth arfordirol. **Mae ei ddiddordeb geomorffolegol yn cyfrannu at ddynodiad SoDdGA y dirwedd.**
- **Copaon bryniau bach llyfngrwn ger yr Ynys yn edrych allan dros yr aber**, sy'n cynnwys creigiau mwy gwydn ac yn cyrraedd hyd at 69 metr uwch datwm ordnans.
- **Tirwedd lle mae ehangder Aber Dwryd yn goruchafu**, gyda sianeli llanw yn fforchio i'r fflatiau amgylchynol.
- **Corsydd / tir fferm adferedig wedi'u croesi gan rwydwaith o sianeli draenio a nentydd** sy'n draenio i mewn i'r aber.
- Planhigfeydd coed conwydd geometrig yn y de sy'n creu nodweddion anamlwg disylw yn y dirwedd wastad. Yn achlysurol iawn, ceir strimynnau bach o goedlan fan arall, ond **tirwedd agored iawn** yn bennaf.
- **Matrix o gorsydd hirsgwar adferedig o'r 19<sup>eg</sup> ganrif** wedi'u rhannu gan ffosydd a ffensys postyn a gwifren, gyda waliau llechi ar fin y ffyrdd. Gwlyptiroedd yw ymylion agosaf yr aber a'r arfordir.
- **Cynefinoedd arfordirol cyfoethog sy'n cynnwys twyni tywod rhyngwladol bwysig, morfa heli, glaswelltir, cors a'r traeth helaeth ym Morfa Harlech.** Mae'r ACT i gyd o fewn SoDdGA / GNG Morfa Harlech, ac mae llawer hefyd yn ACA ddynodedig.
- **Mae'r ACT i gyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ehangach Arduwly, sy'n cynrychioli tystiolaeth helaeth o anheddiad cylchol a defnydd tir oddi ar y cyfnod cynhanesyddol.**
- Mae pentref cnewyllog yr Ynys o'r 19<sup>eg</sup> ganrif yn sefyll ar lannau aber, ac yn cynnwys adeiladau cerrig o amrywiol ddyluniadau. Mae'r ACT hefyd yn cynnwys Harlech Isaf, sy'n cynnwys tai o'r 20<sup>fed</sup> ganrif a meysydd carafanau / gwersylla **â Chastell Harlech yn edrych drostynt (ACT 12) ynghyd â'r dref hanesyddol.** Mae ffermydd yma ac acw ar hyd min y ffyrdd.
- Mae ffordd brifwythiennol yr A496, ynghyd â rheilffordd Cambria, yn torri drwy'r dirwedd ac yn eryru ei hymdeimlad naturiol cryf.
- Hawliau tramwy ysbeidiol a Llwybr Arfordirol Cymru yn croesi drwy'r dirwedd arfordirol Mae cwrs golff Royal St David's yn wynebu Harlech, ac wedi'i gyfuno â'i leoliad yn y twyni tywod.
- **Golygfeydd helaeth ar draws y twyni eang agored ac aber** Afon Glaslyn, gyda mynyddoedd craidd Eryri yn gefnlen ynghyd ag amlinelliad nodedig Pen Llŷn.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Datblygiadau tai a thwristiaeth yn, a chyfagos at Harlech Isaf – sy'n gwanhau cyfanrwydd hanesyddol craidd tref Hen Harlech gerllaw, a lleoliad Castell Harlech (ACT 12 – Safle Treftadaeth y Byd).
- Effaith weledol meysydd carafanau / gwersylla yn y dirwedd arfordirol agored, ynghyd â safle tirlenwi a rheoli gwastraff Ffridd Rasmus.
- Blociau coed conwydd geometrig o'r 20<sup>fed</sup> ganrif sy'n amlwg yn y gwastadedd arfordirol, sy'n anghytûn â'i gymeriad agored a naturiol.
- Waliau cerrig ar hyd yr A496 sydd mewn cyflwr gwael mewn mannau.
- Effaith y gwelliannau ffordd a fydd yn angenrheidiol ar yr A496 yn y dyfodol.
- Perygl y cynefinoedd arfordirol a morydol rhyngwladol bwysig i effeithiau newid yn yr hinsawdd – yn enwedig codiad yn lefel y môr a'r cywasgu arfordirol


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Bydd y cynefinoedd arfordirol cyfoethog, gan gynnwys systemau twyni tywod rhyngwladol bwysig, yn cael eu gwarchod a'u gwella. Bydd golygfeydd agored helaeth o'r bryniau amgylchynol dros y gwastadedd arfordirol hwn a thua'r môr hefyd yn cael eu diogelu, fel y bydd golygfeydd allan o'r ACT i'r mynyddoedd a Phen Llŷn. Byddir yn archwilio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chynnal prosesau morydol naturiol, yn enwedig i gryfhau gwydnwch y dirwedd arfordirol mewn perthynas â chodiad yn lefel y môr a chywasgu arfordirol.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd 'Arfordirol'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Ardal gymeriad fach sy'n gorwedd i'r gorllewin o'r A496, yn gorwedd ychydig yn uwch na lefel y môr, yn cael ei dominyddu bron yn gyfan gwbl gan gomepws y cyn Sefydliad Awyrennau Brenhinol a'r maes awyr cysylltiedig. Mae ymyl y tir yn cael ei ddiffinio gan system dwyni. Mae'r A496 yn mynd drwy nifer o aneddiadau bach, Tal y Bont, Coed Ystumgwern a Llanbedr, ac mae'n ddifrifol yn weledol a sw'n. Yn yr un modd y mae rheilffordd Arfordir y Cambrian yn rhedeg drwy'r ardal

## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- **Tirwedd arfordirol fflat yn darparu blaen gorllewinol i'r Parc Cenedlaethol**, gyda thwyni tywod yn Morfa Dyffryn a pharth rhyng lanwol llydan.
- Y rhan fwyaf o'r dirwedd o dan 10 metr UAO, yn cynnwys dyddodion arwynebol yn cynnwys graean bras a thywod. Mae'r traeth llydan sydd ar flaen yr ACT yn cael ei dominyddu gan gerrig cobl a chlogfeini.
- Daeareg tanategol o greigiau Trydyddol a Mesozoig cymharol ifanc toredig (yng nghyd destun Eryri), yn erbyn creigiau hynafol y Cambrian sy'n ffurfio'r ucheldiroedd cyfagos.
- **Mae Aber yr Afon Artro yn diffinio rhan ogleddol yr ACT, gyda'r Afon Ysgethin lai yn cwrdd â'r môr ymhellach i'r de.** Tirwedd wedi ei groesi â sianeli draenio, afonydd bach a nentydd.
- **Rhannau bach o goedlannau wedi eu teneuo gan wynt ynghyd â phrysgwydd**, a choed gwrych yn darparu rhagor o orchudd yn fwy mewndirol.
- **Matrics i gorsydd pori hirsgwar wedi eu hadhawlio wedi'u rhannu gan ffosydd.** Mae'r rhain yn amgylchynu eangdiroedd o dwyni tywod a glaswelltir arfordirol heb ei amgáu.
- Caeau bugeiliol yn fwy mewndirol yn ffurfio **patrwm afreolaidd ar raddfa fach, wedi ei rannu gan waliau carreg cerrig cobl neu wrychoedd.**
- **Mae Morfa Dyffryn yn rhyngwladol bwysig am ei system dwyni tywod symudol (wedi'i ddynodi'n AGA), wedi ei amgylchynu gyda chorsydd halen, corsydd, graean bras gyda llystyfiant arno a slaciau twyni.** Mae'r ardal hon wedi ei dynodi yn AoDdGA a GNC.
- **Mae'r ACT cyfan o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Arduwy ehangach**, yn cynrychioli tystiolaeth eang o anheddiad cylchol a defnydd tir ers yr oes cyn hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys cylch cytiau cyn hanesyddol i'r gogledd o Tyddyn-Mawr (sy'n Heneb Rhestredig).
- **Mochras wedi'i chreu trwy gyfrwng defnydd tir hanesyddol** - wedi i'r Afon Artro gael ei gwyro gan Iarll Winchelsea yn 1819 o'i chwrs blaenorol. Nid yw'n hygyrch mewn cerbyd pan fo llanw'n uchel.
- **Ardal denau ei phoblogaeth**, y prif anheddiad yw Llandanwg, gan gynnwys rhai datblygiadau tai o'r 20fed ganrif. Mewn mannau eraill, mae patrwm gwasgaredig o ffermydd sy'n gysylltiedig â'r ffermydd ar yr ymylon
- Hanner gogleddol y tirlun yn cael ei ddominyddu gan faes awyr Llanbedr sy'n segur. Datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wedi eu gwasgaru ledled yr ardal, gan gynnwys safleoedd gwersylla a charafanau a meysydd parcio (gan gynnwys ar Ynys Mochras, sy'n gyrchfan twristiaeth poblogaidd).
- **Golygfeydd hir ar draws arfordir y Cambrian**, gyda golygfeydd mewndirol wedi eu dominyddu gan fynyddoedd sy'n graidd i'r Parc Cenedlaethol.

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol..



## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD TIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan ‘ Grymoedd dros Newid ‘ yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd canlynol dros newid:

- Effaith weledol safleoedd gweryslla / carafanio o fewn y dirwedd arfordirol agored.
- Poblogrwydd yr ardal ar gyfer twristiaeth, gyda thraffig ar ffyrdd gwledig yn cael effaith ar lefelau o lonyddwch, yn enwedig yn ystod oriau brig
- Maes Awyr Llanbedr wedi ei ddynodi yn Ardal Menter a’i hyrwyddo fel canolfan ar gyfer ymchwil Cerbydau Awyr Di-griw (UAV) ynghyd â gwaith cynnal a chadw a datgomisiynu awyrennau


## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Bydd y cynefinoedd arfordirol cyfoethog, gan gynnwys systemau twyni tywod pwysig yn rhyngwladol, yn cael eu diogelu a’u gwella. Bydd golygfeydd agored helaeth o’r bryniau cyfagos dros y gwastadedd arfordirol a thuag at y môr yn cael eu diogelu, yr un fath a’r golygfeydd ar hyd arfordir y Cambrian a’r môr agored. Bydd cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth a chefnogi prosesau aberol naturiol yn cael eu harchwilio, yn arbennig i gryfhau gwytnwch y dirwedd arfordirol i lefelau môr yn codi a gwasgfa arfordirol. Bydd cyfleoedd yn y dyfodol i ail-ddatblygu neu adfer y safle maes awyr sensitif yn cael eu dilyn, gan gymryd i ystyriaeth ei gweledded cryf o fewn y dirwedd agored.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran ‘Canllawiau’ o’r brif ddogfen CCA , yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan benawdau ‘Arfordirol’.

**RHAN 1: DISGRIFIAD**



**CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU**

Yr ACT hon yw'r ardal i'r gorllewin o fynyddoedd y Rhinog, sy'n mynd ar ogwydd yn ddramatig tuag at ymyl yr arfordir. Mae'n ymestyn o geg yr Afon Dwyrdd ac ymyl Coed Felinrhyd tua gogledd ffin y Parc Cenedlaethol tua'r gogledd o'r Bermo yn y de.

**12: CEFNWLAD ARFORDIR ARDUDWY****NODWEDDION ALLWEDDOL O'R ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>**

- **Tirwedd dreigl o fryniau sy'n wynebu tua'r môr yn disgyn i lawr o fynyddoedd y Rhinog cyfagos**, sy'n cynnwys y dirwedd tua chyfeiriad y dwyrain
- Uchder yn amrywio o hyd at 300 metr ar ymylon y mynyddoedd, i 20 metr ar hyd ymyl yr arfordir
- Daeareg creigwely o gerrig llaid siltiog a thywodfeini tenau graen-bras o'r oes Cambrian, wedi eu gorchuddio yn aml gan ddyddodion til rhewlifol sy'n arwain at dopograffi cymhleth.
- **Wedi'i dyrannu gan ddyffrynnoedd Afon Artro, Cwm Nantcol, Y Glyn ac Ysgethin ynghyd â ffrydiau lluosog** sy'n draenio tua'r gorllewin tuag at yr arfordir. Llynnoedd bach yma ac acw ar draws y dirwedd
- Coetir llydanddail helaeth yn gorchuddio ochrau'r dyffryn, gyda rhai planhigfeydd cymysg a chonifferaidd - gan gynnwys y coedwigoedd eang yng Nghoed Felinrhyd
- **Patrwm caeau afreolaidd hanesyddol wedi eu marcio gan waliau cerrig, wedi'u hatalnodi gan bocedi o gopaon mynydd agored.** Coed aeddfed ar hyd ffiniau caeau yn cyfrannu at gymeriad coediog ar lethrau dyffryn
- Defnydd tir bugeiliol gan mwyaf, gyda rhannau o dir pori garw ar dir uwch.
- **Coetiroedd hynafol lled-naturiol derw digoes gyda fflora daear cyfoethog** (gan gynnwys ardaloedd o fewn y Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod AGA Meirionnydd ) sy'n genedlaethol a rhyngwladol bwysig, yn gymysg ag **ardaloedd o laswelltir rhywogaeth-gyfoethog, trylifiadau a phorfa wlyb.**
- **O fewn Tirwedd ehangach o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Ardudwy**, tystiolaeth helaeth o aneddiadau rheolaidd a defnydd tir ers y cyfnod cyn hanesyddol - ee olion siambrau claddu Neolithig yn Nyffryn Ardudwy, system anheddiad / caeau cynhanesyddol, aneddiadau anghyfannedd canoloesol a safleoedd amddiffynnol (ee bryngaer Clogwyn Arllef)
- **Castell Harlech o'r 13eg ganrif, sy'n Safle Treftadaeth y Byd**, yn meddiannu esgair amlwg sy'n edrych dros y môr ac ehangder gwastad Morfa Harlech (ACT 10). Mae **setliad Edwardaidd hanesyddol Harlech (Ardal Gadwraeth)** yn meddiannu clogwyni sillf a oedd yn agored i'r môr yn flaenorol
- **Planiadau'r stad, coetir addurniadol a pharcdir** sy'n gysylltiedig â Chors-y-Gedol (Gradd II) o'r 18fed ganrif a maenordy rhestredig Glyn Cywarch o'r 17eg ganrif Gradd II \*.
- Aneddiad eraill wedi'u canolbwyntio yn bennaf ar hyd ffordd arfordirol yr A496, gan gynnwys parciau carafanau a safleoedd gwersylla. Mae hyn yn cynnwys pentrefi Coed Ystumgwern, Dyffryn Ardudwy, Talsarnau a Thal y Bont, gyda pheth datblygiad hirgul
- Mewn mannau eraill, ffermydd a phentrefannau gwasgaredig wedi'u hadeiladu o garreg / llechen wedi'u cysylltu gan ffyrdd gwledig troellog ar hyd cymoedd a thros fryniau
- **Cyfanrwydd hanesyddol cryf** wedi'i warchod o ganlyniad i dopograffeg sy'n cyfyngu mynediad ac aneddiadau yn yr ardal. Mae datblygiadau ffordd yr A496 a datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn erydu'r argraff hon ar hyd yr ymyl arfordirol
- **Golygfeydd cyfunedig o'r arfordir a chadwyn mynyddoedd y Rhinog** (ACT 13).

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol.



**GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

- Dylech gyfeirio at y rhan 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd canlynol dros newid:
- 'datblygiad rhubanog' rhwng aneddiadau oherwydd cyfyngiadau topograffeg, gan effeithio ar gymeriad agored y dirwedd

Mae rhai darnau o waliau cerrig yn disgyn, neu maent wedi cael eu disodli gan ffensys pyst-a-gwifrau.


**STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Tir yn codi oddi wrth wastadedd arfordirol tua'r Rhinogau, gan arwain at dirwedd gyda chysylltiadau gweledol a diwylliannol cryf rhwng y mynyddoedd a'r arfordir. Mae hon yn ardal sy'n gyfoethog mewn olion archeolegol, gyda henebion o'r cyfnod Neolithig ymlaen, a fydd yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol neu ddefnydd tir ac yn cael ei rheoli'n sensitif. Cynnal y polisi "lletem werdd" yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (2011) i atal cyfuno pellach rhwng aneddiadau o fewn yr ACT hon, yn enwedig ar hyd yr A496

**CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran 'Canllawiau' o'r brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan benawdau 'Ymylon Ucheldirol'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae Mynyddoedd y Rhinog (y 'Rhinogydd' neu 'Rhinogau') yn ffurfio cadwyn o fynyddoedd garw i'r de o'r Wyddfa yn ymestyn oddi wrth y llethrau uwchlaw aberoedd y Ddwryd a'r Glaslyn yn y gogledd i aber Afon Mawddach yn y de. Enwi'r yr ardal oherwydd ei chopau mwyaf enwog, Rhinog Fawr a Rhinog Fach (720 a 712 metr)



## NODWEDDION ALLWEDDOL O'R ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- Ardal fynyddig agored gyda'r copa uchaf, Y Llethr, yn cyrraedd uchder o 756 metr uwchlaw'r seilnod ordnans. **Mae nifer o glogwyni a brigiadau craig yn ffurfio topograffeg garw. Mae'n cynnwys nodweddion geomorffolegol cenedlaethol bwysig**
- Yn tanorwedd yn bennaf mae graean Cambrian Cromen Harlech, gyda nifer o gloddiau ymwithiol o ddyddodion folcanig. Mae dyddodion trwchus o glog-clai, dyddodion o sgri, deunydd pen a llifwaddod yn etifeddiaeth wedi'r gweithredu rhewlifol
- **Corsydd dyffrynol a llynnoedd oligotroffig rhewlifol aml yn bwydo nifer o nentydd sy'n llifo'n gyflym wrth ddraenio o'r ucheldiroedd**, weithiau yn ffurfio rhaeadrau. Yn cynnwys yr Afon Gamlan, Cwm-mynach, Cwmllachen, Ysgethin a Chwm Nantcol
- Tirwedd wedi ei dominyddu yn y gogledd gan gronfa llyn Trawsfynydd a'r hen orsaf bŵer niwclear
- Mae nifer o blanhigfeydd conwydd amlwg ac ardaloedd helaeth o goetiroedd llydanddail a chonifferaidd ar ochrau'r dyffryn
- Mynyddoedd agored wedi'u hamgylchynu gan amgaeadau rheolaidd ar raddfa fawr o ffridd, gyda phatrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach ar ochrau isaf y dyffryn
- **Waliau cerrig sy'n ffurfio nodweddion ffiniau, gan roi undod gydag adeiladau ac amlygiadau creigiog**. Mae coed aeddfed yn dilyn llinellau terfyn ar lefelau is, gan gyfrannu at gymeriad coediog
- **Tir pori garw (gan ddefaid yn bennaf)** ar yr ucheldiroedd a'r ffridd, gyda gwell caeau pori ar hyd ochrau'r dyffryn
- **Cynefinoedd rhostirol helaeth o bwysigrwydd Ewropeaidd, yr ehangder mwyaf o rostir aeddfed y tu allan i'r Alban**. Mae'r llysdyfiant yn cael ei ddominyddu gan dyfiant fel grug a llus, yn ogystal ag eithin, gwlypdiroedd ac eangderau mawr o orgors (AGA Rhinog, GNG, SoDdGA a Gwarchodfa Biogenetig)
- **Coetiroedd lled-naturiol wedi eu dominyddu gan dderw yn bennaf, corsydd, trylifiadau gwlyb, glaswelltir niwtral ac asid sy'n gysylltiedig â dyffrynnoedd** (Coedydd Derw Meirionnydd ac ACA Safleoedd Ystlumod a SoDdGA Choed Graig Uchaf)
- **Cyfran sylweddol o fewn Ardudwy a Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor sy'n Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**, gyda safleoedd anheddu hynafol a thraciaiu (ee Grisiau Rhufeinig) a bryngaerau o'r Oes Haearn. Olion mwyngloddio ac echdynnu mwynau yn y cymoedd, gan gynnwys aur, copr, sinc a phlwm
- **Ucheldir anghysbell ansefydlog, gyda chyfran fawr yn dir mynediad agored neu dir comin**
- **Ffermydd wedi eu hadeiladu o garreg a phentrefannau yn swatio mewn dyffrynnoedd cysgodol wedi eu cysylltu gan rwydwaith o ffyrdd gwledig gwasgaredig**. Mae nifer o feysydd parcio yn y blaenau'r cymoedd yn darparu mynediad hamdden i'r mynyddoedd
- **Teimlad cryf o wylltineb a phellenigrwydd sy'n gysylltiedig â'r mynyddoedd** - dim chwarter cymaint o bobl yno o'i gymharu â rhannau eraill o'r Parc Cenedlaethol
- **Mae'r mynyddoedd yn cynnig golygfeydd hir, heb eu difetha o'r arfordir a tua'r de ar draws Aber y Fawddach at Gadair Idris**. Golygfeydd i'r gogledd y tu hwnt i Aber Afon Dwyrdd tuag at y Wyddfa. Mae gorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd yn ffurfio tirnod amlwg a wnaed gan ddyn yn y gogledd

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol.



## **GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd canlynol dros newid:

- Rhai mannau wedi eu gor-bori ar y llethrau is, gan gynnwys o amgylch
- Waliau cerrig wedi cael eu hesgeuluso ac mae ffensys pyst a gwifren wedi cael eu gosod yn eu lle neu yn llenwi’r bylchau.


## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Mae'r ACT hon yn cael ei ystyried i fod yn un o'r tirweddau sy'n 'ganolbwynt' i Eryri, gyda llawer ohoni'n cael ei diffinio fel 'harddwch naturiol' fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol, a'r elfennau hynny sy'n cyfrannu tuag ato - yn enwedig y rhinweddau o lonyddwch a phellenigrwydd - yn cael eu diogelu a'u gwella

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran ‘Canllawiau’ o’r brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan y pennawd ‘Mynyddoedd’.

**RHAN 1: DISGRIFIAD**



**CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU**

Mae'r ACT hwn yn cynnwys Dyffrynnoedd Mawddach ac Eden sy'n llifo o'r ucheldiroedd yn y gogledd o Ddolgellau, ac yn ymestyn tua'r dwyrain ar hyd cwrs yr Wnion. Mae'r afonydd wedi'u hamgau o fewn tirwedd o fryniau coediog, planhigfeydd a thir fferm.



NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- **Topograffi cymleth wedi ei ddiffinio gan y tair priff ddyffryn, wedi ei amgylchynu gan lethau serth a blociau ucheldirol, 400 metr UAO ar ei uchaf uwchben yr Afon Mawddach.**
- Daeareg creigwely o gerrig mwd Cambrian, cerrig silt a cherrig tywod, gyda rhai ymwithiadau folcanig a dyddodion (e.e. Moel Offrwm). **Gwythiennau mwynau, yn enwedig aur, yn dylanwadu ar dreftadaeth yr ardal.**
- Dyddodion rhewlifol a llifwaddodol yn cyfrannu tuag at dopograffi amrywiol y dirwedd.
- **Prif ddyffrynnoedd siap u gydag is afonydd sy'n llifo'n gyflym yn ymuno wrth ddraenio o'r ucheldiroedd, gyda rhaedrau trawiadol ym Mhystyll Cain (ar yr Afon Gain) a Rhaeadr y Fawddach.**
- Planhigfeydd coniferaidd eang ar y llethrau uwchben y Fawddach ac Eden, gyda bandiau aml o goed llydanddail i'w canfod mewn lleoedd eraill.
- **Clytwaith o gaeau bugeiliol bach i ganolig ar hyd Dyffryn Wnion sy'n fwy agored, gydag ardaloedd pori bras wedi eu lleoli ar y tir uwch rhwng blociau coedwigol.**
- **Pocedi o gynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys gwlyptiroedd sy'n gysylltiedig â'r Eden a'i hisafonydd (ACA) a choetiroedd derw digoes sy'n cynnal amrywiaeth cyfoethog o redyn, cennau, mwsoglau a llysiau'r afu**
- **Olion mwyngloddio a 'Chyfnod Aur' Meirionnydd sy'n gysylltiedig â'r mwyngloddio aur a chopr yn yr 19eg ganrif, megis Gwynfynydd a Gweithfeydd Cloddio Aur Rhestredig Berth-Llwyd a Chefn Coch**
- **Olion cenedlaethol bwysig Abaty Sistersaidd Cymer ar lannau Afon Mawddach (Ardal Gadwraeth), aneddiadau hynafol, bryngaerau o'r Oes Haearn ar ben mynyddoedd (ee Moel Offrwm) a pharciau hanesyddol yn Nanau (Gradd II \*) a Dolmelynlllyn**
- **Adeiladau addurnedig yn y Ganllwyd wedi'u cysgodi yn y dyffryn, o dan ddylanwad yr ystad Dolmelynlllyn cyfagos. Gweddill y dirwedd o gwmpas y Mawddach / Eden cymoedd yn ansefydlog i raddau helaeth**
- Pentrefi cnewyllol a phentrefannau mewn mannau croesi ffyrdd, ynghyd â ffermydd gwasgaredig ledled llethrau ysgafn Dyffryn Wnion
- Ffyrdd yr A470 a A494 yn rhedeg ar hyd y dyffrynnoedd, gyda rhwydwaith o isffyrdd yn cysylltu aneddiadau. **Mae llawer o'r tir uwch a choedwigaeth yn dir mynediad agored**
- Cyrchfan pwysig i gerddwyr a beicwyr, gan gynnwys canolfan feicio Coed y Brenin. Cyfleusterau eraill yn cynnwys meysydd parcio a meysydd gwerysyla / carafanio.
- **Golygfeydd i fyny Dyffryn Mawddach a llethrau'r Rhobell Fawr a Rhobell Ganol. Golygfeydd o gopaon y bryniau tuag at fynyddoedd y Rhinog a'r Arenig (e.e. o Fynydd Pen-rhos).**

<sup>1</sup> Mae print bras yn dangos y nodweddion hynny a ystyrir fel 'nodweddion gwerthfawr' o'r ACT; sef agweddau cymeriad sy'n cyfrannu'n fawr tuag at hunaniaeth leol..



**GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

Dylech gyfeirio at y rhan 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd canlynol dros newid:

- Waliau cerrig wedi cael eu hamnewid am ffens post a gwifren neu yn atodol i waliau cerrig.
- Swm ac aflonyddwch gweledol oddi ar goridorau ffyrdd yr A470 a'r A494, yn cael effaith yn lleol ar lefelau heddwch.
- Mae cynlluniau gwella ffyrdd hefyd wedi bygwth integriti safleoedd dynodedig ar hyd ymyl y dyffrynnoedd.

Poblogrwydd yr ardal ar gyfer twristiaeth a hamdden, gan gynnwys canolfan beicio mynydd Coed y Brenin. Gorchudd coetir uchel y dirwedd yn gyffredinol yn golygu bod cyfleusterau twristiaeth yn cael eu sgrinio'n dda o fewn y dirwedd.


**STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Llwybrau cyfathrebu pwysig, mae dyffrynnoedd y Fawddach a'r Wnion yn cyfarfod ychydig i'r gorllewin o Ddolgellau, tref sirol Meirionnydd gynt. Mae gan Ddolgellau lawer o gysylltiadau diwylliannol pwysig ac mae ei adeiladau yn rhai brodorol lleol neilltuol, a fydd yn cael eu diogelu a'u parchu mewn unrhyw ddatblygiad newydd.

**CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

Cyfeiriwch at yr adran 'Canllawiau' o'r brif ddogfen CCA , yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan benawdau Dyffrynnoedd / Aberoedd

## PART 1: DESCRIPTION



### SUMMARY OF LOCATION AND BOUNDARIES

An expansive LCA centred on Arenig Fawr (854m), lying between the Tryweryn valley in the east (on the National Park boundary) and Coed y Brenin to the west. To the north are the Mignient Uplands, whilst the Upper Dee valley is located to the south. The majority of the area is formed by open uplands, and includes Llyn Celyn reservoir.



## KEY CHARACTERISTICS OF THE LANDSCAPE CHARACTER AREA<sup>1</sup>

- **High, open upland landscape** rising to a maximum of 854 metres AOD at Arenig Fawr. It also includes the summits of Moel Llyfnant (751m) and Rhobell Fawr (734m).
- **Internationally renowned geology** of ancient Cambrian and Ordovician sedimentary and igneous rocks, including a rich fossil record recognised by SSSI designations.
- **Landscape shaped by several phases of glaciation**, producing distinctive features including U-shaped and hanging valleys, corries (cymoedd) and small cwm lakes.
- **Upland massif dissected by a number of watercourses** including the Afon Lliw, Afon Llafar, Afon Cain and Afon Tryweryn. The north-eastern part of the LCA is dominated by Llyn Celyn reservoir.
- A number of prominent forestry plantations within the uplands, with small bands of broadleaved woodland fringing valley sides in their lower courses.
- **Open mountain summits and upper slopes surrounded by extensive areas of ffridd marked by stone walls.** Rough sheep grazing predominates.
- Valleys and lower slopes characterised by a pattern of small-medium scale fields of improved and semi-improved pastures, **divided by cloddiau (stone-faced banks) often topped by spirera-dominated hedgerows with frequent trees.**
- **Large proportion within the Migneint-Arenig-Dduallt SPA/SAC/SSSI**, with upland heath, blanket bog, flushes and woodland supporting important upland bird populations.
- **Roman road from Caer Gai to Tomen y Mur can be seen in the Lliw Valley. Nationally important remains of prehistoric settlements and field systems** found in a number of upland locations. Disused tips, quarries and a dismantled railway providing evidence of the area's industrial past.
- **Dispersed pattern of small villages and hamlets** concentrated in the valleys and on lower slopes. These are linked by a network of rural roads and tracks. The A4212 skirts the northern LCA boundary.
- **Most of the uplands are inaccessible by road**, but much is open access land and crossed by occasional rights of way. The National White Water Centre is based in Canolfan Tryweryn – providing opportunities for rafting and canoeing on the local rapids.
- **High sense of relative solitude and tranquillity** in comparison with the busier, more popular mountains of central Snowdonia.
- Overhead powerlines in the Tryweryn valley and nearby uplands, the water treatment works at Llidiardau and quarries with associated tips eroding levels of tranquillity and remoteness locally.
- **Summit of Arenig providing uninterrupted views of all significant North Wales mountain ranges.**

<sup>1</sup> Bold indicates those key characteristics considered to be the 'valued attributes' of the Landscape Character Area; aspects of character that contribute greatly to local distinctiveness.



## **FORCES FOR CHANGE AFFECTING LANDSCAPE CHARACTER**

Please refer to the 'Forces for Change' section of the SPG document. Of particular relevance to this LCA are the following forces for change:

- Heavily afforested in the past, much now removed and broadleaved species being encouraged.
- Visible quarries and associated tips, including Arenig Quarry.
- Scenic quality diminished by overhead power lines in the upper Tryweryn valley from Trawsfynydd to Rhostyllen.
- Water treatment works at Llidiardau, which have recently been significantly enlarged with prominent signage – impacting on the landscape's sense of remoteness.
- Pressure for conversion of barns for visitor accommodation/bunk barns.
- Stone walls falling into disrepair in some locations, supplemented or replaced by post-and-wire fencing.


## **A LANDSCAPE STRATEGY FOR THE FUTURE**

This LCA is considered to be one of the 'focal' landscapes of Snowdonia, much of which is defined as '*natural beauty*' as shown on the Eryri Local Development Plan (ELDP) proposals map. This natural beauty, and those elements that contribute towards it – especially the qualities of tranquillity and remoteness – will be protected and enhanced.

## **GUIDELINES FOR MANAGING FUTURE LANDSCAPE CHANGE**

Please refer to the 'Guidelines' section of the main SPG document, particularly for those guidelines under the 'Mountains' heading.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT hon yn cynnwys dyffryn Dyfrdwy uchaf o ffin ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol yn y Bala, i gefndeuddwr afonydd Dyfrdwy a Wnion yn y de orllewin. Nodwedd amlycaf y rhan fwyaf o'r dirwedd yw Llyn Tegid - y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru.

NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- **Mae'r dirwedd wedi'i diffinio gan fasn rhewlifol dyfn Llyn Tegid**, sy'n eistedd ar ffawtlin daearegol (ffawt y Bala).
  - **Mae'r tir yn codi ar bob ochr i greu dyffryn siâp U clasurol**, ac yn cyrraedd ei fan uchaf yng Nghraig yr Allor (478 metr uwch datwm ordnans).
  - Daeareg gwaelodol o greigiau folcanig Ordofigaidd, cerrig llaid, cerrig silt a thywodfeini, gyda chofnod ffosil cenedlaethol bwysig yn SoDdGA Chwareli Gelli-Grin.
  - **Mae Afon Dyfrdwy a'i his-afonydd yn llifo drwy'r dirwedd**, ac yn creu tiffurf bryniog a thonnog o amgylch y llyn.
  - Blociau a strimynnau sylweddol o blanhigfeydd coed conwydd a chymysg ar ochrau'r dyffryn, yn ogystal â choed aeddfed gwasgaredig a choedlannau llydanddail bach ar dir fferm.
  - **Patrwm hanesyddol o gaeau bach, afreolaidd wedi'u gwahanu gan waliau cerrig neu berthi gyda choed perthi niferus.**
  - **Tirwedd hynod fugeiliol** sy'n frith o bocedi o laswelltir garw heb ei amgáu a gweundir ar gopaon bryniau a'r llethrau uchaf.
  - **Mae Llyn Tegid yn adnabyddus fel llyn mesotroffig rhyngwladol bwysig sy'n cynnal cynefinoedd cors a gwlyptir gwerthfawr ar hyd ei draethlin.** Mae hefyd o fewn safle Ramsar ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.
  - **Mae llawer o'r ardal yn nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig y Bala** – gyda chyfres o safleoedd ac aneddiadau amddiffynnol o'r cyfnod Rhufeinig i'r Oesoedd Canol (e.e. Caer Rufeinig Caer Gai ar lannau Dyfrdwy). Mae chwareli a thomenni
- segur yn dyst i offennol diwydiannol yr ardal.
- Bwrdeistref ganoloesol gynllunedig y Bala yw nodwedd amlycaf glan ddwyreiniol y llyn, â'i chraidd wedi'i dynodi yn Ardal Gadwraeth a'i threfnu'n batrwm sgwarog. Mae pentref Llanuwchllyn wedi'i ganoli ar Afon Twrch yr ochr draw i'r llyn.
  - Fan arall, **mae anheddiad gwasgarog o ffermydd a phentrefannau bach yn gorwedd mewn cymoedd, sydd wedi'u cysylltu gan lonydd a thraciau troellog.** Mae Rheilffordd Llyn Tegid yn dilyn y traethlin deheuol ac ar hyd Dyffryn Dyfrdwy.
  - **Lleiniau o dir mynediad agored a thir comin ar dir uwch** wedi'i ategu gan rwydwaith cadarn o hawliau tramwy.
  - Datblygiadau twristaidd, gan gynnwys meysydd carafanau a gwerysilla, yn ogystal ag unedau diwydiannol a datblygiadau modern sy'n ymledu o graidd hanesyddol y Bala.
  - **Tirwedd â naws am le cryf, sydd wedi'i hamgylchynu gan olygfeydd godidog o fryniau a mynyddoedd Meirionnydd.**

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



### **GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Datblygiadau modern yn ymledu o graidd hanesyddol y Bala, gan gynnwys unedau diwydiannol o amgylch y cyn iard nwyddau rheilffordd.
- Gordyfiant ysbeidiol o algae yn Llyn Tegid dros y blynyddoedd diwethaf.
- Effaith andwyol bosibl ar y dirwedd yn sgil datblygiadau ffermydd gwynt mawr y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.


### **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Llwybr cyfathrebu pwysig, mae dyffryn Dyfrdwy Uchaf yn gorwedd yng nghafn Ffawt y Bala. Mae Llyn Tegid yn ganolbwynt allweddol ac yn cael ei werthfawrogi nid yn unig am ei bwysigrwydd cadwraeth natur ond hefyd am ei gyfleoedd hamdden. Mae gan y Bala nifer o gysylltiadau diwylliannol pwysig. Bydd golygfeydd eiconig o'r llyn a'r bryniau a'r mynyddoedd o'i amgylch yn cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol.

### **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd 'Dyffrynnoedd / Aberoedd'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd hon yn canolbwyntio ar Aber Mawddach, ac yn ymestyn o Ddolgellau tua'r gorllewin i gyrion genau'r aber (ar ffin y Parc Cenedlaethol ger Abermo). Mae ffyrdd yr A470, A496 ac A493 yn mynd drwy'r ardal.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Ffurf agored ac eang Aber Mawddach yw nodwedd amlycaf y dirwedd hon**, sydd wedi'i hamgáu gan dirffurfiau sy'n codi'n serth o boptu.
- Mae dilyniant trwchus o waddodion ffrwd-rewlifol anghyfnertedig oddi tan lawr yr aber, sydd rhwng creigiau gwaddod Is-palalosöig a chreigiau folcanig o'r oes Cambriaidd ac Ordofigaidd.
- Mae'r aber yn draenio i gyfeiriad de orllewinol i mewn i Fae Ceredigion, ac mae nifer o is-afonydd yn ymuno â hi sy'n llifo o'r ucheldiroedd o amgylch. Mae Afon Wnion yn ymuno â'r Fawddach o'r dwyrain.
- **Mae ochrau'r dyffryn wedi'u gorchuddio â choed**, gan gynnwys planhigfeydd coed conwydd (e.e. Coed y Garth) a choedlannau llydanddail.
- **Ardaloedd o gors bori ar ymylion yr aber, wedi'u gwahanu gan sianeli draenio. Pcedi o gaeau bugeiliol bach rheoliadd ac afreolaidd wedi'u gwahanu gan berthi trwchus a choed perthi niferus.**
- **Mae'r aber wedi'i dynodi yn SoDdGA / ACA, gyda gyliau mwdlyd, morfâu heli, ffeniau arfordirol, gwern cyrs a choedlan wlyb** – cartref i boblogaethau adar magu pwysig, ynghyd â dyfrgwn a phlanhigion prin. Mae'n cynnwys yr unig enghraifft o gyfargors forydol yng Ngogledd Cymru (Cors Arthog).
- **Llethrau serth yn cyffinio â'r aber, gan gynnwys coedlannau derw sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol** gyda fflora a bryoffytau daear cyfoethog, cartref i gytrefi ystumod magu (yn ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystumod Meirionnydd).
- **Mae mewn dwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**, Dyffryn Dolgellau a Mawddach. Tystiolaeth helaeth o ddefnydd tir

amrywiol gan gynnwys chwarela llechi, mwyngloddio aur a'r diwydiant gwlân. Mae traphont rheilffordd restredig Gradd II\* Abermo yn dirnod lleol yn y gorllewin.

- **Coedlannau addurnol hanesyddol a gerddi ffurfiol** yn edrych allan dros yr aber yng Nglan-y-Mawddach (Gradd II\*), Abergwynant a Phenmaenuchaf (Gradd II).
- **Y prif anheddiad yw tref farchnad Dolgellau, â'i chraidd hanesyddol a Phandy'r Odyn gerllaw wedi'u dynodi yn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig.** Ffermydd a phentrefannau ysbeidiol ar wasgar ar hyd ochrau'r dyffryn.
- Mae priffyrdd yr A470, A496 a'r A493 yn croesi'r dirwedd, ac yn erydu lefelau lleol o lonyddwch.
- Tirwedd olygfaol â naws am le cryf, gyda golygfeydd benthyg o Gadair Idris.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Dirywiad o ran rheoli coedlannau, ag ymlediad y rhododendron yn peri problemau mewn rhai coedlannau ar ochrau'r dyffryn.
- Ymyriad synhwyrdd wedi'i achosi gan y prif ffyrdd sy'n croesi'r dirwedd (yr A470, A496 a'r A493).
- Rhai datblygiadau tai modern yn ymestyn ar hyd y ffyrdd y tu allan i Ddolgellau. Mae'r dref wedi'i diffinio fel 'Canolfan Gwasanaeth Lleol' yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (2011); felly fe all nifer y datblygiadau yn y dyfodol fod yn uwch nag mewn lleoliadau eraill.
- Mae cyrchfannau gwyliau Y Friog ac Abermo (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol) yn agos at y dirwedd.
- Mae'r dirwedd yn frith o safleoedd carafanau / gwersylla a meysydd parcio, sy'n gwasanaethu poblogrwydd yr ardal fel cyrchfan i dwristiaid.


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Dyma un o berlau Parc Cenedlaethol Eryri; mae Aber y Fawddach yn cynnig golygfeydd eiconig tuag at y bryniau yn ogystal â'r arfordir. Caiff y golygfeydd hyn eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol. Byddir yn archwilio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chefnogi ac adfer prosesau morydol naturiol, yn enwedig i gryfhau gwydnwch y dirwedd i newid yn yr hinsawdd.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd 'Dyffrynnoedd / Aberoedd'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae ymyl gogleddol yr ACT wedi'i ganoli ar Afon Twrch a Chwm Cynllwyd; dyffryn deniadol sy'n frith o ffermydd yma ac acw ymhlith rhwydwaith o gaeau bach a chlystyrau o goedlannau. I'r de a'r gorllewin, mae'r tir yn codi i brif grib yr Aran cyn disgyn i lawr tuag at ddyffryn Wnion sy'n diffinio ymyl gorllewinol yr ardal. I'r de, mae ffin yr ACT ar gyron Cwm Cywarch a Hengwm ac yn codi i bwynt uchel ym Mwlech y Groes.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Ardal fynyddig uchel wedi'i diffinio gan grib amlwg yr Aran**, sy'n cyrraedd ei uchafbwynt yn Aran Fawddwy (905m) ac Aran Benllyn (885m).
- **Ardal wedi'i diffinio gan grib 'cefngwrwm' o ddyddodion folcanig o'r oes Ordofigaidd** sy'n rhedeg o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin. Mae cerrig llaid a thywodfeini Ordofigaidd oddi tan y llethrau isaf. Mae SoDdGA Tyllau Mŵn wedi'i ddynodi am ei ffurfiannau daearegol nodedig a phrin o haearnfaen.
- **Cymoedd a llynnoedd yn sgil gweithroedd rhewlifol y gorffennol** ar y llethrau, megis Crieglyn Dyfi a Llyn Pen Aran.
- **Mawnogydd yn bwydo nentydd sy'n draenio o'r mynyddoedd** i'r dyffrynnoedd islaw, gan gynnwys is-afonydd Afon Dyfrdwy ac Afon Wnion.
- Planhigfeydd coed conwydd amlwg ar ochrau'r dyffryn, yn enwedig y rhai sy'n torri i mewn i lethrau gogledd orllewinol crib yr Aran. Coedlannau llydanddail bach ar ochrau dyffryn Afon Twrch.
- **Copaon mynydd agored sy'n cael eu pori gan ddefaid, wedi'u hamgylchynnu gan ffridd amgaeedig reolaidd fawr, wedi'i rannu gan waliau cerrig.**
- **Rhwydwaith lleol o ffermydd gwasgaredig a chaeau pori afreolaidd ar loriau'r dyffryn**, sydd wedi'u hamgáu gan gymysgedd o ffensys postyn a gwifren a pherthi gyda choed perthi.
- **Gwaun uchel llawn grug sy'n frith o gyforgors, rhedyn a glaswelltiroedd asid, o bwysigrwydd rhyngwladol am ei adar magu** (fel rhan o ACA / AGA / GNG / SoDdGA ehangach Mynyddoedd y Berwyn).
- **Tirwedd wedi'i haddasu'n hanesyddol gan bobl sy'n manteisio ar fawnogydd am danwydd a chyn weithrediadau mwngloddio magnetit yn Nhyllau Mŵn.** Tomenni, chwareli a lefelau segur yn dyst i'r gorffennol diwydiannol, gyda charneddau cylchog yn Nant Helygog sy'n gysylltiedig ag anheddiad cynhanesyddol (Henebion Rhestredig).
- Credir bod y term "Aran" un ai'n cyfeirio at dirwedd sy'n ymdebygu i dir â'r, neu dir uwch yn gyffredinol.
- Ychydig iawn o ffyrdd; yr A470 yw'r unig brif lwybr trwy'r dirwedd. Mae'r isffordd ym Mwlich y Groes yn llwybr poblogaidd i'r rhai sy'n teithio drwy ogledd Cymru; fe'i defnyddiwyd fel man profi yn y bryniau ar gyfer cerbydau modur yn ystod yr ugeinfed ganrif.
- **Tirwedd dawel ac anghysbell gan fod rhannau sylweddol yn anghyfannedd a heb ffyrdd.** Mae lleiniau mawr wedi'u diffinio yn dir mynediad agored, gydag ambell i hawl tramwy yn y dyffrynnoedd.
- **Golygfeydd helaeth tuag at brif gopaon Eryri, sef y Rhinogydd a Chader Idris, a thua'r dwyrain ar draws Mynyddoedd ehangach y Berwyn**, gan gynnwys Llyn Efyrynwy gerllaw.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Grymoedd dros Newid’ yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy’n arbennig o berthnasol i’r ACT hon yw’r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Pwysau o gynigion sy’n ymwneud â thwristiaeth.
- Datblygiadau ffermydd gwynt arfaethedig yng ngogledd Powys gyda’r potensial i effeithio ar olygfeydd o grib yr Aran a Bwlch y Groes.
- Ffensys yn aml yn cymryd lle’r waliau cerrig sy’n diffinio cyrion tir comin y mynyddoedd a ffridd hanesyddol.
- Blociau geometrig o blanhigfeydd coed conwydd sy’n sefyll allan ar lethrau agored y mynyddoedd.


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Ystyrir bod yr ACT hon yn un o’r tirweddau sy’n ‘ganolbwynt’ Eryri, ac mae llawer ohoni wedi’i diffinio fel *‘harddwch naturiol’* fel y dangosir ar fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Bydd yr harddwch naturiol hwn, a’r elfennau sy’n cyfrannu ato - yn enwedig nodweddion llonyddwch a natur anghysbell - yn cael eu gwarchod a’u gwella.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL

A fydddech cystal â chyfeirio at yr adran ‘Canllawiau’ yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd ‘Mynyddoedd’.

RHAN 1: DISGRIFIAD



**CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU**

Lleolir yr Ardal Cymeriad Tirwedd hon yng nghornel de ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol, wedi ei ganoli ar Goedwig Penllyn a blociau coedwigol eraill is law copaon Moel Cedig a Moel Cwm-Sian Llwyd. Mae'n ffurfio porth i mewn i'r Parc Cenedlaethol, ac mae'n ffurfio rhan o feingefn yr ucheldir sy'n ymestyn i mewn i Fynyddoedd y Berwyn.



## NODWEDDION ALLWEDDOL O'R ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- Cyfres o fryniau crwn yn gorwedd rhwng mynyddoedd y Berwyn a chadwyn mynyddoedd yr Aran, gan gynnwys Moel Cwm Sian Llwyd (649m), Moel Cedig (666m) a Moel y Geifr (626m).
- Wrth wraidd sylfaen Ordofigaidd a llechi gwaddod Silwraidd, cerrig llaid, cerrig silt a thywodfeini, gyda rhai ymwithadau folcanig (e.e. yng Nghwm Llusog).
- **Nifer o nentydd a rhaedrau sy'n llifo'n gyflym ac yn draenio o'r bryniau i ffurfio blaenddyfroedd afonydd isod**, gan gynnwys y Ddyfrdwy tua'r gogledd ac Afon Nadroedd i'r de. Llynnoedd bach hefyd dod o hyd yn achlysurol o dan gopaon y bryniau.
- **Planhigfeydd conwydd helaeth** sy'n dylanwadu ar gymeriad y dirwedd yn fawr. Bandiau bach o goetir llydanddail ar hyd ochrau'r dyffryn
- **Pocedi ar raddfa fach o gaeau afreolaidd yn y dyffrynnoedd, ond mae'r rhan fwyaf yn agored ac yn fryniau copaon agored**, wedi'i hamgylchynu gan gaeau rheolaidd ar raddfa fawr o ffridd
- **Caeau bugeiliol ar waelod y dyffryn a'r llethrau isaf wedi'u hamgáu gan wrychoedd trwchus gyda nifer o goed perthi. Rhostir grug a reolir ar gyfer grugieir sy'n cael ei bori yn helaeth gan ddefaid.**
- **Rhostir yr ucheldir wedi ei GNG/SoDdGA) Mynyddoedd y Berwyn.**
- **Mae rhaedrau Cefn Gwyn yn dod o fewn Tirwedd Bala o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. Carneddau crwn cynhanesyddol** yn goron ar gopaon Moel y Geifr a Foel Cwm-Sian Llwyd (Henebion Cofrestredig)
- **Aneddiadau gwasgaredig wedi'u cyfyngu i'r cymoedd, sy'n gysylltiedig â rhwydwaith denau o lonydd a llwybrau gwledig. Ucheldiroedd ansefydlog a choedwigaeth**, mae cyfran fawr yn dir mynediad agored neu dir comin a groesir gan hawliau tramwy achlysurol.
- **Aneddiadau gwasgaredig sy'n gyfyngedig i'r cymoedd, sy'n gysylltiedig gyda rhwydwaith brin o lonydd a llwybrau gwledig. Ucheldiroedd ansefydlog a choedwigaeth**, cyfran fawr yn fynediad agored neu dir comin a groesir gan hawliau tramwy achlysurol
- Mae'r B4391 yn darparu llwybr ffordd boblogaidd ar gyfer ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol, ac mae'r **dirwedd hon yn darparu porth golygfaol i mewn i Eryri.**
- **Yn fwy heddychlun gydag ymdeimlad cryfach o unigedd na chopaon canolog prysurach Eryri**, er mae planhigfeydd coedwig eang yn cyflwyno dylanwad dynol cryf mewn rhannau mawr.
- **Tirweddau amrywiol** yn amrywio o waelodion dyffrynnoedd sy'n cael eu ffermio i goedwigoedd ar y llethrau a'r bryniau crwn.
- **Rhyngweledd cryf gyda Mynyddoedd y Berwyn a Llyn Efyrynwy** y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, gyda golygfeydd i'r gogledd a'r gorllewin wedi ei fframio gan graidd mynyddoedd Eryri.

<sup>1</sup> Mae print bras yn mynegi'r nodweddion hynny a ystyrir yn 'nodweddion a werthfawrogi' o'r ACT; sy'n agweddau o gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr iawn tuag at hunaniaeth leol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD TIRWEDD

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at y rhan 'Grymoedd Dros Newid' o'r ddogfen CCA. Mae'r grymoedd dros newid a ganlyn yn arbennig o berthnasol i'r ACT:

- Planhigfeydd coedwigaeth helaeth sy'n ffurfio'r defnydd tir pennaf.
- Tresmasiad coetir eilaidd ar ardaloedd o gynefin agored ar ochrau'r dyffryn ac ymylon rhostirol, yn enwedig bedw, sy'n dangos gostyngiad yn y lefelau pori
- Pwysau i addasu ysguboriau cerrig traddodiadol i lety ymwelwyr - traciau trwy'r goedwig yn boblogaidd ar gyfer beicwyr mynydd

Melinau gwynt yn weladwy wrth edrych tua'r gogledd ddwyrain o Foel Cwm Sian Llwyd.


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Planhigfeydd conifer sylweddol wedi eu lleoli yn y rhan ddeheuol y Parc Cenedlaethol. Mwy anghysbell ac anhygyrch na Gwydyr a Choed y Brenin, ac o ganlyniad y dirwedd goediog yn cynnig profiad gwahanol i ymwelwyr. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau hamdden allweddol isel. Ceisir gwella bioamrywiaeth drwy well coedwigaeth a rheoli coetiroedd. Mae'r ymylon rhostirol yn gynefinoedd pwysig i adar, gyda rheolaeth a gwella priodol yn cael ei annog i gadw neu ymestyn yr adnodd hwn

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID TIRWEDD YN Y DYFODOL

Cyfeiriwch at y rhan 'Canllawiau' yn y brif ddogfen ACA, yn enwedig y canllawiau o dan y penawdau 'Mynyddoedd' a 'Choedwigoedd'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ardal yn cynnwys yr ucheldiroedd ar hyd ochr ddeheuol Aber Mawddach, gan gynnwys copaon Cadair Idris (893 metr UDO) ynghyd â Braich Ddu (546 metr AOD) a Bryn Briith (383 metr UDO) sy'n rhedeg i lawr at yr arfordir yn Llwyngwriil a Gwastadgoed ac yn ffurfio ochrau gogleddol Dyffryn Dysynni

NODWEDDION ALLWEDDOL O'R ARDAL CYMERIAD TIRWEDD <sup>1</sup>

- **Tirwedd fynyddig yn cael ei ddominyddu gan masiff Cadair Idris**, yn codi i 863 metr uwchlaw'r seilnod ordnans ym Mynydd Moel. Mae'r graddau tir ucheldirol yn tueddu tuag at yr arfordir gorllewinol, mor isel â 10 metr UDO
- **Daeareg creigwely yn cael ei ddominyddu gan gerrig Palalosöig gwaddodol a chreigiau igneaidd (gan gynnwys lafâu clustog a dyddodion llif-lludw)** o oed Ordofigaidd. SoDdGA Cregennen a Cefn y Pared yn Hir cael eu gwerthfawrogi am eu brigiadau craig cymysg
- **Casgliad rhagorol o dirffurfiau geomorffolegol**, gan gynnwys coriannau mewn cyflwr da (Cymoedd), mariannau a llethrau sgrï
- **Llynnoedd Cwm yn swatio yn y mynyddoedd, gan gynnwys Llyn Cau, Llyn y Gadair a Llyn Gafr. Nentydd lluosog sy'n llifo'n gyflym, gan gynnwys rhaedrau**, yn draenio i'r cymoedd cyfagos ac aber Afon Mawddach (gan gynnwys y Gwynant)
- **Copaon mynyddoedd agored a llethrau cyferbyniol gyda chymoedd coediog**, gan gynnwys planhigfeydd conwydd a choetiroedd llydanddail
- **Patrymau caeau afreolaidd ar raddfa fach ar dir is, gyda caeau rheolaiddar raddfa fawr o'r 19eg ganrif o ffridd o amgylch copaon mynydd agored**
- **Waliau cerrig sych yn ffurfio math ffiniol trechaf, gyda rhai gwrychoedd trwchus a nifer o goed gwrychoedd ar ddrychiadau is**
- Porfeydd bras ucheldirol wedi eu hamgylchynu gan borfeydd gwell.
- **Cynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol**, gan gynnwys gorgors, rhostir gwlyb ac ucheldir sych ac asid a glaswelltir corsiog o rywogaethau-gyfoethog (ACA, GNG, SoDdGA Cadair Idris). **Coetiroedd derw, bedw, criafol a chyll** ar hyd ochrau'r dyffryn Gwynant, yn cefnogi gwyfynod prin, mwsoglau a llysiâu'r afu (SoDdGA Coedydd Abergwynant)
- **Llawer ohono wedi ei ddynodi llawer fel rhan o Dirweddau ehangach o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**. Mae nifer o nodweddion archeolegol sy'n bwysig yn genedlaethol ar hyd a lled, gan gynnwys carneddau cylch, aneddiadau hynafol, amgaeadau a bryngaerau o'r Oes Haearn (Tyddyn-y-Coed, Tal-y-Garreg a Llechrwyd).
- Sgarp yn wynebu y Gogledd yn cynnwys haearnfaen öolitig, yn cael ei weithio fel ffynhonnell o fwyn haearn isel-gradd
- Aneddiadau bach llinol yr arfordir (Llwyngwrl, Llangelnnin a Rhoslefan), gyda safleoedd gwersylla / carafanau anghysbell achlysurol a wasanaethir gan y A493 a Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Mae'r A487 yn teithio trwy Gwm Rhwyddfor yn nwyrain yr ACT
- **Mynyddoedd anghyfannedd pellennig**, , gyda phatrwm gwasgaredig o ffermydd cerrig / llechi ynysig a phentrefannau cysylltu gan ffyrdd bychain ar y llethrau isaf
- **Rhan fawr yn cael ei diffinnio fel mynediad agored neu dir comin**, gyda hawliau tramwy achlysurol
- **Golygfeydd wedi eu benthyca o'r arfordir a'r ardaloedd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol**.

<sup>1</sup> Mae print bras yn mynegi'r nodweddion hynny a ystyrir yn 'nodweddion a werthfawrogi' o'r ACT; sy'n agweddau o gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr iawn tuag at hunaniaeth leol.



## GRYMOEDD DROS NEWID SY’N EFFEITHIO AR GYMERIAD TIRWEDD

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at y rhan ‘Grymoedd Dros Newid’ o’r ddogfen CCA. Mae’r grymoedd dros newid a ganlyn yn arbennig o berthnasol i’r ACT:

- Datblygiadau tyrbinau gwynt tu allan i’r Parc Cenedlaethol yn effeithio ar olygfeydd o ACT hon.
- Waliau cerrig diffinio ymylon tir comin mynydd ac ardaloedd hanesyddol ffridd yn aml yn cael eu disodli gan ffensys.
- Blociau Geometrig o blanhigfeydd conwydd yn sefyll allan yn amlwg yn y dirwedd agored
- Coetir eilaidd ar y llethrau isaf (gan gynnwys llethrau sgri nodweddiadol), yn dangos bod gostyngiad mewn lefelau pori yn y mewn lleoliadau ymylol hyn
- Pwysau ar gyfer datblygiadau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, megis safleoedd gwerysyla a charafannau, yn enwedig ar hyd ymyl yr arfordir gorllewinol yr ACT sy’n cael ei gwasanaethu gan y prif A493.


## STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r ACT hon yn cael ei ystyried yn un o'r tirweddau sy'n 'ganolbwynt' i Eryri, llawer ohono'n cael ei ddiffinio fel 'harddwch naturiol' fel y dangosir ar y map cynigion yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel *harddwch naturiol*, bydd yr elfennau hyn sy'n cyfrannu tuag ato - yn enwedig y rhinweddau o lonyddwch a phellenigrwydd - yn cael eu diogelu a'u gwella.

## CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWID TIRWEDD YN Y DYFODOL

Cyfeiriwch at yr adran 'Canllawiau' o'r brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hynny o dan y penawdau 'Mynyddoedd' ac 'Ymylon Ucheldirol'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT wedi'i chanoli ar Ddyffryn Dyfi a'i isafonydd - Afon Cerist, Cywarch a Chleifion - sy'n cerfio drwy'r ucheldiroedd amgylchynol. Mae'r dirwedd ar ymyl dwyreiniol y Parc Cenedlaethol.

## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- Pwynt cydlifiad ar gyfer nifer o ddyffrynnoedd is-afonydd i Afon Dyfi, gan gynnwys Afon Cerist, Afon Cwyrach ac Afon Tafolog. Mae'r ucheldiroedd amgylchynol yn esgyn i fyny dros 700m uwch datwm ordnans ar lethrau Glasgwm.
- **Dyffrynnoedd siâp U ag ochrau serth sy'n adlewyrchu effeithiau rhewlifiant**, gyda therasau cysylltiedig a thwmpathau marian. Mae'r nodweddion daearegol yn Afon Dyfi ger Mallwyd wedi'u dynodi yn SoDdGA yn sgil cadwraeth eithriadol.
- **Nentydd sy'n llifo'n gyflym a rhaedrau yn plymio i lawr o'r ucheldiroedd** drwy ddyfnentydd i'r dyffrynnoedd islaw, gan gynnwys y rhaeadr 20 metr yng Nghoed Afon Pumryd.
- Nifer o blanhigfeydd coed conwydd mawr ar ochrau serth y dyffryn. **Coedlan lydanddail bwysig yn y ceunant yng Nghoed Afon Pumryd**; coed derw mes di-goes sy'n cael lle blaenllaw.
- **Cymysgedd o gaeau bugeiliol rheolaidd ac unionlin bach yn y dyffrynnoedd**, sydd wedi'u hamgáu gan gymysgedd o ffensys postyn a gwifren a pherthi trwchus. **Coed perthi aeddfed a chlystyrau o goedlannau** yn cyfrannu at y cymeriad llawn coed.
- **Tir pori agored helaeth i ddefaid ar ochrau'r dyffryn a chopauon y bryniau**, gyda ffridd amgaedig fawr wedi'i dynodi gan waliau cerrig.
- **Mae ymyl dwyreiniol yr ACT yn AGA/ACA/GNG/SoDdGA Mynyddoedd y Berwyn**, gyda gwaun uchel llawn grug sy'n frith o gyforgors, rhedyn a glaswelltiroedd asid.
- **Planhigion arctig alpinaidd prin ar lethrau Ogof Ddu (SoDdGA) a chynefinoedd dyfnentydd cyfoethog** (gan gynnwys llwydni llysnafeddog) yn SoDdGA Coed Afon Pumryd.
- **Creiriau o orffennol diwydiannol yr ardal**, gan gynnwys tyllau mwyngloddio segur.
- **Prif anheddiad canoloesol Dinas Mawddwy, gyda hanes diwylliannol cyfoethog** gan gynnwys hanesion Gwyllaid Cochion Mawddwy, cysylltiadau â'r Brenin Arthur a chreiriau o'r diwydiannau gwlan a llechi. Mae'r bont gerrig â bwa dwbl sy'n dyddio o'r 17<sup>eg</sup> ganrif yn Radd II restredig.
- **Mae Dinas Mawddwy a'r A470 yn borth i'r Parc Cenedlaethol**. Mae'r A458 hefyd yn cynnig mynediad i'r dirwedd warchoddedig o'r dwyrain.
- **Fan arall, mae ffermydd cerrig garw ac ambell i bentrefan** wedi'u cysylltu gan isffyrdd a thraciau yn lapio o amgylch ochrau'r dyffryn, ac yn croesi rhydiau niferus.
- **Mae llawer o'r ucheldiroedd wedi'u dynodi yn dir mynediad agored neu dir comin**, sy'n darparu mynediad hamdden. Mae ambell i hawl tramwy yn lapio o amgylch y llethrau.
- Datblygiadau twristaidd yn ymestyn ar ffurf unionlin ar hyd yr A470 o Ddinas Mawddwy, gan gynnwys meysydd carafanau a gwersylla.
- **Tirwedd hynod wledig – gydag ucheldiroedd agored, anghysbell sy'n cynnig golygfeydd i'r Parc Cenedlaethol ac allan ar draws Mynyddoedd y Berwyn**.
- **Mae'r dyffrynnoedd yn cynnig teimlad cyferbyniol o dir caeedig ac agosrwydd**.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## **GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Planhigfeydd coed conwydd mawr ar ochrau'r dyffryn, gan gynnwys Dinas Mawddwy.
- Presenoldeb prif goridorau ffordd yr A470 ac A458, gydag ymwithiad sŵn a gweledol yn effeithio'n lleol ar gymeriad gwledig cryf yr ardal.
- Datblygiadau ffermydd gwynt gerllaw (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol) a chynigion y dyfodol yn meddu ar y potensial i effeithio ar nodweddion arbennig a lleoliad tirwedd warchoddedig (mae'r ACT hon ar ffin y Parc Cenedlaethol).

Mae'r dirwedd yn boblogaidd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, yn enwedig o amgylch canolfan ddiwylliannol Dinas Mawddwy, gyda galw cysylltiedig am gyfleusterau lleol.


## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Mae'r ACT hon ar ffin ddeheuol y Parc Cenedlaethol, ac felly mae'n darparu swyddogaeth werthfawr fel lleoliad a phorth i'r dirwedd warchoddedig. Bydd ei nodweddion anghysbell a'i golygfeydd eang i Eryri ac allan ar draws Mynyddoedd y Berwyn a'r tu hwnt yn cael eu diogelu, tra bo'i threftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog yn cael ei rheoli a'i gwella, gan gynnwys drwy ddal ati ag arferion rheoli tir a choedlannau traddodiadol.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawd 'Mynyddoedd' a 'Dyffrynnoedd'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT hynod o goediog hon yn cynnwys y tir uwch a'r dyffrynnoedd uwchben Corris a Chorris Uchaf (y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol yng Ngwynedd). Y dirwedd hon sy'n ffurfio cyrion canol-deheuol y dirwedd warchoddedig sy'n dir blaen pwysig ar gyfer y mynyddoedd y tu cefn.



## NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>

- **Topograffi cymleth gyda dyffrynnoedd eithriadol o serth** yn cerfio drwy dirffurf yr ucheldir, gyda chopaon bryniau crwn yn cyrraedd uchafbwynt o 667 metr uwch datwm ordnans uwchben Briddellarw.
- Craigwely sylfaenol o gerrig silt, tywodfeini a cherrig llaid Silwraidd ac Ordofigaidd.
- **Nifer o nentydd yn creu tirffurfiau dyffrynnoedd serth sy'n troelli drwy'r ucheldiroedd**, yn cynnwys Afon Angell, Nant y Darren, Nant Lliwdy a Nant Ceiswyn – is-afonydd Dyfi a Dulas i'r De.
- Mae'r dirwedd wedi'i gorchuddio bron yn gyfan gwbl â choedwigoedd coed conwydd, sy'n cuddio'r tirffurf cymleth. **Strimynnau cul o goedlannau llydanddail ar hyd ochrau'r dyffryn.**
- **Ardaloedd cyfyngedig o dir pori garw a thir comin yn frith drwy'r coedwigoedd**, gyda phocedi bach o **gaeau afreolaidd yn y dyffrynnoedd, wedi'u gwahanu â pherthi a nifer o goed perthi.**
- Ar wahân i'r coedwigoedd a'r tir pori garw, mae ardaloedd bach o ffermio bugeiliol ar yr ymylon isaf.
- **Darnau o laswelltir garw, rhostir, prysgwydd, rhedyn a choedlannau llydanddail** yn ffurfio cynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr rhwng y coedwigoedd.
- **Chwareli a thomenni segur** yn dyst i orffennol diwydiannol yr ardal.
- Mae'r ardaloedd coediog a'r llwybrau yn boblogaidd ymhlith beicwyr mynydd, ac mae llawr ohono yn dir mynediad agored.
- **Mae'r rhan fwyaf o'r dirwedd yn ansefydlog**, gydag ambell i fferm a phentrefan ar lethrau isaf y dyffryn wedi'u cysylltu gan rwydwaith ffordd gwledig gwasgaredig.
- **Tirwedd anghysbell gydag ymdeimlad cryf o bellenigrwydd**, sy'n darparu tir blaen annatblygedig gwerthfawr i'r Parc Cenedlaethol.
- I ffwrdd o'r ardaloedd wedi'u plannu, mae **golygfeydd o Ddyffryn Dyfi, Cadair Idris a Mynyddoedd yr Aran.**

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodoleddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



## **GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Planhigfeydd coedwigaeth helaeth sy'n ffurfio prif ddefnydd y tir ac yn cuddio'r topograffi cymleth oddi tanodd.
- Tresmasiad coedlannau eilaidd ar ardaloedd o gynefin agored ar ochrau'r dyffrynnoedd ac ymylon rhostiroedd, yn enwedig coed bedw, sy'n arwydd o ostyngiad yn y lefelau pori.
- Poblogrwydd yr ardal ar gyfer beicio mynydd a llwybrau cerdded – byddai unrhyw ddatblygiad cysylltiedig i gefnogi twristiaeth yn effeithio ar nodweddion anghysbell ac annatblygedig yr ardal.


## **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Planhigfeydd coed conwydd sylweddol yn rhan ddeheuol y Parc Cenedlaethol. Mae'r ardal yn fwy anghysbell ac anhygyrch na Gwydyr a Choed y Brenin, ac o ganlyniad mae'r dirwedd goediog hon yn cynnig profiad gwahanol i ymwelwyr. Efallai y bydd cyfleoedd cyfyngedig am ddatblygiadau hamdden bychan. Bwriedir gwella bioamrywiaeth drwy reoli'r coedwigoedd a'r coedlannau yn well. Mae ymylon y rhostiroedd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer adar, ac anogir dulliau rheoli a gwella priodol er mwyn cynnal neu ychwnaegu at yr adnodd hwn.

## **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA, yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawdau 'Mynyddoedd / Ucheldiroedd' a 'Coedwigaeth'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Mae'r ACT yn cynnwys prif ran Dyffryn Dysynni ar ei gwrs tuag at Fae Ceredigion, yn ogystal â'i gyrsiau uchaf culach o'i tharddiad yn Llyn Mwyngil. Mae'r dirwedd yn cynnwys dyffrynnoedd isafonydd Afon Cadair a Nant-caw, ymylon yr ucheldiroedd amgylchynol a gorlifdir eang y Dysynni wrth iddi gyrraedd yr arfordir. Caiff ei ffinio i'r gorllewin gan ffin y Parc Cenedlaethol yn Nhywyn.

**NODWEDDION ALLWEDDOL YR ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>**

- Dyffryn cul y Dysynni a'i hisafonydd, ar ffurf siâp U clasurol gydag ochrau dyffryn serth (yn cyrraedd uchafbwynt o 586 metr uwch datwm ordnans yng Nghraig Goch). Mae'r dirwedd yn agor yn ddramatig yn orlifdir eang yn y gorllewin wrth i'r afon lifo tuag at y môr.
- Craigwely o gerrig llaid, tywodfeini a cherrig silt Ordofigaidd wedi'u cymysgu ag **ymwthiadau folcanig, gan gynnwys SoDdGA uchel 'Craig yr Aderyn'**. Tystiolaeth helaeth o ddyddodiad a gweithrediad rhewlifol.
- **Llyn rhewlifol Llyn Mwyngil**, sef tarddiad y Dysynni, **yw nodwedd amlycaf ffin ddwyreiniol yr ACT. Nentydd sy'n llifo'n gyflym, tarddellau a rhaedrau** yn dod i lawr o'r ucheldiroedd amgylchynol.
- Ardaloedd helaeth o blanhigfeydd coed conwydd a chymysg ar ochrau'r dyffryn, ynghyd â strimynnau gwerthfawr o goedlannau llydanddail.
- **Patrymau caeau rheolaidd o adferiad arfordirol y 18fed a'r 19eg ganrif, yn ildio i batrymau caeau afreolaidd llai yn y dyffrynnoedd. Llethrau serth agored, yn cynnwys darnau sylweddol o ffridd sy'n cael eu pori gan ddefaid, wedi'u gwahanu gan waliau cerrig.**
- **Tir bugeiliol wedi'i rannu gan ffosydd draenio** yn y gorllewin a chymysgedd o ffensys a **pherthi trwchus gyda nifer o goed perthi** yn y dyffrynnoedd.
- **Llethrau serth uwch Llyn Mwyngil sy'n cynnwys rhostir a glaswelltir asid a chorsiog yr ucheldir sy'n llawn rhywogaethau** (yn ACA, GNG a SoDdGA ehangach Cadair Idris). **Glaswelltir asid heb ei wella / mosaig rhedyn yng Nghraig yr Aderyn** sy'n cynnal poblogaethau'r frân goesgoch a'r mulfran sy'n bwysig yn genedlaethol.
- **Cynefinoedd arfordirol pwysig yng ngenau'r dyffryn** yn cynnwys morfa heli, morlynnoedd, traethell gro, gwastadeddau llaid, gwelyau cyrs a ffosydd (SoDdGA Broadwater).
- **Mae'r dyffryn wedi'i ddynodi yn Dirwedd o Ddiddoreb Hanesyddol Arbennig, gyda nodweddion sy'n bwysig yn genedlaethol** sy'n cynnwys bryngaer Oes yr Haearn Craig yr Aderyn, castell canoloesol Castell y Bere, a chylchoedd cytiau hynafol yng Nghraig Tyn-y-Cornel.
- **Parcdir rhestredig Gradd II\* Peniarth** gyda thir mwyniant coediog ar lan yr afon ynghyd â safle gwyllo. **Gweddillion chwareli llechi** (e.e. inclein chwarel lechi Alltwyllt – Heneb Gofestredig), **mwyngloddiau sinc a phlwm** sy'n dyst o orffennol diwydiannol yr ardal.
- **Pentrefi Abergynolwyn, Llanegryn a Brynchrug ynghyd â ffermydd cerrig / llechi gwasgaredig a phentrefannau** sydd wedi'u cysylltu gan ffyrdd gwledig. Mae Rheilffordd Talyllyn yn rhedeg drwy'r dyffryn.
- Meysydd carafanau statig a gwersylla yn y dirwedd, yn enwedig yn y gorllewin (sy'n agosach at yr arfordir a chanolfan dwristaidd Tywyn).
- **Ardal gyfoethog o ran ei threftadaeth ddiwylliannol yn sgil ei chysylltiad â nifer o straeon Cymreig** e.e. Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant, a Chastell y Bere – y castell Cymreig a ddechreuwyd gan Llywelyn Fawr oddeutu 1221 yn ôl pob tebyg.

<sup>1</sup> Mae'r llythrennau trwm yn dangos y nodweddion allweddol yr ystyrir eu bod yn 'briodolddau gwerthfawr' yr Ardal Cymeriad Tirwedd; agweddau ar gymeriad sy'n cyfrannu'n fawr at y nodweddion unigryw lleol.



### **GRYMOEDD DROS NEWID SY'N EFFEITHIO AR GYMERIAD Y DIRWEDD**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Grymoedd dros Newid' yn y ddogfen CCA. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r ACT hon yw'r grymoedd dros newid a ganlyn:

- Planhigfeydd coed conwydd eang ar dir uwch ac ochrau'r dyffryn, yn arbennig yn Abergynolwyn, sy'n cyferbynnu â chymeriad agored yr ucheldiroedd amgylchynnol (a'r gorlifdir oddi tanodd).
- Agosrwydd at ganolfan dwristaidd Tywyn (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol), gyda'r brif A493 yn croesi'r dirwedd i wasanaethu'r dref. Mae ymwthiad gweledol a sŵn o draffig ar y ffordd hon yn effeithio ar lefelau llonyddwch yn rhan orllewinol yr ACT.
- Mae meysydd carafanau a gwersylla wedi'u gwasgaru ledled y dirwedd i wasanaethu ei boblogrwydd ar gyfer twristiaeth, sy'n cynnwys ei agosrwydd at Dywyn a phresenoldeb llinell reilffordd dreftadaeth Talyllyn.


### **STRATEGAETH TIRWEDD AR GYFER Y DYFODOL**

Mae Llyn Mwyngil yn Nyffryn Talyllyn, a Chraig yr Aderyn drawiadol, yn nodweddion eiconig o'r ACT hon. Mae hefyd golygfeydd benthyg tuag at Gadair Idris; mae'n bwysig diogelu'r rhain rhag datblygiadau amhriodol. Mae cysylltiadau diwylliannol cryf y dirwedd, ynghyd â'i natur dawel a gwledig - ynghyd â'i swyddogaeth fel porth i'r mynyddoedd canol – angen eu gwarchod a'u gwella.

### **CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI NEWIDIADAU YN Y DIRWEDD YN Y DYFODOL**

A fyddech cystal â chyfeirio at yr adran 'Canllawiau' yn y brif ddogfen CCA , yn enwedig ar gyfer y canllawiau o dan y pennawdau 'Dyffrynnoedd / Aberoedd'.

## RHAN 1: DISGRIFIAD



### CRYNODEB O'R LLEOLIAD A'R FFINIAU

Tir yn codi o'r arfordir yn y gorllewin, ac aber Afon Dyfi o'r de i ffurfio cyfres o ucheldiroedd, a gaiff ei rannu gan ddyffryn Cwm Maethlon (a adwaenir yn lleol fel Happy Valley). Yr uchafbwynt mynyddig yn yr ardal yw Tarrenhendre (634 UDO)



**NODWEDDION ALLWEDDOL ARDAL CYMERIAD TIRWEDD<sup>1</sup>**

- Ardal ucheldir rhwng dyffrynnoedd Dysynni a Dyfi, gyda crib o gopaon yn cyrraedd uchafbwynt o 634 metr (AOD) yn Tarrenhendre.
- O ran daeareg, craigwely o garreg llaid, cerrig silt a thywodfaen Ordofigaidd wedi eu llunio gan weithred rhewlifol
- **Nentydd a rhaeadrau (e.e. Rhaedr Dolgoch) yn llifo o'r ucheldiroedd** i Gwm Maethlon a dyffrynnoedd cyfaogs eraill, sef Dysynni a Dyfi.
- Planhigfeydd coedwigaeth ar lethrau gogleddol a dwyreiniol Tarrenhendre, yn nyffryn Cwm Ffernol a hefyd yn Llechwedd Melyn. Bandiau o goetir llydanddail i'w canfod ar hyd llethrau isaf y dyffryn.
- **Ffriddoedd mawr wedi eu rhannu gan waliau mawr ar yr ucheldiroedd. Ardal o bori garw, yn bennaf gan ddefaid**
- Tref hanesyddol Criccieth, a datblygiad twristiaeth 20fed ganrif Morfa Bychan, yn ogystal â ffermydd achlysurol yng ngogledd yr ACM.
- Golygfeydd hirbell ar hyd y bae ysgubol yn creu ansawdd agored ac ar raddfa fawr i'r ACM. Mae'r tywydd a'r tymhorau yn cael dylanwadau cryf ar rinweddau canfyddiadol yr ardal
- Gosodiad y dirwedd yn cael ei ddominyddu gan fryniau Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae gosodiad y morlun yn cynnwys twyni Mochras ar y nenlinell ddeheuol, a bryniau Arfordir Llyn tua'r gogledd.



*Golygfa oddi ar dir uwch yn ystod yr haf yn dangos chwaraeon dwr alldraeth.  
Delwedd © John Briggs*



*Morfa Bychan a Chastell Criccieth yn yr haf.  
Delwedd © John Briggs*



*Morfa Bychan yn y gaeaf.  
Delwedd © Fiona Fyfe*

## Buddion a Gwasanaethau Diwylliannol

**Allwedd:** Cysgod trwm = wedi'i ledaenu'n eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol & ysbrydol
Traeth	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Actif	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Eco dwristiaeth				
Chwaraeon Dwr				
Fforio				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Amgylchedd deinamig, yn enwedig ar geg yr aber gyda phatrymau o sianeli a thirffurf wedi ei gyfunioni hefo'r torddwr ym Morfa Harlech. Mae Bae Tremadog yn ddynodedig fel AGA alldraeth am ei werth cadwraeth.
- Castell Cricieth wedi ei leoli ar bentir o graig igneaidd galetach , gyda gwaddodion rhewlifol cyfagos meddalach wedi erydu mewn mannau i'r baeau ar y naill ochr a'r llall. Amlygiadau Cwaternaidd mewn clogwyni ym Morannedd yn rhoi cipolwg ar hanes rhewlifol gogledd - orllewin Cymru. Ffin rhwng y Cambrian a chreigiau Ordofigaidd yn agored ar Rhiw-for-fawr. SoDdGA Rhan Ffordd Wern yn ddynodedig am ei ddiddordeb daearegol.
- Dyddodiad gwaddodol a ffurfiad / symudiad twyni, gyda phroses drifft gwaddod rhynglanwol naturiol tuag at ganol y bae. Traeth caregog nodedig ym Morannedd.
- Amgylchiadau morol unigryw ( tymheredd y dŵr, cymylogrwydd a gwaddodion mwdlyd) Bae Tremadog yn cefnogi amrywiaeth o rywogaethau cymharol brin, gan gynnwys morwellt rhynglanwol.
- Traethau (enwog am niferoedd a mathau o gregyn) a thwyni dynodedig fel AGA a SoDdGA (Tiroedd a Glannau Rhwng; Cricieth ac Afon Glaslyn; Morfa Harlech a Morfa Dyffryn).
- Cynefinoedd naturiol sy'n gysylltiedig â Moel-y- Gest a reolir drwy reoli coetiroedd pori a choedlannau.
- Gwlyptir yn Llŷn Ystumllyn yn ddynodedig fel SoDdGA ( Rhiw - for-fawr )

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Safleoedd amddiffynnol o'r Oes Haearn Bryngaer ar gopa Moel-y-Gest, a Chastell Cricieth (Heneb Gofrestredig) a adeiladwyd ar bentir craig rhyolit igneaidd gwrthsefyllol. Cylchoedd cytiau Cynhanesyddol ger Garth Morthin hefyd.
- Trefgordd Ganoloesol Ystumllyn sy'n gysylltiedig ag eglwys Sant Cynhaiarn ar ei ynys ar ochr orllewinol Llŷn Ystumllyn (tir pori a adferwyd erbyn hyn). Olion cytiau hir o'r Canol Oesoedd cynnar yn weladwy ar ynysoedd bychain tua'r de - orllewin o'r eglwys. Yn y cyfnod Canoloesol mae'n debygol o fod wedi bod yn fan glanio yn y cyffiniau.
- Pentref arfordirol Cricieth sy'n gysylltiedig yn hanesyddol â physgota penwaig, ond o ganol y 19eg ganrif wedi datblygu fel cyrchfan i dwristiaid yn dilyn dyfodiad y rheilffordd (Ardal Gadwraeth ddynodedig Cricieth).
- Morfa Bychan yn enghraifft o ddatblygiad twristiaeth o'r 20fed ganrif, gyda'i chynllun grid o fyngalos, a meysydd parcio helaeth, meysydd carafanau a gwersylla a leolir y tu ôl i'r traeth tywodlyd eang o Draeth y Greigddu.
- Meysydd parcio ar gyfer y traeth ac ati yn debygol o fod wedi cuddio lleoedd glanio bach sy'n gwasanaethu cymunedau / ffermydd lleol.
- Wedi ei rannol gynnwys ar Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol Cymru (Ardal 20: Ardudwy) .
- Eglwys Criccieth yn cynnwys deial haul o'r 18fed ganrif, yn dangos beth yw'r pellteroedd i wahanol borthladdoedd.
- Llywio yn cael ei ddominyddu gan Far Porthmadog , Banc Gogleddol a Deheuol (tafod Harlech ) a'r system bwiau marcio sy'n marcio'r sianel fordwyol bas (sydd wedi symud yn sylweddol i'r de yn y 150 mlynedd diwethaf) . Cychod yn anelu am Borthmadog yn cael eu hangori ar Ffyrdd St Tudwal alldraeth cyn mynd ymlaen i mewn i'r afon pan fydd y llanw'n uchel. Cychod Peilot wedi'u lleoli ar Fechan Point.
- Llongdrylliadau ar y bar yn cynnwys nifer o golledion o'r fasnach lechi.
- Magasin Powdwr ar Ynys Cyngar (a ddefnyddir gan longau ar gyfer gynnu arfau amddiffynnol a signal ) tŷ



sydd bellach yn breifat.

- Awyrennau drylliedig o'r ail ryfel byd ar dywod tua'r de, yn dilyn damwain wrth esgyn o faes awyr Llanbedr.
- Cyrchfan wyliau boblogaidd iawn, gyda chwaraeon dŵr a chychod hamdden yn yr haf.
- Yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Golygfeydd agored ac eang o draethau llydan a bae Tremadog.
- Tirffurf cymharol syml o fewn yr ACM, ond yn cynnwys amryw o ddefnydd tir gan gynnwys meysydd carafanau amlwg. Ardal dwristiaeth boblogaidd, brysur iawn yn ystod misoedd yr haf.
- Golygfeydd yn cael eu dominyddu gan batrymau tywod ysgubol, a chopa amlwg Moel-y-Gest. Y môr, twyni a rhostir arfordirol yn ychwanegu at yr amrywiaeth o liw naturiol a gwedd, a meysydd carafanau yn ychwanegu at y patrymau mwy ffurfiol.
  - Ardal brysur, boblogaidd a sefydlog. Serch hynny, y môr yn ychwanegu elfen wyllt i'r ACM, yn enwedig dan amodau tywydd gorllewinol.
  - Mae lleoliad yr ACM (yn cynnwys y bryniau o amgylch Eryri a Phen Llŷn) yn cyfrannu'n sylweddol at ei chymeriad a'i ymdeimlad o le. Mae gosodiad y dirwedd yn creu cefnlen ddramatig a chymharol wyllt i olygfeydd o'r arfordir ac o'r môr.

### Grymoedd dros Newid

Crynodeb	Grymoedd Allweddol dros Newid							
	Prosesau Naturiol / newid hinsawdd	pwysau ymwelwyr	Defnydd morol – masnachol a physgota	Ynni alldraeth neu fwynau	Pwysau datblygiad / llwybrfyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y WA	
<p>Edrychiad a chymeriad hanesyddol Criccieth yn agored /fregus i ddatblygiad yn y dyfodol a fyddai'n newid y patrwm anheddu (gan gynnwys datblygu posibl ar ochrau dwyreiniol a gorllewinol y dref) neu sy'n effeithio ar dirnodau nodedig ar lan y môr Criccieth. Gallai hyn o bosibl gynnwys cyflwyno amddiffynfeydd môr gweledol ymwithiol.</p> <p>Datblygiad ar hyd y grib tua'r gorllewin y tu allan i AoHNE Pen Llŷn.</p> <p>Cyrchfan wyliau boblogaidd, gyda photensial ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth bellach yn ardal Morfa Bychan (ee carafán newydd / estynedig a safleoedd gwersylla). Pwysau tymor uchel ar lan y môr a'r amgylcheddau ger y lan (ee twyni yn nhraeth y Greigddu / Black Rocks) oherwydd niferoedd uchel o ymwelwyr, a materion sydd a wnelo llygredd sŵn a phwysau traffig, gan gynnwys cerbydau / llongau ar y dŵr.</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>							
	laith Gymraeg							
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang							
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
	Treftadaeth ddiwylliannol							
	Pellenigrwydd, heddwch a gwylltineb							
	Mynediad at dir a dŵr a hamddena / a mwynhad							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynysoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau a gerddi hanesyddol							
	Ansawdd pridd, aer a dŵr							
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal yn effeithio ar y rhinwedd arbennig dethol					

<p>Bygythiadau posibl i leoliad mewndirol a nenlinellau o ddatblygiadau tyrbîn gwynt ar y tir.</p> <p>Prosesau naturiol gwaddod rhynglanwol drifft tuag at ganol y bae.</p>			
---	--	--	--

### Sensitifrwydd Cynhenid


Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	<p>Arfordir agored gyda golygfeydd hir tua'r môr dros Fae Tremadog : datblygiad â photensial i fod yn weladwy oddi ar y tir a'r môr.</p> <p>Cynefinoedd arfordirol sensitif mewn systemau twyni a gwlypdiroedd.</p> <p>Tir uwch Moel-y-Gest yn ffurfio tirnod arfordirol ar wahanedig.</p> <p>Cribynnau amlwg yn hynod o sensitif i ddatblygiad (gan gynnwys ardaloedd y tu allan i AOHNE Pen Llyn).</p>	
Datblygiad presennol	<p>Patrwm a chymeriad hanesyddol pentref, Criccieth,.</p> <p>Mae gan draeth y Greigddu ei hun rinwedd annatblygedig, ac mae twyni yn blocio golygfeydd o ddatblygiad mewndirol.</p>	Pentrefi Criccieth a Morfa Bychan, a'r meysydd carafannau o amgylch.
Y profiad gweledol	<p>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru yn dderbynyddion sensitif.</p> <p>Tir uwch Moel-y-Gest yn amlwg mewn golygfeydd arfordirol.</p> <p>Y bae ysgubol yn ffocysu'r golygfeydd ar ei hyd, yn gwneud datblygiad yn amlwg iawn.</p>	Defnydd hamddena / twristiaeth ar dir a dŵr yn dylanwadu ar gymeriad rhannau arfordirol yr ACM.
Tawelwch	Lefelau uwch o dawelwch yn rhan ogleddol ACM, o gwmpas Moel-y-Gest	Cyrchfan wyliau boblogaidd, gyda chynyddiadau tymhorol yn niferoedd yr ymwelwyr.

## ARDAL CYMERIAD MORLUN 20: PORTHMADOG AC ABER Y GLASLYN

ACTau Cydrannol (Gwynedd): Porthmadog

### Lleoliad a chyd destun

Mae'r ACM hon wedi ei lleoli yn rhan ogleddol arfordir gorllewinol Eryri. Mae'n cynnwys tref Porthmadog a chorsydd wedi eu ad hawlio yn nyffryn y Glaslyn tua dwyrain y dref. Mae'n fewndirol (dwyrain) o ACM 19: Criccieth i Fochras, a thua'r gogledd o ACM 21: Aber y Ddwryd a Morfa Harlech.



*Golygfa tua'r dwyrain o Aber y Glaslyn yn edrych ar draws gorsydd pori tymhorol wedi gorlifo - edrych tuag at fynyddoedd gorllewin Eryri. Delwedd © Fiona Fyfe*


### Disgrifiad Cryno

Mae'r ACM bron yn gyfan gwbl yn dir sydd wedi cael ei ad hawlio gan y môr. Mae llawer o'r nodweddion yn y dirwedd, gan gynnwys yr arglawdd ('cob') ar draws ceg yr aber, aneddiadau Porthmadog a Thremadog, cwrs yr afon a'r corsydd pori i gyd yn rhan o'r cynllun adfer a ddyfeisiwyd gan William Madocks yn y 19eg ganrif gynnar. Y canlyniad yw, tirwedd ffrwythlon fflat gydag ychydig o adeiladau, sy'n dueddol o ddirodd defllifogydd tymhorol sy'n cael ei ddominyddu yn weledol gan fynyddoedd Eryri sy'n ei amgylchynu. Mae'n cael ei groesi gan linellau rheilffordd, gan gynnwys llinellau rheilffordd cul a oedd yn cludo llechi yn wreiddiol o chwareli Eryri i'r porthladd ym Mhorthmadog.



# Mathau Cymeriad Morluniau Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad I os gwelwch yn dda am restr o'r Mathau Cymeriad Morluniau Cyfansoddol.



Mathau Cymeriad Morluniau yn ACM Porthmadog ac Aber y Glaslyn. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'H'</b>	<b>i3</b>	<b>t2</b>	<b>t7a</b>	<b>t8b</b>	<b>t13a</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>i6</b>	<b>t5</b>	<b>t7b</b>	<b>t10</b>	<b>t14</b>
<b>i2</b>	<b>m4a</b>	<b>t6</b>	<b>t8a</b>	<b>t11a</b>	<b>t15</b>



## Nodweddion Allweddol

- Tanorweddur gan greigiau Cambrian diweddaraf a chreigiau gwaddodol Ordofigaidd Isaf (gan gynnwys y rhai o'r cyfnod Tremadog) yn lleol gydag ymwthiadau dolerit
- Tirffurf eang, gyda llawr dyffryn fflat a oedd gynt yn aber. Bryniau bach achlysurol o graig yn fwy ymwrthol (cyn ynysoddedd) ar lawr y dyffryn
- Mae'r Afon Glaslyn yn ymdroelli drwy'r dyffryn, er bod ei chwrs wedi cael ei newid i alluogi'r corsydd cyfagos i gael eu hadennill ar ddechrau'r 19eg ganrif
- Defnydd tir bron yn gyfan gwbl yn gors, gyda rhywfaint o anheddiad ar dir uwch ar gyrion yr ACM
- Cynefinoedd cors a thir pori gwlyptir helaeth gwerthfawr ar draws y rhan fwyaf o'r ACM. Peth coedlannau, yn enwedig ar dir uwch
- Nodweddion hanesyddol a diwylliannol niferus sy'n gysylltiedig â draenio yr aber gan William Madocks yn gynnar yn y 19eg Ganrif, gan gynnwys Cob Porthmadog a phentref Tremadog
- Nodweddion hanesyddol a diwylliannol alldraeth yn cynnwys camlas o Dremadog i'r môr ym Mhorthmadog, a chysylltiadau gydag adeiladu llongau a chludo llechi i'r môr o chwareli Ffestiniog
- Tref Georgaidd gynlluniedig Tremadog ac yn ddiweddarach porthladd arfordirol Porthmadog (y ddau ar yr ochr orllewinol yr ACM) yn ogystal â ffermydd achlysurol o gwmpas yr ymylon
- Golygfeydd eiconig o Borthmadog a'r cob dros y ACM hwn tua mynyddoedd mawreddog Eryri o amgylch, gan gynnwys Yr Wyddfa ei hun. Natur agored a gwastadrwydd llawr y dyffryn yn cael ei amlygu fwy gan y bryniau o amgylch
- Rhyngweledd rhwng yr ACM hwn a'r môr yn gyfyngedig iawn, â golygfeydd yn cael eu rhwystro gan y Cob. Fodd bynnag, yn y golygfeydd o'r bryniau cyfagos, mae'r berthynas weledol a ffisegol rhwng yr ACM hwn a'r môr yn gallu cael ei werthfawrogi



*Edrych ar draws y cob tuag at Borthmadog.  
Delwedd © Fiona Fyfe*



*Uwch olygfa o uwch ben Portmeirion, yn dangos gwahanol batrymau draenio naill ochr i'r cob Delwedd © John Briggs*



*Golygfa nodweddiadol o gorsydd pori yn aber y Glaslyn. Moel-y-gest i'w weld ar y nennlinell.  
Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

Allwedd: Cysgod trwm = wedi'i ledaenu'n eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol & ysbrydol
Traeth	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Actif	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Ecodwristiaeth				
Chwaraeon Dwr				
Fforio				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Mae'r ACM yn enghraifft o addasiad bwriadol a systematig o'r amgylchedd naturiol. Yn sgil draenio yr aber ar gyfer tir fferm yr oedd angen newid cwrs yr afon, ac adeiladu arglawdd (y Cob) ar draws ceg yr aber i atal gorlifo ar lanw uchel. Gwyro yr afon yn ei dro yn achosi sgwrio y sianel i lawr yr afon
- Tirwedd yn gorwedd yn isel iawn, yn dueddol o ddiodeff llifogydd tymhorol ond â chanddo werth uchel i fywyd gwyllt. SoDdGA Glaslyn yn cynnwys sianel yr afon a rhannau o lawr y dyffryn, sianel yr afon hefyd wedi'i ddynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Garregog, a chuddfannau Adar wedi eu hadeiladu yn agos at Bont Croesor.
- Safle RIG yn Chwarel Carreghaearn Tremadog.
- Mynyddoedd Eryri yn ffurfio lleoliad tirlun dramatig a chefnidir gwych i'r ACM. Yn y 1960au, llinellau peilon arfaethedig ar draws yr aber yn cael eu rhoi o dan y ddaear er mwyn gwarchod y golygfeydd.

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- ACM hon yw un o'r enghreifftiau gorau o dirwedd a adferwyd yng Nghymru, gan arddangos gweledigaeth William Madocks o dir amaethyddol ffrwythlon, aneddiadau a masnach ar yr hyn a oedd wedi bod yn gorsydd llanw yn flaenorol
- Cob Porthmadog (arglawdd) yn nodwedd linellol unigryw ar draws ceg yr aber. Mae'n cludo ffordd a'r rheilffordd Ffestiniog gul (sydd bellach yn rheilffordd i dwristiaid, ond a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer allforio llechi o chwarel Ffestiniog). Rheilffyrdd eraill yn croesi tir a adferwyd yn yr ACM : y gwasanaeth cyhoeddus i Bwllheli a Rheilffordd Ucheldir Cymru (a llinell chwarel gynt)
- Pentref Tremadog a gynlluniwyd gan Madocks mewn arddull Georgian (Ardal Gadwraeth). Yn ddiweddarach tref Porthmadog (hefyd yn Ardal Gadwraeth) a ddatblygwyd fel canolfan ddiwydiannol, harbwr a phorthladd
- Y prif allforion o Borthmadog oedd llechi, a chopr a mwynau plwm. Mewnforion yn cynnwys glo, calchfaen, pren Americanaidd a chyflenwadau cyffredinol. Cofnodion 1868 yn cofnodi dros 1300 o fordeithiau i mewn ac allan
- Bryngaerbach o Oes yr Haearn / anheddiad amddiffynnol ar Ynysfor yng nghanol y gors. Ffermdy bresennol yn dyddio o'r Ddeunawfed Ganrif
- Wedi ei rannol gynnwys ar Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol Cymru (Ardal 25: Aberglaslyn).
- Hanes o adeiladu llongau, yn enwedig 'Yachts Ocean Western' (sgwneri) a adeiladwyd yn benodol ar gyfer y diwydiant penfras halen Newfoundland. Fel arfer, llongau a adeiladwyd yma yn 150-00 tunnell a ddefnyddir ar gyfer mordeithiau arfordirol a chefnforol dwfn

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Tirwedd ar raddfa fawr, gyda golygfeydd wedi'u fframio gan y bryniau cyfagos, gan greu ymdeimlad o gaeadle
- Draw oddi wrth yr aneddiadau a ffyrdd, tirlun o gyfansoddiad syml, cytbwys. Mae gan Dremadog ymddangosiad cymesur tref a gynlluniwyd, ond mae Porthmadog wedi datblygu'n llai ffurfiol ac mae ganddi natur brysur



- Draeniau syth a ffiniau caeau yn creu patrwm cyson yn y dirwedd. Gwead tirwedd yn cael ei ddominyddu gan ddŵr (yn enwedig yn ystod llifogydd y gaeaf), tir pori brwynog a llystyfiant y glannau. Mae pocedi o goetir ar dir uwch yn darparu cyferbyniadau mewn gwead a lliw
- Y tu allan i'r aneddiadau a ffyrdd sy'n dilyn cyrion yr ACM, mae hwn yn dirwedd gymharol anhygyrch gydag ymdeimlad o bellnigrwydd a llonyddwch. Mae llonyddwch yr ACMA yn cael ei wella ymhellach gan bresenoldeb dŵr ac adar. Mae'r dirwedd yn cael ei hystyried yn naturiol, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cael ei ailfeddiannu drwy beirianeg
- Gosodiad y tirlun – sef bryniau cyfagos yn creu cefnlen garw a thrawiadol, yn ogystal â synnwyr o gyfyngiant a graddfa. Mae presenoldeb y bryniau hyn mewn golygfeydd yn ychwanegu at ymdeimlad anghysbell a llonyddwch yr ACM.
- Mae'r ACM hefyd yn elfen bwysig o'r golygfeydd o'r bryniau o amgylch. Yn y golygfeydd hyn, gall yr ACM gael ei gweld yn ei gyd-destun yr arfordirol

## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth	
Ehangiad posibl aneddiadau sy'n bodoli eisoes o fewn y ACM, gan arwain at lechfeddiant i mewn i ardaloedd heb eu datblygu ar hyn o bryd, a / neu effeithiau ar dirffurf llorweddol cryf yr ACM.								
Gall datblygiad tu hwnt i ffin yr ACM greu difrifyddion gweledol, yn fwyaf nodedig datblygiadau crib.								
Newidiadau i arferion a / neu ddwystr a allai newid patrymau a chynefinoedd caeau sefydledig amaethyddol.								
Llifogydd ar dir sy'n gorwedd yn isel, yn cael ei waethygu gan godiad yn lefel y môr.								
<b>Allwedd</b>								
	Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig							

## Sensitifrwydd Cynhenid


Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	<p>Tirffurf llorweddol yn sensitif i gyflwyniad nodweddion fertigol</p> <p>Tirffurf yn gorwedd yn isel gyda chynefinoedd gwlyptir sensitif.</p>	Llawr yr aber gyda dim ond ychydig o ryngweledd â'r môr, o ganlyniad i ymyrraeth yr arglawdd a elwir yn gob
Datblygiad presennol	Datblygiad presennol yn gyfyngedig i ymyl gorllewinol yr ACM; mewn mannau eraill, mae gan yr ACM rinwedd gwag, annatblygedig.	Presenoldeb datblygiad presennol ym Mhorthmadog a Thremadog.
Y profiad gweledol	<p>Mae'r gosodiad a'r bryniau cysylltiedig â'r nenlinellau yn cyfrannu'n fawr iawn at gymeriad a rhinweddau gweledol yr ACM.</p> <p>Gweledol iawn mewn golygfeydd o fryniau o amgylch.</p>	
Tawelwch	Lefelau uchel o dawelwch draw oddi wrth y prif ffyrdd a'r trefi.	Effeithiau datblygiad presennol , ffyrdd (ar y cyrion) a threnau achlysurol.

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 21: ABER Y DDWYRYD A MORFA HARLECH

ACTau Cydrannol (Eryri): Morfa Harlech; Dyffryn Ffestiniog; Morfa Dyffryn  
ACTau Cydrannol (Gwynedd): Porthmadog

### Lleoliad a Chyd destun

Lleolir yr ACM hon yn y rhan ogleddol arfordir Eryri gorllewin. Mae'n cynnwys aber y Ddwryd o'i cheg ger Porthmadog at derfyn ei llanw mewndirol yn Nhan-y-bwlch. Mae hefyd yn cynnwys Morfa Harlech ar lan ddeheuol yr aber, a threfi Harlech a Phenrhyndeudraeth. I'r gogledd mae ACM 20: Porthmadog ac Aber Glaslyn, i'r gorllewin mae ACM 19: Criccieth i Fochras, ac i'r de ceir ACM 22: Mochras i Fairbourne a Sarn Badrig.



*Yr olygfa ar draws Aber y Ddwryd o'r Ynys, yn dangos cynefinoedd rhynglanwol, pentref Portmeirion a mynyddoedd Eryri yn ffurfio'r gefnlen. Delwedd © Fiona Fyfe*


### Crynodeb Disgrifiad

Mae golygfeydd o'r ACM hon yn cael eu dominyddu gan dirffurf eang aber y Ddwryd, gyda'i morfeydd heli helaeth, tywod, mwd a'i system dwyni (Morfa Harlech). Mae'r aber hefyd yn cynnwys 'Ynysoedd' unigryw a chribau o dir uwch ar y naill ochr a'r llall. Yn edrych dros yr aber mae pentrefi cyferbyniol Harlech (gyda'i chastell canoloesol ar ochr y dyffryn), Portmeirion gyda'i phensaerniaeth Eidalaid, a phentref diwydiannol Penrhyndeudraeth. O amgylch yr aber mae bryniau coediog Eryri, sy'n ffurfio cefndir mawreddog golygfeydd hardd o dir is. Yn y rhan ddwyreiniol o'r ACM, mae'r dyffryn yn culhau gan fod yr afon yn llifo i mewn i'r tir. Yma, mae'r Afon Ddwryd wedi cael ei haddasu'n helaeth ac mae'n llifo rhwng ardaloedd o dir pori wedi'i wella, gyda phrif ffyrdd ar y ddwy ochr ar lawr y dyffryn. Fe'i hamgylchynir gan lethrau serth, coediog sy'n rhoi ymdeimlad llawer mwy caeedig ac agos atoch i chi.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.




*Mathau Cymeriad Morlun yn Aber y Ddwryd ac ACM Morfa Harlech. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.*

<b>Symbol 'H'</b>	<b>i3</b>	<b>t2</b>	<b>t7b</b>	<b>t10</b>	<b>t14</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>i6</b>	<b>t5</b>	<b>t8a</b>	<b>t11a</b>	<b>t15</b>
<b>i2</b>	<b>m4a</b>	<b>t7a</b>	<b>t8b</b>	<b>t13a</b>	



## Nodweddion Allweddol

- Sail daeareg o greigiau gwaddodol Cambriaidd, gyda chreigiau Palaeogene ieuengach i'r gorllewin o ffawt Mochras
- Tirffurf gorwedd yn isel yn bennaf, yn cynnwys yr aber eang a'i chorsydd a'r twyni cysylltiedig, gyda Dyffryn y Ddwryd yn culhau wrth iddi lifo i mewn i'r tir. Ynys gyflawn - Ynys Giffan yn nodwedd amlwg yn y sianel yr aber. Crib o dir i'r gogledd o'r sianel hefyd wedi'i gynnwys yn yr ACM hon
- Perthynas agos gyda thirffurf torddwr arwahanol arfordirol Morfa Harlech.
- Ardal rhynglanwol helaeth yng ngheg yr aber, gyda sianel droellog yn rhedeg drwyddi, ac yn parhau i mewn i'r tir. Afon yn llifo trwy geunant creigiog nodedig ger Penrhyndeudraeth cyn i'r dyffryn ehangu eto
- Defnydd tir yn bennaf a wnelo pori cors, gydag ardaloedd o dwyni tywod, coedwig, cwrs golff a pharciau carafannau ym Morfa Harlech. Hefyd, mae peth tir fferm, rhostir, coetir, chwarela ac aneddiadau ar dir uwch
- Cynefinoedd yn cynnwys llaid rhynglanwol helaeth, tywod a morfa heli. Porfeydd gwlyb Hefyd, rhostir arfordirol a thwyni tywod
- Nodweddion tir hanesyddol a diwylliannol yn cynnwys Portmeirion, Castell Harlech, a hen waith ffrwydrol yn y Gwaith Powdwr
- Nodweddion hanesyddol a diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r aber yn cynnwys cyn-warws arfordirol gyda mynediad trwy gyfwng afon at yr Ynys, a phont drestl a thŷ toll ger Gorsaf Llandecwyn
- Mae'r aneddiadau yn cynnwys Penrhyndeudraeth ar ochr ogleddol yr aber, a Harlech ar yr ochr ddeheuol. Pentrefi llai / pentrefannau ar dir uwch
- Gweadau cryf a phatrymau o sianelau afonydd, twyni a chynefinoedd rhynglanwol. Mae amgylchedd deinamig yn newid gyda llanw, y tymhorau a'r tywydd
- Mae bryniau coediog Parc Cenedlaethol Eryri o amgylch yn codi'n serth o lawr y dyffryn ac yn rhan annatod o olygfeydd o fewn yr ACM.
- Golygfeydd o'r morlun yn cael ei gyfyngu gan dwyni tywod ym Morfa Harlech, er bod (ACM 19) Moel-y-Gest yn nodwedd amlwg mewn golygfeydd tua'r môr. Mae Bae Tremadog yn weladwy o Gob Porthmadog a Phenrhyn Portmeirion
- Mae'r golygfeydd mewndirol yn hardd, gyda chyfansoddiadau deniadol o lawr y dyffryn a'r bryniau o gwmpas. Ynys Giffan yn ffurfio nodwedd yn yr aber ganol



*Aber y Ddwryd o'r awyr, yn dangos y sianel yn troelli, fflatiau tywod, corsydd halen ac Ynys Giffan Delwedd © Rohan Holt.*



*Afon Ddwryd yn rhan uchaf yr Aber. Delwedd © Fiona Fyfe*



*Morfa Harlech, yn dangos y twyni tywod, y cwrs golff, meysydd carafannau (canol) a Chastell Harlech (dde). Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol & ysbrydol
Fforio	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Ecodwristiaeth	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Actif				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Amgylchedd deinamig gyda phrosesau aberol, gan gynnwys croniant o fflatiau mwd a halendir. Cynefinoedd rhynglanwol eang a sianeli afon gyda AGA a AoDdGA dynodedig (Morfa Harlech a'r Glaslyn) yn darparu safleoedd bwydo adra a gaeafu pwysig.
- Mae Ynys Giffan, sy'n ynys greigiog o fewn yr aber, sydd yn awr wedi ei gorchuddio gyda phrysgwydd, yn ffurfio nodwedd yng nghanol yr aber.
- Twyni tywod Morfa Harlech (y tu ôl i dirffurf wedi ei unioni gan y torddwr yn parhau i gronni trwy gyfrwng prosesau naturiol, AoDdGA, AGA a Gwarchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer planhigion a thrychfilod prin.
- Gwarchodfa natur rhostir / coedlan yn y Gwaith Powdwr (gwaith ffrwydron gynt).
- AoDdGA Coedlan yng Nghoedydd Dyffryn Ffestiniog (Gogleddol a Choed Llechwedd).

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Mae castell Harlech yn dominyddu ochr y dyffryn a golygfeydd tua'r môr. Wedi ei adeiladu gan Edward I, fe allai wrthsefyll ymosodiad oherwydd y twnnel sy'n ei gysylltu gyda'r môr (a chyflenwadau) wrth draed y clogwyni. Cyn y dyddodi'r gwaddodiad a ffurfiant system twyni Morfa Harlech, yr oedd Harlech yn borth arfordirol, a pan y'i adeiladwyd, yr oedd castell Harlech yn un arfordirol.
- Rhwydwaith o geiau llechi yn ymestyn yn bell i fyny'r afon tuag at Faentwrog (e.e. Cemlyn, Fellingrin, Gelligrin (gyda magasin powdwr) a Chei Newydd.
- Fe wnaeth chwarel lechi Noddfa (tua'r de o Harlech) adeiladu tramffordd ar draws y twyni, o bosib er mwyn hwyluso pethau ar gyfer llongau llwytho ar y traeth. Mae llinell y dramffordd yn dal i fod yn weladwy mewn lluniau o'r awyr.
- Cwrs Golff Dewi Sant ar dwyni Morfa Harlech. Cafodd y corsydd y tu ôl i'r system twyni eu draenio ar gyfer tir ffermio yn yr 19eg ganrif.
- Amlinelliad o gwrs rasio ceffylau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Forfa Harlech yn dal i fod yn weladwy mewn lluniau o'r awyr.
- Cafodd Portmeirion ei adeiladu fel pentref gan Clough William Ellis yn yr 20fed ganrif. Cafodd ei ddefnyddio wedyn ar gyfer ffilmio'r gyfres deledu o'r 1960au 'The Prisoner'. Mae bellach yn Ardal Gadwraeth.
- Wedi ei rannol gynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau Cymreig Hanesyddol (Ardal20: Ardudwy ac 25: Aberglaslyn).
- Yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Tirwedd agored wedi ei fframio gan y brynau sydd o gwmpas (gan gynnwys safle dyrchafedig Castell Harlech uwchben yr aber). Uwchben Pont Briwet mae'r aber yn culhau ac yn troi rhwng brynau creigiog ar lethr wedi eu gorchuddio gyda rhostir a choedlannau. Mae'r olygfa yn arbennig o olygfaol mewn manau, gyda rhyw wedd Ucheldirol iddo.



- Tirwedd gytbwys gyda golygfeydd llunedig o'r ACM a'r bryniau o'i gwmpas. Yn agos at yr arfordir mae'r golygfeydd yn eang, gyda llawr y dyffryn yn ffurfio elfen lorweddol gref yn y golygfeydd.
- Patrymau amrywiol a deinamig, lliwiau a gwead cysylltiedig gyda chynefinoedd rhynglanwol, sianeli afonydd, twyni tywod a rhostir.
- Mae'r dirwedd agored, ei naturioldeb canfyddedig a phresenoldeb afonydd yn rhoi ymdeimlad o dawelwch i rannau o'r ACM. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei leihau yn sgil presenoldeb ffyrdd, rheilffyrdd, aneddiadau a datblygiadau eraill. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn cyfyngu ymdeimlad yr ACM o bellnigrwydd a gwylltineb.
- Cysylltiad gweledol a chorfforol cryf gyda'r bryniau o amgylch sy'n ffurfio gosodiad y dirwedd (y tu allan i'r Ardal Astudiaeth) a'r ACM hon. Mae gosodiad y dirwedd yn cyfrannu tuag at gymeriad yr ACM ac mae'n gwella'r ymdeimlad o dawelwch. Mae'r ACM hefyd yn nodwedd bwysig mewn golygfeydd o'r bryniau sydd o gwmpas, lle mae'n ymddangos yn ei gyd destun arfordirol.

### Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Rhinweddau Arbennig	Prosesau naturiol / newid yn yr ardal	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn
Pwysau datblygu ar ffin anheddiad Harlech, yn enwedig ar y Morfa ac ar lethrau uwchben y dref.	laith Gymraeg							
Gweithgaredd chwarelydda ym Mhenrhyndeudraeth.	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang							
Fe all y bont newydd - Pont Briwet olygu lefelau traffig uwch ar hyd ffordd yr arfordir. Bydd raid i welliannau ffyrdd eraill o fewn yr ACM fod yn ystyriol o gyd destun y dirwedd.	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
Bydd lefelau traffig uwch ar hyd ffordd yr arfordir. Bydd raid i welliannau ffyrdd eraill o fewn yr ACM fod yn ystyriol o gyd destun y dirwedd.	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
Bydd uwchraddio llinellau pŵer a pheilonau yn golygu y bydd yna effaith ar y dirwedd ac aflonyddwch	Treftadaeth ddiwylliannol							
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb							
	Access to land and water and recreation/ enjoyment							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynysoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi							
	Ansawdd y pridd,							

<p>dros y tymor canolog. Fe all datblygiad y tu hwnt i'r ACM fod yn ddidynwyr (tynnu sylw'r llygad) gweledol, y rhai mwyaf amlwg fyddai datblygiadau ar ymyl y grib.</p> <p>Newidiadau i arferion amaethyddol a / neu ddwysedd a all newid patrymau a chynefinoedd sefydledig.</p> <p>Mae pwysau ymwelwyr yn ystod y prif dymor yn gallu creu materion lleol sy'n berthnasol i draffig a llygredd sŵn, yn enwedig pan y'i cyflwynir i'r ardal agos at y lan.</p> <p>Gall newidiadau rheolaeth tir a phwysau ymwelwyr , yn ogystal â phrosesau arfordirol naturiol gael effaith negyddol ar dirffurfiau e.e. croniant twyni tywod ym Morfa Harlech, a chroniant fflatiau mwd a halwyndir o</p>	aer a'r dŵr						
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig				

<p>fewn yr aber. Mae llifogydd ar dir isel hefyd yn rym dros newid, wedi ei waethygu gan godiad yn lefel y môr.</p>	
---	--

### Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
<p>Geometreg arfordirol a thirffurf</p>	<p>Tirffurf sy'n gorwedd yn isel gyda chynfinoedd gwlypdirol arfordirol hynod sensitif, systemau twyni ayyb.</p> <p>Bryniau / cribau sy'n amlwg yn weledol o fewn ac wrth ffiniau aberoedd.</p> <p>Tirffurf llorweddol yn sensitif i gyflwyniad nodweddion fertigol</p>	<p>Ychydig o ryngweledd sydd yna rhwng llawr yr aber a'r môr, oherwydd y twyni tywod sydd rhyngddynt.</p>
<p>Datblygiad presennol</p>	<p>Gwerth hanesyddol a diwylliannol nodweddion, aneddiadau a'u gosodiadau e.e. Harlech (gan gynnwys y castell) a Phortmeirion.</p>	<p>Aneddiadau a ffyrdd presennol.</p> <p>Llinell gwifrennau trydan 400kv, ac yn enwedig y twr pylon sy'n eistedd o fewn yr aber rhyng lanwol. I raddau llai y tyrrau pylon a gwifrennau eraill sy'n weledol yn rhedeg i fyny ochrau'r bryniau.</p>
<p>Y profiad gweledol</p>	<p>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a Gwarchodfa Natur Morfa Harlech yn dderbynyddion sensitif.</p> <p>Tirwedd yn cael ei gwerthfawrogi o afonydd, ffyrdd, rheilffordd a safleoedd cadwraeth sy'n hygyrch i'r cyhoedd.</p> <p>Ansawdd golygfaol uchel iawn gyda chefnlen olygfaol drawiadol.</p> <p>Gosodiad a'r bryniau cysylltiedig â'r nenlinellau yn cyfrannu tuag at gymeriad a rhinweddau gweledol yr ACM.</p> <p>ACM hefyd yn cael ei werthfawrogi</p>	<p>Mae defnydd hamddena ( e.e. cwrs golff; meysydd carafannau ) yn dylanwadu ar gymeriad rhannau o'r ACM o gwmpas Morfa Harlech.</p>



	mewn golygfeydd o'r bryniau o amgylch.	
Tawelwch	Lefelau uwch o dawelwch yn rhan ganolig o'r ACM, draw oddi wrth ffyrdd ac aneddiadau.	Effeithiau datblygiad presennol, ffyrdd a threnau achlysurol.  Cyrchfan wyliau boblogaidd, gyda chynnydd tymhorol yn nifer yr ymwelwyr.

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 22


### MOCHRAS I FAIRBOURNE A SARN BADRIG

ACTau Cydrannol (Eryri): Morfa Dyffryn; Arfordir Arduwy

ACTau Cydrannol (Gwynedd): Abermaw

#### Lleoliad a Chyd destun

Mae'r ACM llinellol hon wedi ei lleoli ar arfordir gorllewinol Eryri, ac mae'n cynnwys y tir arfordirol rhwng Harlech yn y gogledd a'r Friog / Fairbourne yn y de, gan gynnwys tref Abermaw. Mae'n ymestyn alldraeth gan ddilyn llinell y sarn rhwng alldraeth ACM 33: Bae Tremadog Bay ac ACM 34: Bae Abermaw gydag ACM 36 : Bae Ceredigion sy'n gorwedd y tu hwnt. Ar y tir tuag at y gogledd mae ACM 19: Criccieth hyd at Fochras, a tua'r de mae ACM 24: Y Friog / Fairbourne hyd at Tonfannau. ACM 23 : Mae Aber y Fawddach yn ymuno ar y ffin de ddwyreiniol.




*Yr olygfa yn edrych tuag at Abermaw o gyfeiriad Morfa Bychan, yn dangos y twyni tywod, y traeth tywodlyd a'r parciau / meysydd carafannau niferus ar y gwastadedd arfordirol. Yn fewndirol, mae'r bryniau yn codi yn gymharol serth i ffurfio'r gosodiad mewndirol. Delwedd ©Fiona Fyfe*

#### Crynodeb Disgrifiad

Mae'r ACM hon yn cynnwys gwastadedd arfordirol hur a chul. Mae'r tirffurf wedi ffurfio trwy gyfrwng dyddodiad arfordirol, ac mae'n cynnwys traethau tywodlyd (ac mae'n cynnwys nifer o gregyn) ac mae ardaloedd eang o dwyni tywod yn gefndir i hynny. Mae'r fan hon yn gyrchfan wyliau boblogaidd, ac mae'r ACM yn cynnwys nifer o feysydd carafannau a gwersyllfaoedd pebyll, a'r isadeiledd cysylltiedig â hynny. Mae rhan ddeheuol yr ACM yn cynnwys cyrchfannau glan mor Fictoraidd Abermaw a'r Friog / Fairbourne. Mae rheilffordd a ffordd yn rhedeg gyfochrog gyda'r arfordir, gan bwysleisio ffurf linellol y dirwedd. Mae bryniau yn codi yn fewndirol o'r ACM i ffurfio ei osodiad tua'r tir. Mae Sarn Badrig (credir ei fod yn nodwedd rewlifol) yn ymestyn i mewn i'r môr, ac mae'n weladwy ar lanw isel fel llinell ar wyneb y môr.

# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



Mathau Cymeriad Morlun yn ACM Mochras hyd Y Friog / Fairbourne a Sarn Badrig. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'H'</b>	<b>m2a</b>	<b>m4a</b>	<b>m7</b>	<b>t7c</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>m3a</b>	<b>m4b</b>	<b>t2</b>	<b>t8b</b>
<b>Symbol 'Seren'</b>	<b>m3b</b>	<b>m5</b>	<b>t7a</b>	<b>t10</b>
<b>i2</b>	<b>m3d</b>	<b>m6</b>	<b>t7b</b>	<b>t13a</b>



## Nodweddion Allweddol

- Mae daeareg danategol y gwastadedd arfordirol yn cynnwys Ffawlt Mochras, a statigraffi hir wedi ei or osod gyda finiy'r tenau o ddyddodion Pleistocene. Tua'r de o Lanaber, mae creigiau Cyn oes cambrian yn ymwthio allan o'r wyneb, gan greu brynochrog serth yn fewndirol.
- Mae'r nodweddion rhewlifol yn cynnwys dyddodion cerrig clai is law Morfa Dyffryn, a Sarn Badrig, a chredir ei fod yn farian canolig rhewlifol.
- Mae'r topograffi yn cynnwys gwastadedd arfordirol wedi ei ffurfio gan ddyddodiad ar ôl y rhewlifant a chodiad yn lefel y môr. Yn fewndirol, mae'r tir yn codi tuag at odre bryniau gorllewinol Eryri.
- Mae prosesai drifftio llanwol a hirdraethol yn golygu mae'r canlyniad yw tiffurf torddwr sy'n cynnwys traeth tywodlyd hir gyda thwyni yn gefnlen iddo a dyddodiad niferoedd arwyddocaol o gregyn. Mae'r Artro, Ysgethin a'r Fawddach yn llifo i mewn i'r môr yn yr ACM hon.
- Defnydd yn cael ei ddominyddu gan hamddena a thwristiaeth (cyrchfan, meysydd carafannau, gwersyllfaoedd, hwylio hamddena ayyb), yn ogystal â ffermio, twyni, a maes awyr.
- Cynefinoedd yn cynnwys systemau twyni eang, corydd pori, traethau, ac ardaloedd rhynglanwol.
- Mae'r nodweddion ardraeth hanesyddol a diwylliannol yn cynnwys maes awyr Llanbedr, eglwys Llandanwg, cyrchfan glan mor Fictoriaidd Abermaw, a rheilffordd arfordir Cambrian i Bwllheli.
- Mae'r nodweddion alldraeth hanesyddol a diwylliannol yn cynnwys harbwr Abermaw a'r diwydiannau sy'n gysylltiedig yn hanesyddol gydag adeiladu llongau a physgota. Cwch (fferi) yn ystod yr haf o Abermaw i Fairbourne.
- Nifer o bentrefi bach wedi eu lleoli ar hyd ffordd arfordirol yr A496. Mae twristiaeth yn ddylanwad cryf ar ddatblygiad, gan gynnwys Abermaw, ac mae nifer o feysydd carafannau a gwersyllfaoedd ar dir arfordirol gwastad.
- Tirwedd linellol, gyda thraeth, ffordd a rheilffordd yn ffurfio elfennau gogledd de amlwg. Lliwiau golau a phatrymau rheolaidd y meysydd carafannau niferus yn gwrthgyferbynnu gyda'r twyni a'r ffermdir o amgylch.
- Troedfryniau Eryri yn ffurfio gosodiad tirwedd mewn golygfeydd o'r tir a'r môr.
- Mae Bae Tremadog yn ffurfio gosodiad morluniol eang, gyda bryniau penrhyn Llyn yn weladwy tua'r gogledd. Goleudai yn cyfrannu tuag at y morlun yn y nos.



*Golygfa ddyrchafedig o'r ACM o'r de. Mae Mochras yn ymestyn i'r môr ar y chwith. Mae Abermaw ar y dde. Delwedd ©John Briggs*



*System dwyni Morfa Bychan gyda bryniau mewndirol yn y cefndir. Delwedd© Fiona Fyfe*



*Sarn Badrig yn weladwy fel llinell sy'n ymyrryd ar wyneb y môr. Delwedd© Rohan Holt*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd :** Cysgod trwm = eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefydd & ysbrydol
Traeth	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Chwaraeon dwr	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Actif				
Fforio				
Ecodwristiaeth				

## Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Mae Bae Tremadog yn ACA morol dynodedig am gyfer ei amgylchedd morol a'i gynefinoedd.
- Mae'r dyfrdwl arolwg daearegol ar Fferm Mochras yn treiddio llenwad gwaddodol Basn Bae Ceredigion. Mae hyn wedi datgelu y system ffawt (gan gynnwys Ffawt Mochras) sy'n ymwthio Basn Bae Ceredigion yn erbyn Massif Palalosöig Isaf Cymru. Mae hefyd wedi treiddio stratigraffeg, gan gynnwys dyddodion Mesosöig a Thrydyddol, a'r Liassic mwyaf trwchus sy'n hysbys (sef y Jwrasig Isaf) olyniaethol yn Ynysoedd Prydain.
- Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol (a adwaenir fel RIGS) dynodedig yn Rhan Arfordirol Friog, a rhan o SoDdGA Glannau Tonfannau ym mhen deheuol yr ACM
- Mae'r dyddodion mawn ar y blaen traeth yn Llanaber yn cadarnhau ac yn arddangos y stori o ran cynnydd yn lefel y môr a newid arfordirol
- Mae prosesau arfordirol gweithredol, gan gynnwys drifft y glannau (yn bennaf tua'r gogledd, ond hefyd tuag at aber y Fawddach) yn creu tirlfurf toroddwr ymochrol Morfa Dyffryn, ffurfio twyni a thraeth (ar draeth Abermaw a Ro Wen) a dyddodiad cregyn. Mae erydiad yn digwydd ar bentir y Fairbourne a Mochras
- Twyni a phorfa gors Morfa Dyffryn yn AGA ac AoDdGA dynodedig. System dwyni Morfa Dyffryn hefyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol, ac yma mae'r gyfran uchaf o dywod noeth (10%) o unrhyw systemau twyni yng Nghymru. Mae Bar Abermaw a'r banciau tywod yn rhan o AoDdGA Aber y Fawddach.
- Mae Sarn Badrig yn riff 24km o hyd o fowlder, cerrig llyfn a gwaddodion bras ac fe greidir mai marian canolog rhewlifol ydyw. Mae llawer o'r riff yn rhynglanwol, ac mae'n darparu cynefin swbstrad cadarn mewn ardal sydd fel arall yn bennaf yn waddod morol. Mae'r Sarn yn effeithio ar ynni tonnau a'u dosbarthiad ac felly maent hefyd yn debygol o effeithio ar batrymau gwaddodol. Mae'r ardal o fewn Ardal Arbennig a Ddiogelir(AADd) Pen Llyn a'r Sarnau.

## Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Mae Morfa Dyffryn yn bwysig yn archeolegol yn sgil y deunydd diwylliannol Mesolithig sy'n cael eu datgelu gan y llanw.
- Mae Abermaw yn hen dref gyfyng ar ochrau is y mynyddoedd, gyda strydoedd cul o risiau a thai sydd ar bennau ei gilydd bron iawn. Mae datblygiad diweddarach o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar dir is, mwy gwastad y tu ôl i'r traeth a'r promenâd sydd wedi cael ei adeiladu'n artiffisial. Institiwt Morwyr nodedig o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg gydag Ystafell Ddarllen a neuadd biliards.
- Yr oedd Harbwr Abermaw yn cael ei ddefnyddio yn hanesyddol ar gyfer pysgota ac adeiladu llongau, ac mae'r harbwr wedi ei farcio yn draddodiadol gyda bwiau yn hytrach na goleuadau. Byddai llongau yn angori y tu allan i'r bar er mwyn aros am gychod peilot a oedd wedi cael eu hangori i'r bwi tanddwr. Yr oedd allforion o'r harbwr yn cynnwys coed, copr, zinc, a llechi; yr oedd mewnforion yn cynnwys glo, yd, calchfaen a chyflenwadau cyffredinol.
- Eglwys arfordirol ganoloesol St Tanwg i'r de o Landanwg.
- Mannau glanio bach yn gwasanaethu cymunedau fel Talybont a Llanaber. Adroddiadau lleol ynghylch llongau yn cael eu dryllio pan oeddynt yn sownd ar y traeth yn sgil newid sydyn yn y tywydd.
- Y llinell o folardiau gwrth danciau 692 yn Fairbourne (Heneb Hynafol) yw'r llinell barhaus sydd wedi para hiraf o'r amddiffynfeydd hyn o'r ail ryfel byd yn y DG. Mae'r caeraru tanddaearol wedi eu cyfod i'r llinell o flociau gwrth danciau.
- Yr oedd maes awyr Llanbedr o bwys strategol yn ystod y Rhyfel Oer oherwydd hyd y rhedfa (sydd wedi ei rannol guddio o dan y twyni er mwyn cuddio rhag awyrennau'r gelyn neu'r lloerennau).
- Wedi ei rannol gynnwys yng Nghofrestr Tirweddau Hanesyddol Cymru (Ardal 20: Ardudwy ac Ardal 32: y Fawddach).
- Mae chwedloniaeth o gwmpas nodwedd anghyffredin Sarn Badrig. Dywedir mai gweddillion deic neu argae sydd yma a oedd unwaith yn gwarchod y deyrnas a oedd yn cynnwys bae Ceredigion a adnabuwyd fel Cantre'r Gwaelod, rhag y môr.
- Cysylltir nifer o longdrylliadau gyda Sarn Badrig: creigiau bas, afonydd llanwol sy'n gwrthdaro a'i gilydd, tros ddisgyniadau a moroedd yn torri'n galed gan greu amodau twyllodrus. Marciau arwain traddodiadol wedi eu gosod er mwyn cynorthwyo morwyr i osgoi y riff oedd Dwyrain St Tudwal, Goleudy Enlli, trwyn Pencilan Head, Carn Modryn, Castell Harlech a Bwi y Sarn. Heddiw mae pen y sarn yn cael ei farcio gan Farc Cardianl sy'n fflachio.
- Mae'r ACM yn cynnwys nifer o weddau o ran datblygiad twristiaeth : Abermaw a Fairbourne Fictoriaidd gyda gwestai ac isadeiledd twristaidd eraill (esplanade / rhodfa, rheilffordd gul ayyb) sydd wedi digwydd o ganlyniad i adeiladu rheilffordd Arfordir y Cambrian. Datblygiad diweddarach meysydd carafanio a gweryslla ar hyd yr arfordir gyda'r siopau cysylltiedig, arcedau ayyb. Mae Gwersyll Mochras (yn ystod yr haf yn unig) yn un o'r rhai mwyaf yn Ewrop. Mae Abermaw wedi cael ei ddynodi'n Ardal Gadwraeth.
- Mae Harbwr Abermaw yn boblogaidd am ei weithgareddau hamddena yn seiliedig ar ddŵr, gan gynnwys man cychwyn Ras Hwyllo'r Tri Chopa / Three Peaks Yacht Race.
- O fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

## Rhinweddau Canfyddiadol

- Patrymau caeau ar raddfa fach yn cyferbynnu â graddfa fwy y tirffurf, traethau a'r synnwyr ei fod yn agored i'r môr. Golygfeydd yn cael eu dominyddu gan dopograffi gwastad yr ACM
- Defnyddiau tir amrywiol, gyda thir a môr yn brysurach yn yr haf nag yn y gaeaf oherwydd poblogrwydd fel cyrchfan i dwristiaid
- Mae llawer o batrymau a gwadau gwahanol, ee waliau caeau cobl syth, twyni tywod, tonnau, traethau cregyn a chorsydd pori. Patrymau rheolaidd a lliwiau llachar o garafanau a phebyll yn cyferbynnu â'r amgylchedd naturiol
- Ar y traeth ei hun, yn edrych allan i'r môr, mae yna ymdeimlad o wylltineb, yn enwedig mewn tywydd gorllewinol. Yn fewndirol, mae dylanwadau cryf datblygiad twristiaeth a niferoedd pobl
- Bryniau mewndirol (y tu allan i ffin yr Ardal Astudiaeth) yn ffurfio gosodiad a chefnlen, ac yn cynnwys golygfeydd tuag at y tir. O'r môr, mae'r bryniau hyn yn tra-arglwyddiaethu'r golygfeydd gyda'r gwastadedd arfordirol yn llai gweladwy
- Mae'r Marciau Cardinal yn fflachio ar ddiwedd y sarnau yn rhan o'r morlun yn y nos.



## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth aeth Amddiffyn	
<p>Defnydd hamdden trymach mewn ardaloedd sensitif iawn yn amgylcheddol sy'n arwain at ddiraddio (e.e. twyni a morlyn Llandanwg).</p> <p>Pwysau datblygu, yn enwedig o ystyried y patrwm presennol o ddatblygiad rhubanog (oherwydd cyfyngiadau daearyddol) yn yr ACM. Byddai unrhyw ddatblygiad newydd angen cael ei leoli yn ofalus, ac fe ddylai osgoi cael effaith ar ymddangosiad llorweddol y tirffurf, a'r ardaloedd heb eu datblygu o'r ACM.</p> <p>Datblygiad maes awyr Llanbedr yn y dyfodol yn cael effaith ddichonol ar dawelwch a rhinweddau gweledol.</p> <p>Datblygiad y tu allan i'r ACM, yn nodedig ar grib linellau, a all greu didynnwyr gweledol.</p> <p>Newidiadau i arferion amaethyddol / dwysedd a all newid patrymau caeau a chynefinoedd.</p> <p>Prosesau gwaddodol naturiol, gan gynnwys lluwch ddrifftio tua'r gogledd i fyny'r arfordir a thuag at aber y Fawddach, erydiad yn Fairbourne phentir Mochras, a chronni ar Draeth Abermaw a Ro wen. Mae llifogydd yn debygol o ddigwydd a chynyddu ar dir isel oherwydd cynnydd yn lefel y môr.</p> <p>Gosodiadau tirffurf arfordirol yn cael ei fygwth yn lleol yn sgil pwysau ymwelwyr, pwysau datblygiad a newidiadau mewn rheolaeth tir (e.e. tafod yr Ysgethin).</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>							
	laith Gymraeg							
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang						?	
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
	Treftadaeth ddiwylliannol							
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb						?	
	Mynediad at dir a dŵr a hamddena / mwynhad							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynysoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi							
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr							
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig					

## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a	Arfordir agored gyda golygfeydd hir tuag at y môr dros Fae Abermaw :	

thirffurf	<p>datblygiad yn weladwy o bosib oddi ar y tir a'r môr ill dau.</p> <p>Tir isel a thirffurf llorweddol yn sensitif i gyflwyniad nodweddion fertigol</p> <p>Cynefinoedd arfordirol sensitif ar draethau, systemau twyni ac ardaloedd o wlypdir.</p>	
Datblygiad presennol		Datblygiad presennol , yn enwedig ar ffurf meysydd carafannau, gweryllfaoedd a strwythurau maes awyr.
Y profiad gweledol	<p>ACM i'w weld yn erbyn cefnlen olygfaol bryniau porfaol a rhostir arfordirol.</p> <p>Defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a Gwarchodfa Natur Morfa Bychan yn dderbynyddion sensitif.</p> <p>Mae'r gosodiad a'r bryniau cysylltiedig â'r nenlinellau yn cyfrannu at gymeriad rhinweddau gweledol yr ACM.</p>	Crynodeb o feysydd carafannau a'r isadeiledd cysylltiedig yn creu cymeriad hamddena / gwyliau mewn rhannau o'r ACM.
Tawelwch	Lefelau uwch o dawelwch yn gysylltiedig gyda thwyni Morfa Bychan.	<p>Effeithiau y prif ffyrdd a threnau achlysurol.</p> <p>Cyrchfan wyliau brysur, gyda chynnydd tymhorol yn niferoedd yr ymwelwyr, presenoldeb pebyll ar wersyllfaoedd pebyll, ceir ayyb.</p>

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 23:


### ABER Y FAWDDACH

ACTau Cydrannol (Eryri): Aber y Fawddach

ACTau Cydrannol (Gwynedd): Abermaw

#### Lleoliad a Chyd destun

Lleolir yr ACM hon yn rhan ganolig arfordir gorllewinol Eryri, ac mae'n cynnwys aber yr Afon Mawddach o'i cheg i ben ei llanw yn agos at Ddolgellau. Mae wedi ei leoli i'r dwyrain (yn fewndirol) o ACM 22: Mochras hyd at y Friog a Sarn Badrig.



*Aber y Fawddach o'r Friog ar lanw isel, yn dangos mannau rhynglanwol eang, a'r bryniau o amgylch.*

*Delwedd©Fiona Fyfe*



#### **Crynodeb Disgrifiad**

Mae llawr dyffryn aber yr Afon Fawddach wedi ei amgylchynu gan fryniau coediog uchel, gan greu cyfansoddiadau gweledol gwych sy'n cael eu cyfoethogi gan y dŵr yn newid yn gyson, golau, lliwiau a gweadau ar lawr y dyffryn pan fo'r llanw yn llifo ac ar drai. Mae'r bont reilffordd trestl hanesyddol ar draws ceg yr aber yn dirnod amlwg, ac mae hefyd yn lleoliad rhagorol i werthfawrogi golygfeydd. Uwchben y bont doll yn Llyn Penmaen, mae'r afon yn ymddolennu rhwng ardaloedd o dir pori wedi'i adfer.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



© Crown Copyright and database right 2013.  
Ordnance Survey 100019741

Mathau Cymeriad Morlun yn ACM Aber y Fawddach. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'H'</b>	<b>i6</b>	<b>t5</b>	<b>t10</b>
<b>i2</b>	<b>m4a</b>	<b>t7a</b>	<b>t13a</b>
<b>i3</b>	<b>m10</b>	<b>t8a</b>	



## Nodweddion Allweddol

- Sail daeareg o greigiau Cambriaidd gwaddodol Canol-Uchaf gydag ymwithiadau dolerit lleol.
- Tirffurf yn cynnwys, llawr gwastad y dyffryn llydan sy'n culhau wrth iddo fynd i mewn i'r tir. Bryniau serth yn codi ar y naill ochr a'r llall.
- Sianel afon y Fawddach yn ymddolennu ar draws llawr y dyffryn. Ardal rhynglanwol yn ymestyn ar draws lled llawn y dyffryn wrth y geg, ond yn fewndirol, sianel yr afon wedi ei amlinellu gydag ardaloedd o dir pori wedi'i adfer.
- Y defnydd a wneir o'r tir bron yn gyfan gwbl ar gyfer pori a chynefinoedd rhynglanwol, gyda rhywfaint o goetir a pharcdir ar hyd ymylon y dyffryn.
- Cynefinoedd rhynglanwol helaeth, gan gynnwys morfeydd heli, mwd a thywod. Hefyd porfeydd gwlyb a choetir.
- Fferi Haf ar draws ceg yr aber o'r Bermo i'r Friog.
- Pont reilffordd trestl pren ar draws ceg yr aber yn dirnod allweddol o fewn yr ACM.
- Poblogaidd gyda beirdd ac artistiaid rhamantaidd, gan gynnwys Wordsworth a John Varley.
- Setliad /anheddiad o fewn yr ACM yn gyfyngedig i ffermydd achlysurol ac ystadau bach ar y cyrion, er mae yna olygfeydd o Abermaw a'r Friog / Fairbourne.
- Golygfeydd ysblennydd yn fframio ac wedi eu hamgáu gan fryniau cyfagos, gan gynnwys Cadair Idris. Ar lanw isel, mae'r aber yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o liwiau a gweadau. Ar lanw uchel, gall ymddangos yn debyg i lyn.
- Gosodiad y dirwedd yn elfen hanfodol o ran golygfeydd, ac yn cael eu gweld ar y cyd bob amser gyda'r ACM ei hun.
- Golygfeydd dros yr aber a'r môr o fryniau cyfagos yn cael ei werthfawrogi ar deithiau cerdded panorama Fictoraidd.



*Golygfa tua'r tir o Bont y Bermo ar lanw uchel. Mae'r aber yn edrych yn debyg i lyn. Delwedd © Fiona Fyfe*



*Pont reilffordd trestl dros Aber y Fawddach. Delwedd © Fiona Fyfe*



*Afon Mawddach ymhellach yn fewndirol, yn dangos dylanwadau parcdir ar ei osodiad. Delwedd ©Robin Lines*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd :** Cysgod trwm = eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefydd & ysbrydol
Fforio	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Ecodwristiaeth	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Actif				

### Dylanwadau Naturiol a Safleoedd

- Prosesau aberol actif a chynefinoedd rhynglanwol helaeth. Mae aber Mawddach wedi cronni yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau cysylltiedig gyda'r system banc dwr isel y delta trai
- Mae'r rhan fwyaf o'r ACM (gan gynnwys yr holl ardaloedd rhynglanwol) y SoDdGA dynodedig (Aber y Fawddach) ac Ardal Cadwraeth Arbennig a ddynodwyd am ei werth cadwraeth.
- Mae mynyddoedd Eryri (gan gynnwys y Rhinogydd tua'r gogledd a Chadair Idris tua'r de) yn creu gosodiad mewndirol dramatig.

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Pont rheilffordd o adeiladwaith trestl pren gydag adran siglen haearn ac yn un o'r rhai diwethaf i oroesi ym Mhrydain. Mae'n garreg filltir allweddol o fewn yr ACM.
- Coes-faen (tŷ Gothig Fictoraidd a thwr cloc) ar y traeth gogleddol yn agos at y bont ac mae'n dirnod mewn golygfeydd o'r bont. Mae tai Fictoraidd eraill wedi eu lleoli ar hyd glan yr Aber, gyda thirweddau / gerddi dylunedig yn arwain i lawr at y dŵr, a gyda thai cychod fel elfennau o'u dyluniad. Mae'r preswyl fannau hyn, y gerddi a'r tai cychod yn fwy gweladwy o'r dŵr nac ydynt o'r ffordd.
- Llwybrau trafniadaeth yn cynnwys ffyrdd ar hyd ymylon llawr y dyffryn, a'r rheilffordd yn rhedeg o'r gogledd-dde ar draws yr aber. Yr hen reilffordd ar hyd y dyffryn i Ddolgellau yw'r Llwybr Mawddach erbyn hyn, sy'n cysylltu â gorsaf reilffordd bresennol ym Morfa Mawddach.
- Wedi ei gynnwys yn rhannol ar y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol Cymru (Ardal 32: Mawddach).
- Diwydiant adeiladu llongau o adeg Cynnar yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg yn Llyn Penmaen.
- Safle cloddfa aur hanesyddol ym Montddu.
- Y rhan fwyaf o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Golygfeydd yn fawr o ran maint, ond wedi'u hamgáu gan fryniau cyfagos. Sianeli tirffurf mewn golygfeydd mewndirol neu tua'r môr.
- Cyfansoddiadau cydweddol o ran dŵr, coetiroedd a bryniau, sy'n boblogaidd gydag artistiaid a beirdd Rhamantaidd am eu nodweddion golygfaol / pictiwrésg, a'r ddrama ysblennydd o'r golygfeydd.
- Patrymau cryf ac amrywiol a gweadau o amgylcheddau rhynglanwol yn rhoi ymdeimlad mwy arfordirol i'r ACM ar lanw isel. Ar lanw uchel, dŵr yn ymestyn o lan i lan, gan roi ymddangosiad fel llyn iddo.
- Tirwedd unedig, gyda chefnidir mynyddig ac ymdeimlad cryf o naturioldeb canfyddedig. O fewn yr aber ceir ymdeimlad o unigedd a llonyddwch, ond mae hyn yn lleihau yn agos at y ffyrdd o amgylch ymylon yr ACM.



- Lleoliad mawreddog tuag at fynyddoedd Eryri yn ychwanegu at raddfa a mawredd yr ACM, ac yn rhan annatod o'r cymeriad a'r ymdeimlad o le. Yn wahanol i lawr yr aber, gall y bryniau hyn gael eu gweld o'r môr.
- Mewn golygfeydd o fryniau cyfagos (gan gynnwys yr 'Panorama Walk' o'r Oes Fictoraidd ger Abermaw), gall yr ACM gael ei gweld yn ei gyd-destun arfordirol.

### Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Prosesau naturiol /	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol -	Ynni neu fwynau	Pwysau datblygu /	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth	
<p>Pwysau datblygu, (yn enwedig ar gribau tu hwnt i ffin yr ACM) a allai amharu ar y golygfeydd a nodweddion arbennig yr ACM.</p> <p>Newidiadau i blanhigfeydd coedwigaeth ymhellach i fyny'r aber tuag at Arthog. Byddai newidiadau mewn rheolaeth tir parc o amgylch yr aber hefyd yn effeithio ar olygfeydd.</p> <p>Mae nifer yr ymwelwyr yn arwain at bwysau cynyddol am welliannau seilwaith. Byddai angen lleoli gwelliannau o'r fath yn ofalus a'u hystyried, yn enwedig o gyfeiriad Abermaw o'r dwyrain (gan gynnwys y bont droed).</p> <p>Gall defnydd tymhorol o gychod pŵer gael effaith negyddol ar lonyddwch.</p> <p>Prosesau naturiol ail-gronni o fewn yr aber, gyda newidiadau cysylltiedig i fanciau tywod wrth ei cheg. Efallai y byddai siltio yn newid ymddangosiad llawr yr aber ar lanw isel.</p> <p>Risg bosibl o lifogydd (yn cael ei waethygu yn sgil newid yn yr hinsawdd) ger ceg yr aber a hefyd ymhellach i fyny'r afon ger Dolgellau.</p>	<p><b>Rhinweddau Arbennig</b></p>							
	laith Gymraeg							
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang							
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
	Treftadaeth ddiwylliannol							
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb							
	Mynediad i dir a dŵr a hamdden / mwynhad							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynysoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi							
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr							
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig					

## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	Tirffurf sy'n gorwedd yn isel gyda chynefinoedd gwlyptir arfordirol sensitif.	Ychydig o ryngweledd â'r môr sydd yna o lawr yr aber, o ganlyniad i ymyrraeth y twyni tywod.
Datblygiad presennol	Ychydig iawn o ddatblygiad adeiledig presennol o fewn yr ACM, gan arwain at gymeriad heb ei ddatblygu.	Golygfeydd o'r datblygiad presennol yn Abermaw a'r Friog (ACM22) i'w weld o orllewin yr ACM
Y profiad gweledol	<p>Ansawdd golygfaol uchel iawn gyda chymeriad mynyddig a golygfeydd ysblennydd.</p> <p>Mae defnyddwyr llwybr arfordir Cymru, Gwarchodfa Natur a Llwybr Mawddach yn dderbynyddion sensitif.</p> <p>Mae'r ACM yn amlwg iawn mewn golygfeydd o'r bryniau cyfagos (gan gynnwys Cerdded Panorama) yn ogystal ag o afonydd, ffyrdd a rheilffyrdd.</p> <p>Pont trestl yn dirnod allweddol.</p>	
Tawelwch	Lefelau uchel o dawelwch yn bodoli'n barod, yn enwedig draw oddi wrth y prif ffyrdd.	Traffig ffordd ar y ffyrdd ymylol (er yn aml yn cael eu sgrinio) ac ambell i drên ar draws yr aber. Niferoedd uchel o ymwelwyr yn ystod yr haf yn effeithio ar lonyddwch.


## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 24:

### FAIRBOURNE I DONFANNAU

ACTau Cydrannol (Eryri): Cadair Idris

#### Lleoliad a Chyd destun

Mae'r ACM cul yma wedi ei leoli ar arfordir gorllewinol Eryri, ac yn rhedeg o'r gogledd i'r de rhwng Fairbourne a Tonfanau. Mae'n cynnwys traeth a gwastadedd arfordirol cul, ac yn cael ei gefnogi gan fryniau serth i mewn i'r tir. ACM 34: Bae Abermaw yn gorwedd tuag at y môr, gyda ACM 22: Mochras i Fairbourne a Sarn Badrig i'r gogledd, a'r ACM 25: Tywyn a Sarn-y-bwch yn parhau ar hyd yr arfordir i'r de.



*Mae caeau ar lethr wedi gyda waliau sychion ar hyd yr ymylon ar hyd y llain gul o dir rhwng y môr a'r bryniau serth i mewn i'r tir. Mae ffordd yr arfordir, sef yr A493 ar ochr chwith y llun, a'r llinell rheilffordd ar y dde. Mae Moel Llanfendigaid Bryngaer yn y pellter. Delwedd © Fiona Fyfe*


#### Crynodeb Disgrifiad

Mae hwn yn ACM eithriadol o gul gyda gwedd garw sy'n cynnwys traethlin creigiog, traeth cerrig a'r tir ar lethr serth sy'n codi i fyny bron yn union y tu ôl iddo. Mewn manau, mae'r llain arfordirol mor gul fel bod ffordd yr arfordir a'r rheilffordd wedi cael eu torri i mewn i'r llethr. Mae caeau serth ar ochr y bryn uwchben yr arfordir yn cael eu rhannu gan batrwm rheolaidd o waliau cerrig, ac mae'r fryngaer Oes Haearn arfordirol ym Foel Llanfendigaid yn nodwedd amlwg.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



Mathau Cymeriad Morlun yn ACM Fairbourne at Tonfanau. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

Symbol 'O'	i5	m9	t7b
i2	m3a	t5	t7c
i4	m4a	t7a	t13a

## Nodweddion Allweddol

- Daeareg sylfaenol o greigiau gwaddodol eithriadol o galed o oedran oes Cambrian Canol ac Uchaf.
- Clogwyni serth yn disgyn i draeth cul, caregog. O amgylch Llwyngwrl, mae llifwaddod a adneuwyd gan Afon Gwrl wedi creu gwastadedd arfordirol ehangach.
- Mae'r môr yn taro'r clogwyni sy'n wynebu'r gorllewin ac yn creu chwistrelliadau dramatig a thonnau chwilfriwiog, ac yn achosi i gribau ffurfio ar draethau crynion (cerrig).
- Mae'r ACM yn goridor trafndiaeth (ffyrdd a rheilffyrdd), gyda band cul o dir fferm ar lethr arfordirol, a rhostir arfordirol ar y llethrau mwy serth. Mae ardal fechan o dir mwy gwastad yn cynnwys tir fferm a maes carafannau. Fodd bynnag, mae mynediad i'r arfordir yn gyfyngedig, gyda llwybr arfordirol yn dargyfeirio i mewn i'r tir.
- Traeth creigiog a chynefinoedd rhynglanwol ar hyd y traethlin, a chynefinoedd rhostir arfordirol (rhedyn, eithin a glaswelltir).
- Bryngaer / clostir cyn hanesyddol a nodwyd yn ddiweddar ar ben y bryn yn Foel Llanfendigaid.
- Ffordd arfordirol a rheilffordd Arfordir y Cambrian yn pasio drwy'r ardal hon.
- Anheddiad wedi ei gyfyngu i bentref Llwyngwrl a pharc carafannau mawr gerllaw mewn ardal fflat i'r gogledd o'r ACM.
- Mae hon yn ACM llinellol gryf, wedi ei chyfyngu yn fewndirol gan fryniau serth, ond gyda golygfeydd agored allan i'r môr. Gweadau a lliwiau o fôr, traeth, creigiau, waliau caeau a rhostir arfordirol.
- Bryniau serth ar yr ochr tua'r tir (wedi eu gorchuddio gyda chymysgedd o rostir arfordirol a thir fferm afreolaidd) yn ffurfio lleoliad mewndirol ac yn amlwg mewn golygfeydd o'r môr.
- Morlun agored a noeth. Bryniau o Benrhyn Llŷn yn weladwy i'r gogledd, ar draws ehangder agored Bae Abermaw.



*Yng ngogledd yr ACM, mae'r clogwyni mor serth fel bod y ffordd a'r rheilffordd wedi cael eu torri i mewn iddynt. Delwedd © Fiona Fyfe*



*Traeth cobl, maes carafannau ar wastadedd arfordirol cul, a bryniau ffermio y tu ôl. Delwedd © Fiona Fyfe*



*Rhostir arfordirol ym Mryngaer Moel Llanfendigaid. Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd :** Cysgod trwm = eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, hamddena & thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefydd & ysbrydol
Ecodwristiaeth	Ymlacio	Natural	Informal	Spiritual
Fforio	Ymarfer	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Traeth				

## Dylanwadau Naturiol a Safleoedd

- Prosesau traethlin parhaus o erydiad clogwyni a ffurfio traethau cerrig. Traethlin creigiog ac ACA a SoDdGA dynodedig (Glannau Tonfannau hyd y Friog) oherwydd eu daeareg strwythurol, nodweddion mwynolegol, a chynefinoedd rhynglanwol cyfoethog).
- Bae Tremadog / Abermaw hefyd wedi eu dynodi fel AGA alldraeth am ei amgylchedd morol. Mamaliaid morol yn cynnwys dyfrfeirch (dolffiniaid) a morloi.
- Poblogaeth nodedig o bryfyn y diliau mel ar gynefinoedd riff creigiog ar y traethlin.
- Lletemau o rostir arfordirol o werth cadwraethol lle mae'n ofynnol cael rheolaeth briodol er mwyn osgoi tyfiant prysgwydd

## Dylanwadau diwylliannol a safleoedd

- Mae Bryngaer Cynhanesyddol / lloc Moel Llanfendigaid yn ymddangos i fod yn un sy'n glwstwr anarferol o safleoedd bryngaerau yn yr ardal hon.
- Yn yr ardaloedd mwyaf serth, mae ffordd yr arfordir a'r rheilffordd yn rhedeg ar hyd silffoedd sydd wedi eu torri i mewn i'r clogwyni. Mae gan y llinell reilffordd loches eirlithriad i amddiffyn trenau rhag creigiau sy'n syrthio oddi ar y clogwyni.
- Caeau wedi eu leinio gyda waliau cerrig sych, o ffynhonnell clogfeini traeth lleol a cherrig crynion, wedi'i dalgrynnu mewn siâp yn sgil erydiad gan ddŵr.
- Mae Eglwysi bach (e.e Sant Celynnin, yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg) yn darparu tystiolaeth bellach o gyfres o bentrefi Canoloesol ar hyd yr arfordir. Byddai tir amaethyddol cyfyngedig wedi gwneud y broses o gasglu oddi ar y blaendraeth yn rhan hanfodol o'r economi leol.
- Trapiau pysgod Canoloesol / Ôl-ganoloesol a adeiladwyd o gerrig yn weladwy mewn ffotograffau o'r awyr rhwng Fferm Borthwen a Llangelynin.
- Man glanio traddodiadol yn Hen Borth ar gyfer Llwyngwriol, yn gysylltiedig yn flaenorol ag odyn galch.
- Cysylltiad gyda'r mwynglawdd copr / aur Abermaw - Consols (1861 ymlaen) yng nghefn-gwlad arfordirol i'r de o Fairbourne.
- O fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

## Rhinweddau Canfyddiadol

- Culni'r llain arfordirol yn creu ymdeimlad o gyfyngdod, ac mae'n gyferbyniad rhwng golygfeydd tua'r tir amgaeedig, a golygfeydd agored tua'r môr.
- Ffurf linol yr ACM yn cael ei wella drwy gyfrwng sythder yr arfordir, y rheilffordd, ffyrdd a ffiniau caeau perpendicwlar. Bryngaer arfordirol Moel Llanfendigaid ar ei fryn serth yn talgrynnu yn dirnod o fewn yr ACM.



- Gweadau a lliwiau cyferbyniol sy'n newid yn dymhorol o fôr, traethau crynion, caeau muriog a rhostir arfordirol.
- Golygfeydd ysblennydd o'r rheilffordd ger y lloches rhag eira ddisgyniad, lle mae'r trac yn rhedeg yn anghyfforddus o agos i'r ymyl, a chedwir cyflymder trenau yn isel.
- Arfordir agored sy'n wynebu'r gorllewin ynysig a chanddo ansawdd gwyllt, er bod hyn yn llai amlwg mewn golygfeydd o'r ffyrdd. Marciau Cardinal yn fflachio ar ben y sarnau yn rhan o'r morlun yn y nos.
- Mae ymdeimlad o anhygyrchedd i lawer o'r traethlin, gyda dim ond ychydig o hawliau tramwy cyhoeddus o ran cael mynediad at y môr - mae hyd yn oed llwybr yr arfordir yn gwyro yn fewndirol yn y fan hon. Fodd bynnag, mae agosatrydd y brif ffordd a gweladwyedd y maes carafannau yn gwanhau ymdeimlad yr ACM o dawelwch.
- Bryniau serth yn fewndirol (gan gynnwys rhai y tu allan i fin yr Ardal Astudiaeth) yn ffurfio'r gosodiad mewndirol. Mae lled cul yr ACM yn tanategu graddfa fertigol y bryniau hyn, yn enwedig mewn golygfeydd o'r môr. O'r môr, mae'r bryniau mewndirol yn ymddangos fel petaent yn codi allan o'r dŵr.

### Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid								
	Prosesau naturiol /	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol -	Ynni neu fwynau	Pwysau datblygu /	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinydd-aeth	Amddiffern	
<p>Cyflwyno amddiffynfeydd newydd rhag y môr ar hyd yr arfordir.</p> <p>Defnydd parhaol o bentyriadau a'r traffig cysylltiedig i ac o'r chwarel yn y Tonfanau. Hefyd fe all uwchraddio'r ffordd arfordirol a llwybr ffyrdd y rheilffordd effeithio ar gymeriad yr ACM.</p> <p>Defnydd posibl yn y dyfodol o faes gwersyll milwrol Tonfanau (ar hyn o bryd dim clustnodiad yn y CDLI).</p> <p>Newidiadau i arferion amaethyddol neu ddwysedd a all effeithio ar batrymau caeau sefydledig a chynefinoedd. Mae llechfeddiant rhedyn a cholli rhostir arfordirol / glaswelltir yn sgil arferion pori sy'n newid eisoes yn amlwg. Fe all newidiadau i lystyfiant (gan gynnwys rhedyn) niweidio archeoleg hefyd.</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>								
	laith Gymraeg								
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang								
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig								
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth								
	Treftadaeth ddiwylliannol								
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb								
	Mynediad at dir a dŵr a hamdena / mwynhad								
	Nodweddion daearegol a geomorffegol								
	Ynysoedd								
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi								
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr								
	<b>Allwedd</b>								Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig

Prosesau naturiol erydiad clogwyni a phrosesau traeth cerrig crwn.			
--	--	--	--

### Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	<p>Clogwynni ar lethrau serth yn ffurfio traethlin creigiog naturiol a chynefinoedd cysylltiedig.</p> <p>Sianeli tirffurfiau cul yn llywio'r llygad ar ei hyd.</p> <p>Golygfeydd agored tuag at Fae Abermaw : unrhyw ddatblygiad yn weladwy o bosib oddi ar y tir a'r môr ill dau.</p>	Bryniau serth yn codi'r serth o'r arfordir sydd o bosib yn lleihau'r risg o ddatblygiad yn ymddangos fel cysgodlun mewn golygfeydd o'r môr.
Datblygiad presennol	Ychydig iawn o ddatblygiad adeiledig presennol yn rhan ddeheuol yr ACM a chanlyniad hynny yw cymeriad annatblygedig.	Pentref presennol Llwyngwriil a meysydd carafannau yng ngogledd yr ACM.
Y profiad gweledol	crib linell fewndirol a chaer fryn Moel Llanfendigaid yn ffurfio nenlinell mewn golygfeydd o'r tir a'r môr.	
Tawelwch	Ychydig iawn o bobl ar yr arfordir, yn enwedig yn ne'r ACM.	Defnydd fel coridor cludiant cul ar gyfer y rheilffordd a'r brif ffordd.

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 25:


### TYWYN A SARN-Y-BWCH

ACTau Cydrannol (Eryri): Dyffryn Dysynni; Cadair Idris; Mynyddoedd Tarrau; Aber y Ddyfi

ACTau Cydrannol (Gwynedd): Tywyn

#### Lleoliad a Chyd destun

Lleolir yr ACM tua de arfordir gorllewinol Eryri, ac mae'n cynnwys tref Tywyn, yr arfordir o gwmpas, a'r tir gwastad sydd o amgylch y dref (gan gynnwys eang ddwr (Broad Water). ACM 24 : Y Friog hyd Tonfanau tuag at y gogledd, ac mae ACM 26 : Borth tuag at y de. Mae'r sarn yn gwahanu'r ACM alldraeth 34 Bae Abermaw oddi wrth alldraeth ACM 35 Bae Aberdyfi



*Blaenfor Tywyn, yn edrych tua'r gogledd. Mae'r traeth tywodlyd llydan yn cael ei orchuddio gan y llanw. Mae'r gwastadedd arfordirol gwastad yn Nhonfannau yn weladwy ar y nenlinell uwchben y ffigyrau. Yn y nos mae'r Marc Cardinal yn fflachio ar ddiwedd Sarn-y-bwch i'w weld allan yn y môr. Delwedd © Fiona Fyfe*


#### Crynodeb Disgrifiad

Mae'r ACM hwn yn cynnwys y traeth tywodlyd hir yn Nhywyn, a'r tir gwastad sy'n amgylchynu'r dref, gan gynnwys yr hen aber -'Broad Water'. Mae Broad Water fel y'i gelwir yn awr yn forlyn llanw, ac yn cefnogi amrywiaeth gyfoethog o fywyd adar; mae'r gwlyptiroedd yn darparu gwedd cyferbyniol i'r meysydd bugeiliol o amgylch. Y tu ôl i'r corsydd arfordirol a thwyni tywod helaeth mae bryniau uchel Eryri sy'n creu lleoliad mewndirol dramatig ar gyfer yr ACM. Mae tref Tywyn ei hun yn hynafol yn wreiddiol, ond gwelwyd datblygiad gwyliau cychfan Fictoraidd sylweddol yma. Mae golygfeydd hir i mewn tuag at y tir tuag at Eryri, ac allan i'r môr, gyda chopaon bryniau Pen Llŷn yn ymddangos fel 'Ynysoedd' ar y gorwel gogleddol.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



*Mathau Cymeriad Morlin yn ACM Tywyn a Sarn-Y-Bwch SCA. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.*

<b>Symbol 'H'</b>	<b>m2a</b>	<b>m7</b>	<b>t5</b>	<b>t7c</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>m3a</b>	<b>m10</b>	<b>t7a</b>	<b>t10</b>
<b>i2</b>	<b>m4a</b>	<b>t1</b>	<b>t7b</b>	<b>t13a</b>

## Nodweddion Allweddol

- Daearreg sylfaenol o gerrig llaid Ordofigaidd a Silwraidd, gyda rhai ymwithiadau igneaidd, a dyddodion rhewlifol Pleistosenaid o amgylch Tonfanau. Mae balciau Tal-y-llyn (rhan o 'Amlinelliad Bala') yn tueddu GDd-DO ar draws yr ACM, croestorri yr arfordir yn Nhywyn.
- Ardal wastad yn bennaf, wedi ei gwahanu oddi wrth y môr a'r traeth tywodlyd eang gan dwyni tywod. Mae sarn rhewlifol dyddodol yn ymestyn fel nodwedd linellol allan i'r môr.
- Mae Afon Dysynni yn llifo drwy'r ardal ac i mewn i'r môr ger Tonfannau. Mae cyn aber wedi llenwi â llaid, gan adael morlyn llanw (Dŵr Eang). Mae patrymau llanw a gwaddodion yn achosi ffurfiant twyni, a drifft y glannau tua'r gogledd ar hyd yr arfordir.
- Defnydd tir amrywiol gan gynnwys tir amaeth (caeau a chors bori), anheddiad (Tywyn), a thwristiaeth / hamdden (maes carafannau, cwrs golf mawr ac ati.)
- Mae cynefinoedd yn cynnwys gwlyptiroedd a morlyn llanw Dŵr Eang, corydd pori, traethau tywodlyd a systemau twyni tywod helaeth.
- Hanes hir o anheddiad o'r Oes Efydd ymlaen. Canolfan eglwysig canoloesol cynnar yn Nhywyn. ACM hefyd yn cynnwys nodweddion o ystadau ôl-ganoloesol a datblygiad Fictoraidd.
- Tref Tywyn a sefydlwyd ers y 13eg ganrif, ond wedi ei ehangu'n sylweddol fel cyrchfan ar ddiwedd y 19eg ganrif yn dilyn adeiladu'r rheilffordd Arfordir y Cambrian.
- Tirffurf agored ac yn gymharol wastad, gyda thwyni, dŵr, y môr, traethau, tir fferm ac adeiladau sy'n darparu amrywiaeth o liwiau a gweadau.
- Gosodiad tirwedd o fryniau mewndirol, gyda thir fferm a waliau cherrig yn ychwanegu cefndir a graddfa i dir gwastad llawr y dyffryn.
- Gorwel clir tua'r môr, gyda golygfeydd i'r de ar draws ceg aber y Ddyfi at Ynys-las a Chlogwynni Borth y tu hwnt.



*Morlyn llanw a'r ffermdir bugeiliol o gwmpas.  
Delwedd © Fiona Fyfe*



*Amdiffynfeydd rhag y môr oddi ar draeth Tywyn.  
Delwedd © Fiona Fyfe*



*Corsydd pori arfordirol, cwrs golff a'r rheilffordd, tua'r de o Dywyn. Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Cysgod trwm = eang; cysgod canolig = lleol; dim cysgod = achlysurol

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Traeth	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Archwilio	Ymarfer corff	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Chwaraeon Dŵr				
Ecodwristiaeth				
Actif				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- O gwmpas Tonfannau mae'r clogwyni arfordirol wedi cael eu cyfansoddi o glog-glai sy'n cynrychioli dyddodion rhewlifol oddi ar haen rhew Môr Iwerddon, a rhew wedi deillio yn lleol yng Nghymru. Mae nodweddion rhewlifol eraill yn cynnwys y drymlin sef ar be mae rhan o Dywyn wedi ei adeiladu, a Sarn-y-bwch, - credir ei fod yn farian rhewlifol canolog.
- Prosesau arfordirol parhaus o erydu, drifft y glannau a ffurfio twyni. Mae potensial â n ddrifft yn bennaf tua'r gogledd oherwydd presenoldeb amddiffynfeydd môr caled. Mae peth drifft hefyd yn digwydd tua'r de tuag at aber Afon Dyfi.
- Gwlyptiroedd llanw o Ddŵr Eang / ac Afon Dysynni yn ddynodedig fel AoDdGA. Hefyd mae rhannau o Lannau Tonfannau hyd at AoDdGA Friog yng ngogledd yr ACM, a rhan o Dyfi yn y de o'r ACM.
- Ardal allfor a cheg y Dysynni wedi cael ei ddynodi yn AGA.
- Rhan ddeheuol o'r ACM o fewn Gwarchodfa Biosffer UNESCO Cors Fochno.
- Coedwig cynhanesyddol tanddwr a gwelyau mawn toredig i'w gweld ar y traeth pan fo'r llanw'n isel iawn.
- Sarn-y-bwch o fewn AWA ddynodedig Pen Llyn a'r Sarnau.

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Darganfyddiadau archeolegol yn cynnwys arteffactau o'r Oes Efydd o gwmpas Tywyn, sy'n dangos anheddiad ers amser hir. Dwy fryngaer o Oes yr Haearn uwchben Dŵr Eang (y tu allan i Ardal yr Astudiaeth).
- Tarddiad eglwysig cynnar, gyda mynachlog a sefydlwyd yn Nhywyn yn ystod y 6ed ganrif. Rhan bresennol yr Eglwys yn dyddio o'r 12fed ganrif, ac mae'n cynnwys yr enghraifft gynharaf o'r Gymraeg yn ysgrifenedig (8/9fed Ganrif ) ar garreg angladdol.
- Mwent Canoloesol yn Domen Ddreiniog, a phont hanesyddol dros y Ddysynni ger yr A493.
- Olion ystâd ôl-ganoloesol o Ynysmaengwyn, a chynlluniau draenio ac arferion gwella fferm cysylltiedig.
- Datblygiad cyrchfan lan y môr Fictoraidd a seilwaith twristiaeth (cwrs golff , parciau carafannau ac ati).
- Gwersyll Yr Ail Ryfel Byd yn Nhonfannau, sydd bellach yn lled-adfeiliedig, gyda barics concriid brics a blociau, llwyfannau magnel concriid a ffyrdd tarmac. Yn wreiddiol yn rhan o rwydwaith o wersylloedd hyfforddi / feysydd tanio o gwmpas Bae Ceredigion.
- Maes awyr milwrol arall yr Ail Ryfel Byd i'r gogledd o Dywyn. Mae llawer o adeiladau gwreiddiol wedi goroesi yn cael eu defnyddio fel ystâd ddiwydiannol. Mae cymeriad milwrol cynnil yn ymestyn ymhell i'r môr i derfynau'r maes tanio, ac mae hefyd yn cynnwys llwyfannau magnel ger Pont Dysynni a chaerau tanddaearol ar hyd yr arfordir i aber Afon Dyfi.
- Pen allanol o Sarn-y -bwch yn draddodiadol wedi ei farcio gyda bwi. Morwyr yn defnyddio atgyfeiriadau i bolyn disglair yn Fferm Trevanna, Castell Aberystwyth a bryn Ffigle Fawr ger



Abermaw i geisio osgoi'r sarn. Heddiw mae ei ben orllewinol yn cael ei farcio â Marc Cardinal sy'n fflachio.

- Mae colledion llongau ar Sarn-y-bwch yn cynnwys *Albert* a *John Pritchard*.
- Wedi ei rhannol gynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol Cymru (Ardal 54 : Dyffryn Dysynni).
- Yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Teimlad gymharol agored ar raddfa ganolog, a hynny oherwydd y traeth eang, twyni a chorsydd arfordirol gwastad.
- Yn gyffredinol tiffurf syml a llorweddol yn bennaf o fewn yr ACM, ond bryniau mewndirol yn darparu cefndir cyferbyniol.
- Gweadau cynnil o dwyni, dŵr, ardaloedd rhynglanwol, caeau ac adeiladau. Coed pinwydd achlysurol (creiriau / olion posibl o blannu ystâd) yn cyfrannu silwetau nodedig.
- Presenoldeb trefi a ffyrdd yn lleihau canfyddiadau anghysbell a llonyddwch, yn enwedig yn yr haf.
- Bryniau o amgylch heb eu datblygu yn ychwanegu at leoliad yr ACM ac yn rhoi teimlad wedi ei gyfyngu a llai datblygedig.
- Mae Marcia Cardinal yn fflachio ar ben y sarnau yn rhan o'r morlun yn ystod y nos.

### Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid								
	Prosesau naturiol /	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol -	Ynni neu fwynau	Pwysau datblygu /	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinydd-aeth	Amddiffyn	
Bydd datblygiad ar lawr y dyffryn o amgylch Tywyn yn weladwy iawn o'r bryniau mewndirol. Mae adeiladau tal a adeiladwyd yn ddiweddar yn weledol amlwg ar draws y gwastadedd arfordirol. Bydd unrhyw ddatblygiad ar y gefnen o gwmpas (e.e tyrbinau gwynt) yn effeithio ar olygfeydd o'r arfordir a'r môr. Proses erydu naturiol a drifft arfordirol (tua'r gogledd yn rhan ogleddol yr ACM ac i'r de tuag at aber yr Afon Dyfi yn rhan ddeheuol yr ACM). Gall amddiffynfeydd môr pellach ar lan y môr Tywyn effeithio ar gymeriad yr ACM. Mwy o berygl llifogydd yn aber Dysynni yn sgil y cynnydd yn lefel y môr. Cynyddu yn y defnydd hamddena ar gyfer syrffio a byrddio padlo oherwydd bod	Rhinweddau Arbennig								
	laith Gymraeg								
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang								
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig								
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth								
	Treftadaeth ddiwylliannol								
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb								
	Mynediad i hamdden / adloniant tir a dŵr								
	Nodweddion daearegol a geomorffegol								
	Ynsoedd								
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi								
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr								
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig						

<p>gwaith peirianeg arfordirol diweddar wedi altro uchder y tonnau.</p> <p>Gall newidiadau mewn arferion amaethyddol a rheoli tir effeithio ar gymeriad y tir o amgylch.</p>	
--	--

### Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	<p>Golygfeydd agored o'r arfordir allan i'r môr ar draws Bae Ceredigion.</p> <p>Datblygiad a allai fod yn weladwy o'r tir a'r môr.</p> <p>Tir isel a thirffurf llorweddol yn sensitif i gyflwyniad nodweddion fertigol</p> <p>Cynefinoedd arfordirol sensitif mewn systemau twyni ac ardaloedd gwlyptir.</p>	
Datblygiad presennol		Tref Tywyn a pharciau carafannau cyfagos.
Y profiad gweledol	<p>SCA yn cael ei weld yn erbyn cefndir golygfaol o fryniau bugeiliol.</p> <p>Defnyddwyr o lwybr arfordir Cymru yn dderbynyddion sensitif.</p>	Datblygiad ar lan y môr a chwrs golff helaeth yn creu cymeriad hamdden mewn rhannau o'r SCA.
Tawelwch	Lefelau uwch o heddwch o amgylch Afon Dysynni a Dŵr Eang.	<p>Effeithiau prif ffyrdd a threnau achlysurol.</p> <p>Cyrchfan gwyliau prysur, gyda gostyngiadau tymhorol mewn tawelwch oherwydd niferoedd o ymwelwyr.</p>


## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 26:

### BORTH

ACTau Cydrannol (Eryri) : Aber y Ddyfi

#### Lleoliad a Chyd destun

Lleolir yr ACM hon ym mhen deheuol arfordir gorllewinol Eryri. Mae'n cynnwys ceg yr aber Afon Dyfi a phentrefi Borth, Borth Uchaf ac Ynyslas. SCA 35: Mae Bae Aberdyfi yn gorwedd tuag at y môr; SCA 25: Mae Tywyn a Sarn-y-bwch i'r gogledd, a'r SCA 27: Mae Aber Afon Dyfi yn y tir tua'r dwyrain.



*Yr olygfa tua'r gogledd o Borth uchaf, yn dangos traeth a phentref Borth, ac aber yr Afon Ddyfi.  
Delwedd© Fiona Fyfe*


#### Disgrifiad Cryno

Mae'r ACM hon wedi'i nodweddu gan ffurf linellol gryf ei thirffurf, ei aneddiadau, ei thraeth a'i ffyrdd. Datblygwyd y pentref ar hyd tafod cul o dir sy'n gwahanu Aber Dyfi o'r môr. Mae twyni tywod Ynyslas ym mhen gogleddol y tafod, a rhagor o dwyni tywod ar ochr ogleddol genau aber Dyfi. Mae naws agored a digysgod yn perthyn i bentref y Borth, gyda golygfeydd pell allan i'r môr ac i'r tir ar draws aber Dyfi. Mae golygfeydd panoramig ar hyd yr arfordir o'r clogwyni yn y Borth Uchaf (ymyl ddeheuol Ardal yr Astudiaeth).



## Mathau o Gymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau o Gymeriad Morlun Cyfansoddol.



*Mathau o Gymeriad Morlun yn ACM y Borth. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.*

Symbol 'H'	i4	m4a	t2	t10	t17
i2	i6	m10	t7a	t11a	
i3	m3a	t1	t7b	t13a	

## Nodweddion Allweddol

- Daeareg waelodol o greigiau gwaddod Silwraidd, wedi'u gorchuddio â dyddodion mwy diweddar o dywod a chwythwyd gan y gwynt.
- Mae'r tirffurf yn cynnwys traeth llinellol hir a thafod tywod sy'n ymestyn tua'r gogledd i Aber Dyfi ac yn gwahanu Cors Fochno (ACM 27) o'r môr. Mae clogwyni serth yn codi ar ymyl ddeheuol yr ACM. Bathymetreg tanfor bas gydag ardal rynglanwol greigiog.
- Mae gan y môr ddylanwad dŵr croyw o'r aber, a phatrwm tua'r gogledd o ddrifft y glannau a chread twyni oherwydd y tonnau de-orllewinol cyffredin. Mae rhan ogleddol yr ACM yn cynnwys gennau afon Dyfi a'r banciau tywod deinamig cysylltiedig.
- Mae'r defnydd yn cynnwys pysgota hamdden a masnachol, mynd mewn cychod, twristiaeth / hamdden (cwrs golff a pharciau carafanau), aneddiadau a chludiant.
- Mae'r cynefinoedd yn cynnwys traeth tywod hir gyda chefnen gerrig y tu ôl iddo, a system helaeth o dwyni tywod yn Ynyslas.
- Mae'r nodweddion hanesyddol a diwylliannol ar y tir yn cynnwys cofgolofn rhyfel ar ben y clogwyn (sy'n dirnod o'r tir a'r môr) a'r datblygiad twristaidd yn y Borth.
- Cysylltiadau hanesyddol cryf rhwng y Borth a'r môr. Pentref pysgota yn wreiddiol, ond sydd bellach wedi'i ymestyn lawer ar gyfer twristiaeth arfordirol.
- Cafodd anheddiad hanesyddol y Borth Uchaf ei ymestyn yn ystod y 19eg ganrif ar ffurf patrwm llinellol ar hyd tafod tywodlyd. Tai ar wasgar yn Ynyslas.
- Ymdeimlad mawr ac agored, gyda golygfeydd pell allan i'r môr a hefyd i'r tir dros Gors Fochno ac aber Dyfi. Mae'r môr, y grwynau, y twyni, y cerrig a'r adeiladau oll yn ychwanegu lliw a gwead. Mae ffurf syth yr anheddiad yn adlewyrchu llinoledd y tirffurf, y ffyrdd a'r rheilffordd.
- Mae'r dirwedd wedi'i ffurfio gan y bryniau o amgylch Aber Dyfi.
- Mae'r morlun wedi'i fframio gan glogwyni i'r de, a thraeth Tywyn i'r gogledd. Mae golygfeydd agored dros Fae Ceredigion, gyda bryniau penrhyn Llŷn yn ymddangos fel ynysoedd ar y gorwel gogleddol.



*Pentref y Borth a'r traeth  
Llun© Fiona Fyfe*



*Mae'r clogwyn yn y Borth Uchaf,  
gyda'i gofgolofn rhyfel, yn dirnod  
amlyg mewn golygfeydd o'r  
glannau a'r môr. Llun© Fiona Fyfe*



*Canolfan ymwelwyr yng  
Ngwarchodfa Natur Ynyslas.  
Llun© Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Lliw tywyll = helaeth; lliw canolig = lleol; dim lliw = achlysurol

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	lechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Traeth	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Chwaraeon dŵr	Ymarfer corff	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Egniol				
Eco-dwristiaeth				
Fforio				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Prosesau arfordirol ac aberol gweithredol o ran symudiad gwaddod a dyddodiad tywod, sy'n arwain at system weithredol helaeth o dwyni tywod yn Ynyslas, SoDdGA (Dyfi), ACA, a Safle Ramsar dynodedig. Tafod Ynyslas yw'r enghraifft orau o'r ychydig dafodau wedi'u halinio gan ddrifft Gogledd-De ar arfordir Cymru sy'n wynebu'r gorllewin.
- Patrymau o ddrifft gwaddod wedi'u dylanwadu'n gryf gan newidiadau mewn cyfluniad banciau yng ngenau aber Dyfi.
- Mae Ynyslas hefyd wedi'i ddynodi yn Warchodfa Natur Genedlaethol, gyda chanolfan boblogaidd i ymwelwyr.
- Mae'r ACM gyfan o fewn Gwarchodfa Biosffer UNESCO Cors Fochno.
- Mae'r ardal ar y môr o fewn ACA Bae Ceredigion.
- Diddordeb daearegol ym mhen deheuol yr ACM, gyda safle RIGS dynodedig (Borth Uchaf) a rhan o SoDdGA arfordirol Borth-Clarach.
- Coedwig cynhanesyddol yn amlwg o'r glannau yn Ynyslas adeg llanw isel iawn.

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Mae Cofgolofn Rhyfel y Borth, sydd ar ben y clogwyn yn y Borth Uchaf, yn nodwedd amlwg mewn golygfeydd o'r môr a'r tir. Roedd llawer o wŷr y Borth yn ymuno â'r Llynges oherwydd traddodiad morwrol cryf y pentref.
- Arfordir Treftadaeth o Borth Uchaf tua'r de, sy'n parhau y tu hwnt i Ardal yr Astudiaeth.
- Craidd hanesyddol y cyn bentref pysgota yng ngodre'r clogwyn. Mae dyluniad unigryw yn perthyn i gychod pysgota'r Borth i'w galluogi i gael eu rhedeg yn syth ar y traeth heb fod angen harbwr.
- Estynnwyd pentrefi'r Borth ac Ynyslas ar ôl adeiladu llinell reilffordd, i gynnwys glan y môr llinelloi Fictoraidd ac adeiladau cysylltiedig, ynghyd â sawl parc carafanau.
- Roedd y cynlluniau ar gyfer 'Cyrchfan lechyd Ynyslas' ym 1889 yn cynnwys promenadau, pyllau dŵr môr, siopau, capeli, tai teras a thai ar wahân, a neuadd farchnad. Mae 'Cartrefi Arddangos' o gyfnodau cynnar y datblygiad yn dal i sefyll yn y pentref llinelloi.
- Maes tanio arbrofol 1945-6, a ddatblygwyd i brofi systemau rocedi pellgyrhaeddol cynharaf Prydain (fel ymateb i fomiau Doodlebug a V2 yr Almaen). Mae olion y traciau tanio rocedi, y pwyntiau gwyllo â chamerau, gorsafoedd radar ac yn y blaen i'w gweld ymysg y twyni tywod.
- Defnyddir y brigiad creigiog ym Moel Ynys fel arwydd blaenllaw ar gyfer Aber Dyfi a hefyd fel targed i longau mewn trafferthion allu cyrraedd y traeth yn ddiogel.
- Llongdrrylliadau sy'n gysylltiedig â Bar Aberdyfi yn rhan ogleddol yr ACM, gan gynnwys *Moringen* a oedd wedi'i chofrestru yn Norwy a suddodd ym 1877 gyda declwyth o bren. Achubwyd y criw gan fad achub Aberdyfi, ond credir bod winsh sy'n cael ei dadorchuddio o bryd i'w gilydd ar y traeth yn perthyn i'r llongdrrylliad hwn.
- Yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.



## Rhinweddau Canfyddiadol

- Mae golygfeydd agored dros y môr a'r aber yn creu ymdeimlad mawr ac agored.
- Mae amrywiaeth o ddefnyddiau tir o fewn yr ACM, ond mae'r gosodiad môr a thir yn cynyddu'r ymdeimlad o undod. Mae ymdeimlad prysur yn perthyn i'r ACM gyda llawer o fynd a dod, yn enwedig yn ystod yr haf.
- Mae'r golygfeydd wedi'u sianelu gan y tiffurf llinellol a phatrwm yr anheddiad. Mae patrwm rheolaidd y grwynau yn cyferbynnu â phatrymau a gwadau mwy organig y traeth a'r twyni
- Naws digysgod, sy'n agored i'r môr a'r tir. Mae'r tywydd yn dylanwadu'n gryf ar yr ACM. Mae Marciau Prifol sy'n fflachio ym mhen y Sarnau yn rhan o'r morlun gyda'r nos.
- Mae gan yr ACM ei hun ymdeimlad sefydlog a than reolaeth, ond ymhell o'r grwynau a'r llwybrau pren mae ymdeimlad o wylltineb yn perthyn i'r traethau a'r twyni, yn enwedig dan amodau'r gorllewin.
- Mae morlun agored a thirwedd odidog yn gefndir dramatig ac yn tynnu'r llygad allan o'r ACM tuag at y môr a'r bryniau y tu hwnt.

## Grymoedd ar gyfer Newid

Crynodeb	Grymoedd allweddol ar gyfer newid								
<p>Rhagor o strwythurau môr ac amddiffyn rhag llifogydd, yn enwedig o ystyried lleoliadau isel y Borth ac Ynyslas.</p> <p>Cynnydd mewn defnydd hamdden o'r dŵr (wedi i waith peirianyddol arfordirol diweddar altro uchder y tonnau) a nifer yr ymwelwyr yng ngwarchodfa natur Ynyslas. Hefyd pwysau datblygu ar gyfer tai a llety gwyliau.</p> <p>Prosesau arfordirol naturiol o erydiad gwaddod, driffa a dyddodiad, gan gynnwys symudiad gwaddod tuag at enau aber Dyfi, a ffurfiant twyni tywod yn parhau yn Ynyslas.</p> <p>Byddai datblygu rhagor o dyrbinau gwynt ar yr esgeiriau i'r dwyrain o'r Borth yn ychwanegu at ymwithiad gweledol y strwythurau presennol.</p> <p>Pwysau ymwelwyr tymhorol gan gynnwys cynnydd mewn traffig a nifer y bobl a chychod yn effeithio ar lonyddwch.</p> <p>Gallai pwysau ymwelwyr, pwysau datblygu a rheoli tir gael effaith andwyol ar y geomorffoleg leol.</p>	<p><b>Nodweddion Arbennig</b></p>	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau ar y môr	Pwysau datblygu / llwybrau cludiant	Newidiadau rheoli tir	Defnydd y Weinyddiaeth	
		Yr iaith Gymraeg							
		Amrywiaeth o dirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol a golygfeydd eang							
		Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
		Cyfoeth y cynefinoedd a bioamrywiaeth							
		Treftadaeth ddiwylliannol							
		Pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb							
		Mynediad i dir a dŵr a hamdden / mwynhad							
		Daeareg a nodweddion geomorffegol							
		Ynsoedd							
		Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau a gerddi hanesyddol							
		Ansawdd y pridd, aer a dŵr							
		<p><b>Allwedd</b></p>		Newid sy'n digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar yr ansawdd arbennig a ddewiswyd					

## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg a thirffurf arfordirol	<p>Arfordir agored gyda golygfeydd pell allan i'r môr; posibilrwydd i ddatblygiadau fod yn weladwy o'r tir a'r môr.</p> <p>Mae gan dir uchel i'r de o'r Borth olygfeydd panoramig dros Fae Ceredigion ac Aber Dyfi.</p> <p>Cynefinoedd arfordirol sensitif yn system dwyni Ynyslas.</p>	Presenoldeb amddiffynfeydd y môr a grwynau ar y traethau.
Datblygiad presennol		Presenoldeb y pentref presennol, tai ar wasgar yn Ynyslas, a pharciau carafanau.
Y profiad gweledol	<p>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a Gwarchodfa Natur Ynyslas yn dderbynyddion sensitif.</p> <p>Clogwyni a thir uchel i'r de o'r Borth yn amlwg iawn mewn golygfeydd arfordirol.</p>	Datblygiad glan y môr a chwrs golff yn creu cymeriad hamdden mewn rhannau o'r ACM.
Llonyddwch	Lefelau uwch o lonyddwch yn rhan ogleddol yr ACM, gyda golygfeydd o dwyni ac i fyny aber Dyfi.	<p>Effeithiau'r datblygiad presennol, y ffyrdd a threnau achlysurol.</p> <p>Cyrchfan gwyliau prysur, gyda gostyngiadau tymhorol mewn llonyddwch oherwydd niferoedd yr ymwelwyr.</p>


## ARDAL CYMERIAD MORLUN 27:

### ABER DYFI

ACT Cydrannol (Eryri): Aber y Ddyfi

#### Lleoliad a Chyd-destun

Mae'r ACM hon yn ne arfordir gorllewinol Eryri, ac mae'n cynnwys pentref Aberdyfi a llawr Aber Dyfi cyn belled â therfyn y llanw yn Nerwenlas. Mae'n fewndirol o ACM 26: y Borth.



*Aber Dyfi, yn edrych tua'r tir o Ynyslas. Mae pentref pysgota Aberdyfi ar ochr chwith y llun.  
Llun © Fiona Fyfe*


#### Disgrifiad Cryno

Mae bryniau de Eryri a Cheredigion yn gefnlen wych i olygfeydd helaeth ar draws yr aber ac yn creu ymdeimlad cryf o le. Mae'r sianel llanw wedi'i leinio â thraethellau, morfa heli a gwelyau cyrs, ac mae cilfachau llanw troellog yn rhedeg trwyddynt. Dyma amgylchedd naturiol cyfoethog gydag amrywiaeth o gynefinoedd morol, rhynglanwol a daearol sy'n cynnwys cyforgors mawn Cors Fochno, a morfeydd heli hallt Ynyshir. Mae'r amrywiaeth hon, ynghyd â phrosesau arfordirol ac aberol deinamig, a llanw newidiol, yn arwain at amgylchedd sy'n newid yn gyson gydag amrywiaeth gyfoethog o liwiau, patrymau a gweadau. Gellir ei werthfawrogi o'r dŵr, ar droed, ac o'r llinellau rheilffordd sy'n dilyn ymylon gogleddol a deheuol yr aber.



# Mathau o Gymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau o Gymeriad Morlun Cyfansoddol.



Mathau o Gymeriad Morlun yn ACM Aber Dyfi. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

Symbol 'H'	i3	m4a	t7a	t10
Symbol 'O'	i6	m10	t7b	t13a
i2	m3a	t2	t8a	t17



## Nodweddion Allweddol

- Daeareg creigwely gwaelodol o garreg laid Silwraidd, lleidfaen a llwydgraig, wedi'u gorchuddio gan ddyddodion rhewlifol, llifwaddodol ac arfordirol.
- Aber eang gyda llawr dyffryn llydan, wedi'i amgylchynu gan dirffurf sy'n mynd yn fwy serth yn sydyn.
- Sianel ymdroellog Afon Dyfi wedi'i hamgylchynu gan fflatiau eang. Mae afonydd Einion, Cletwr a Leri (y ddwy olaf wedi'u sianelu) yn llifo i mewn i Afon Dyfi o fewn yr ACM.
- Mae'r ardaloedd morol yn boblogaidd ar gyfer hwylio a physgota, gyda harbwr bach a llithrfa yn Aberdyfi. Mae'r ardaloedd daearol yn cynnwys traethellau helaeth, morfeydd heli a chors bori.
- Cynefinoedd arfordirol ac aberol amrywiol (gan gynnwys cyforgors mawn, morfa heli, llaid, tywod a gwelyau cyrs) a choedlan sy'n cynnal amrywiaeth eang o blanhigion, pryfed ac adar.
- Llinellau rheilffordd sy'n enwog am eu golygfeydd ac un o'r gorsafoedd rheilffordd mwyaf anghysbell ym Mhrydain yng Nghyffordd Dyfi. Safleoedd amddiffynnol Rhufeinig a Normanaidd yn y Domen Las, a draeniad hanesyddol y fflatiau i greu cors bori.
- Harbwr hanesyddol a chyn bentref pysgota yn Aberdyfi.
- Aneddiadau o fewn yr ACM wedi'u cyfyngu i bentref Aberdyfi, ffermydd a phentrefannau ar wasgar. Fodd bynnag, mae aneddiadau eraill (gan gynnwys y Borth a Machynlleth) yn agos at yr ACM ac yn weladwy ohoni.
- Mae bryniau uchel amgylchynol Eryri a Cheredigion yn creu golygfeydd godidog ac ymdeimlad cryf o le.
- Patrymau, gweadau a lliwiau tirwedd amrywiol a deinamig.



*Potiau pysgota yng nghei Aberdyfi.  
Llun © Fiona Fyfe*



*Gwely cyrs a phont reilffordd ger gorsaf Cyffordd Dyfi.  
Llun © Fiona Fyfe*



*Morfeydd heli ar ochr ddeheuol yr aber, fel y'u gwelir o'r trêrn.  
Llun © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Lliw tywyll = helaeth; lliw canolig = lleol; dim lliw = achlysurol

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Fforio	Ymlacio	Naturiol	Anffurfiol	Ysbrydol
Chwaraeon dŵr	Ymarfer corff	Diwylliannol	Ffurfiol	Crefyddol
Eco-dwristiaeth				

### Dylanwadau Naturiol a safleoedd

- Amgylchedd arfordirol ac aberol deinamig sy'n arwain at amgylchedd cyfoethog o ran bwyd a chynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o blanhigion ac adar. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys morfeydd heli, corysdd pori, traethellau, tywod, coedlan a'r gyforgors mawn mwyaf cyflawn yn Ewrop.
- Safleoedd rhyngwladol-bwysig yn yr ACM, gyda dynodiadau sy'n cynnwys: SoDdGA Dyfi, ACA, AGA, Gwarchodfa Biosffer UNESCO, Safle Ramsar a Gwarchodfa Natur Genedlaethol.
- Coedlannau derw Ynys Hir a Dyfi sy'n enwog am glychau'r gog a chân adar yn y gwanwyn.
- Adar sy'n cynnwys gweilch y pysgod a barcudiaid coch, ynghyd â man clwydo nodedig ar gyfer y drudwy yn Aber.
- Mae newid yn yr hinsawdd a newidiadau mewn lefelau dŵr yn bygwth cynefinoedd prin.

### Dylanwadau Diwylliannol a safleoedd

- Hanes hir o amddiffyn, gan gynnwys caer Rufeinig yn y Domen Las, a oedd yn safle castell Normanaidd yn ddiweddarach.
- Mae cynlluniau adfer tir y 19eg Ganrif gynnar (gan gynnwys sianelu afon Leri) wedi arwain at ddraenio corysdd ar gyfer defnydd amaethyddol. Adfer pellach yn dilyn adeiladu llinell reilffordd ac arglawdd Arfordir y Cambrian yng nghanol y 19eg Ganrif.
- Hanes diwydiannol sydd wedi siapiro ymylon yr aber ac wedi cynhyrchu masnach forwrol. e.e. chwareli llechi a cheiau cysylltiedig ag angorfa ar lan ogleddol yr aber (e.e. Fron Goch); mwyngloddiau plwm o amgylch Taliesin.
- Eglwys Sant Mihangel (19eg Ganrif) wedi'i hadeiladu ar 'ynys' bach o dir uwch.
- Pentref a harbwr pysgota hanesyddol yn Aberdyfi. Mae'r pentref hefyd yn gysylltiedig ag adeiladu llongau ar ddechrau – canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'i ganoli ar Benhelig.
- Cyn iard adeiladu llongau, melin goed a glanfeydd cwmni'r rheilffordd (a ddefnyddiwyd yn ystod gwaith adeiladu rheilffordd Arfordir y Cambrian) yng ngenau Afon Leri. Hefyd yng ngenau Afon Leri mae olion tair sgwner (Henebion Cofrestredig) a adawyd ar ôl dyfodiad y rheilffyrdd a diwedd y fasnach lechi o'r ceiau yn Nerwenlas.
- Tirweddau wedi'u cynllunio o amgylch tai gwledig Ynyshir a Lodge Park ar ochr ddeheuol yr aber.
- Mynediad i ymwelwyr a'r traeth i Ynyslas, gan gynnwys traddodiad o barcio ar y traeth ar ochr aber y bar tywod ger genau'r aber.
- Elfennau milwrol yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys olion caerau tanddaearol a maes tanio Ynyslas.
- Yn rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Golygfeydd helaeth ar draws yr aber wedi'u hamgáu gan y bryniau cyfagos, sy'n creu cefnlen drawiadol ac unigryw a chyfansoddiadau cytûn o elfennau'r dirwedd.
- Mae'n ACM dawel ar y cyfan, er gwaethaf y prosesau deinamig sydd ynddi. Mae ambell i drên yn elfennau symudol drwy'r ACM, yn ogystal â cheir ar y ffyrdd ymylol.



- Mae patrymau cywrain, troellog o forfeydd heli, a gwead cain y gwelyau cyrs a'r coedlannau derw yn ffurfio blaendir cyfoethog gyda lliwiau sy'n cyferbynnu â'r bryniau o amgylch.
- Ymdeimlad o wylltneb a phellenigrwydd mewn rhannau o ganlyniad i'r ardaloedd helaeth o forfa heli a llaid anhygyrch. Ymdeimlad o lonyddwch i ffwrdd o'r aneddiadau, y ffyrdd a'r llinellau rheilffordd sy'n cael ei wella gan synau adar.
- Mae gan y bryniau amgylchynol ryngweledd cryf â'r aber. Maent yn creu cefndir trawiadol ac yn ychwanegu at ymdeimlad o le a llongydwch yr ACM. Mae'r ACM hefyd yn elfen bwysig o'r golygfeydd o'r bryniau o'i chwmpas, lle gellir ei gwerthfawrogi yn ei chyd-destun arfordirol.

### Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid						
	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth
Llifogydd (yn cael eu gwaethygu gan gynnydd yn lefel y môr) yn bygwth y gors iseldir prin a gafodd ei ddynodi yn rhyngwladol yng Nghors Fochno (Cors Fochno).							
Pwysau datblygu yn cynnwys datblygiad arfaethedig ar y ddwy ochr i'r aber, gan gynnwys ehangu Aberdyfi i fyny ochr y bryn. Bydd tyrbinau / melinau gwynt newydd ac arfaethedig yn effeithio ar olygfeydd ac yn tynnu ymhellach oddi wrth yr ymdeimlad o lonyddwch.	laith Gymraeg						
Bydd gwaith uwchraddio posibl ar y rheilffordd a chroesfan newydd Dyfi yn effeithio ar gymeriad llawr y dyffryn.  Bydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a rheoli tir (gan gynnwys planhigfeydd coedwigaeth) yn effeithio ar ymddangosiad gweledol yr ACM a'i leoliad.  Gall prosesau aberol naturiol, gan gynnwys siltio newid golwg / ymddangosiad yr aber, yn enwedig pan fydd y llanw yn isel.	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang						
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig						
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth						
	Treftadaeth ddiwylliannol						
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltneb						
	Mynediad at dir a dŵr a hamddena / mwynhad						
	Nodweddion daearegol a geomorffegol						
	Ynysoedd						
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi						
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr						
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig				

## Sensitifrwydd Cynhenid


Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	Tirffurf sy'n gorwedd yn isel gyda chynefinoedd gwlyptir arfordirol sensitif.	Rhyngwelededd â'r môr yn cael ei gyfyngu gan dwyni / banciau tywod
Datblygiad presennol	<p>Datblygiad presennol yn gyfyngedig ag ymyl gorllewinol yr ACM; mewn mannau eraill, mae gan yr ACM ansawdd annatblygedig.</p> <p>Cymeriad hanesyddol pentref a harbwr Aberdyfi.</p>	Presenoldeb datblygiad presennol yn Aberdyfi. Datblygiad llinellol yn Borth ac Ynyslas hefyd yn weledol.
Y profiad gweledol	<p>Tirwedd yn cael ei gwerthfawrogi o afonydd, ffyrdd, rheilffordd a safleoedd cadwraeth sy'n hygyrch i'r cyhoedd.</p> <p>Rhinweddau golygfaol gwerthfawr iawn gyda chymeriad gwledig a golygfeydd trawiadol.</p> <p>Gosodiad a'r nenlinellau cysylltiedig yn cyfrannu at gymeriad a rhinweddau arbennig yr ACM .</p> <p>Gweledol iawn mewn golygfeydd o fryniau o amgylch.</p>	Mae'r fferm wynt ar y crib tuag at y de o'r ACM yn effeithio ar olygfeydd ac mae'n lleihau'r sensitifrwydd yn lleol yn y mannau sy'n union gyfagos â'r fferm wynt.
Tawelwch	Lefelau uchel o dawelwch yn bodoli yn y fan hon, yn enwedig draw oddi wrth y prif ffyrdd.	Traffig ffordd ar y cyrion ac ambell i drên.

# ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 33

## BAE TREMADOG

### Lleoliad a Chyd-destun

Lleolir yr ACM hon ar y rhan ogleddol o arfordir gorllewin Eryri, i'r de o Ben Llŷn. I'r gogledd-ddwyrain mae ACM 19 : Criccieth i Mochras, ac i'r de ceir ACM 22: Mochras i Fairbourne / Friog, sy'n cynnwys Sarn Badrig yn ymestyn i mewn i'r môr.



Golygfa agored ar draws Bae Tremadog fel y'i gwelir o Bwllheli. Delwedd © Fiona Fyfe

### Crynodeb Disgrifiad


Nodwedd amlwg o'r ACM alldraeth hon yw ei gwely môr mwdlyd nodedig, a lefelau uchel o gymylogrwydd y dŵr. Mae'r dŵr yn llawer mwy brown o ran ei liw nag ydyw mewn mannau eraill yn yr Ardal Astudio; mae o hefyd yn gynhesach o ran tymheredd ac yn cefnogi rhywogaethau sydd yn aml yn ffafrio hinsoddau cynhesach. Yn hanesyddol, defnyddiodd morwyr yr olion gwaddod a oedd yn cael eu codi ar seiniad arweiniol i'w cynorthwyo i'w llywio o amgylch ac er mwyn osgoi Sarn Badrig. Mae rhannau eraill o wely'r môr o fewn yr ACM hwn o wneuthuriad tywod neu waddod cymysg.

Mae'r ACM wedi cael ei hamgáu gan dir tua'r gogledd a'r dwyrain, gyda bryniau Pen Llŷn ac Eryri yn weladwy o'r môr. Mae bryn arfordirol nodedig Moel-y-Gest yn dirnod amlwg hefyd. Mae golygfeydd yn fwy agored i'r de a'r gorllewin, sef cyfeiriad prif batrwm y tonnau.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



Mathau Cymeriad Morlun yn ACM Bae Tremadog. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'H'</b>	<b>i6</b>	<b>m3b</b>	<b>m5</b>	<b>t5</b>	<b>t8b</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>m2a</b>	<b>m3d</b>	<b>m6</b>	<b>t7a</b>	<b>t10</b>
<b>i2</b>	<b>m2b</b>	<b>m4a</b>	<b>m7</b>	<b>t7b</b>	<b>t13a</b>
<b>i3</b>	<b>m3a</b>	<b>m4b</b>	<b>t2</b>	<b>t8a</b>	

## Nodweddion Allweddol


- ACM gweddol gysgodol gyda cherrynt llanw sy'n amrywio o wan i gymedrol. Mae gweithrediad tonnau yn cynhyrchu ychydig o aflonyddwch yn ardaloedd canolog, mwdlyd yr ACM.
- Mwd bas a swbstrad tywod gyda chymuned creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) amrywiol, a ddefnyddir yn hanesyddol fel cymorth mordwyo.
- Cynhyrchiant cynradd uchel (ffytoplancton).
- Lleoedd meithrin pysgod dyfnforol masnachol bwysig.
- Mae'r riff / greigres greigiog yn Sarn Badrig yn ffurfio ffin ddeheuol i'r ACM hwn ac yn cefnogi cymuned amrywiol o greigres.
- Gweithgareddau pysgota cyfyngedig gan gynnwys rhwyd dreillio ysgafn a photio.
- Gwelwyd cychod hamdden a physgota yn cael mynediad at harbwr Porthmadog a Phwllheli.
- Llongdrylliadau i'w cael ar hyd ffin ACM ddeheuol Sarn Badrig.
- ACM alldraeth gymharol amgaedig gyda golygfeydd o Ben Llŷn tuag at y gogledd ac arfordir Gwynedd tua'r dwyrain ar hyd yr ACM.



*Ffotograff o wely'r môr gydag amodau gwaddod mwdlyd prin, ym Mae Tremadog. Delwedd © Prifysgol Bangor*



*Ffotograff o wely'r môr gydag amodau gwaddod mwdlyd prin, fel y canfu ym Mae Tremadog. Delwedd © Prifysgol Bangor*



*Bae Tremadog a Phen Llŷn fel y'i gwelir o Harlech. Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Cysgod Trwm = eang, cysgod cyfrwng = lleol; heb unrhyw raddliwio = achlysurol

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Chwaraeon Dŵr		Naturiol	Ffurfiol	Ysbrydol
		Diwylliannol		

### Dylanwadau Naturiol

- Yn bennaf mwd a gwaddodion tywodlyd yn llethu craig waddod Oligocene a Permo - Triasig.
- Dŵr bas yn amrywio o lai na 10m yn y gogledd -ddwyrain hyd at uchafswm o tua 20m.
- Cerrynt llanw gwan i gymedrol â chyflymder brig llai na 1m - 1. Uchafswm ystod llanw o 3.5 i 4.5m. Cymedr amrediad llanw o 3.25m (cymedr ystod gwanwyn 4.3m).
- Gweithrediad tonnau yn tarfu ar wely'r môr yn rhanbarthau bas y bae, heb lawer o aflonyddwch yn yr ardal fwdlyd ganolog.
- Mewnbwn dŵr croyw o aber cyfun Afon Glaslyn ac Afon Dwyrdd, ac afonydd llai.
- Dŵr yn y bae yn dod yn haenedig yn yr haf ac yn ffurfio blaen sy'n ei wahanu rhag ACM 36 : Bae Ceredigion.
- Ynni isel i gymedrol yng ngwely'r môr yn cynhyrchu cynefinoedd llaid bas yn bennaf a thywod. Gwaddodion mân sefydlog yn harbwr i gymuned amrywiol o fewnffawna turio gan gynnwys mwydod gwrychog, ecinodermiaid, anemonïau a chregyn deuglawr.
- Mae'r ACM yn ffinio â chrib greigiog, wedi ei chreu gan rewlifau Sarn Badrig i'r de, ac mae'r cynefin ar hyd y ffin hon yn gymysgedd o gerrig wedi eu dominyddu gan algâu a gwaddod bras sy'n cefnogi epiffawna a physgod riff.
- Mae'n beth cyffredin gweld dolffiniaid / llamhidyddion trwynbwl yn yr ACM hon.
- Daear meithrin ar gyfer pysgod masnachol pwysig, gan gynnwys lleden chwithig a lleden frech.
- Ardal o gynhyrchiant cynradd uchel (mwy o grynodiad gloroffyl-a).
- Rhan o'r dynodiad Pen Llŷn a'r Sarnau / AADd Pen Llŷn a'r Sarnau.

### Dylanwadau Diwylliannol

- Mae gweithgarwch pysgota yn gyfyngedig i rwyd dreillio ysgafn photio.
- Mae cychod hamdden yn cael eu gweld yn yr ACM yn enwedig yn agos at y lan.
- Mae Sarn Badrig yn gorwedd i'r de o'r ACM hwn ac mae'n cynrychioli perygl mordwyol. Mae nifer o longdrylliadau yn gysylltiedig â'r fan hon gan gynnwys y sgwner *Viligant* (1858) a *Pride of the Sea*. Roedd yr heigiau hefyd yn fan lle gwelwyd llongau /cychod yn cael eu hadennill, a oedd yn cael eu tynnu i mewn i borthladdoedd lleol ar gyfer cael eu hatgyweirio.
- Yn hanesyddol, arferai morwyr ddefnyddio seinwyr arwain wrth fynd i mewn i'r bae, ar gyfer mesur dyfnder dŵr ac arsylwi ar y newidiadau yn y gwaddod. Mae patrymau hanesyddol o weithgarwch llongau yn adlewyrchu'r cyngor Llyngesyddol a gafwyd 'i ddefnyddio arweiniad seinio i ddilyn 'ceudod mwdlyd' o fewn milltir i fwi sianel mordwyo Porthmadog, ac 'i beidio â chrwydro i mewn i ddŵr llai na 7 gwryd o ran dyfnder.' Yna byddai'r llong yn cael ei gwarantu ei bod o leiaf 2-3 milltir o Sarn Badrig.

### Rhinweddau Canfyddiadol

- Mae'r golygfeydd o Ben Llŷn tuag at y gogledd ac arfordir Gwynedd tuag at y dwyrain yn rhoi ymdeimlad caeedig i lawer o'r ACM.
- Mae'r tonnau sy'n torri ar Sarn Badrig yn dynodi ymyl ddeheuol yr ACM. Mae'r Marc Cardinal sy'n fflachio ym mhen gorllewinol Sarn Badrig yn rhoi cyfeiriadedd yn y nos, ac yn cyfrannu at y morlun gyda'r nos.
- Baeau Pen Llŷn i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain. Darnau eang o draethau tywodlyd i'r dwyrain a gefnogir gan y mynyddoedd Eryri.



- Gweithgaredd cychod yn gyfyngedig i gychod hamdden a llongau pysgota bach.

## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid								
<p>Amrywioldeb naturiol mewn cynefinoedd morol a'u cymunedau.</p> <p>Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar brosesau ecosystem forol ac amodau cyffredinol.</p> <p>Mae diwygio'r polisi pysgodfeydd yr UE yn debygol o newid arferion pysgota sydd, yn ei dro yn effeithio ar gynefinoedd morol.</p> <p>Gweithgareddau pysgota yn cael eu cyfyngu ar hyn o bryd gan is-ddeddfau.</p> <p>Amrywiad tymhorol o ran twristiaeth a chychod hamdden sy'n cael mynediad i Borthmadog a Phyllheli.</p> <p>Prosesau naturiol yn effeithio ar archeoleg forol megis llongddrylliadau drwy gynydd neu orchudd gan waddod.</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth	
	Iaith Gymraeg								
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang								
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig								
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth								
	Treftadaeth ddiwylliannol								
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb								
	Mynediad i dir a dŵr ac adloniant/mwynhad								
	Nodweddion daearegol a geomorffegol								
	Ynysodd								
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi								
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr								
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig						



## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf	Cilfach, gyda golygfeydd i / o Ben Llŷn ac Eryri. Dyfroedd cynnes, cymylog yn cefnogi planhigion morol anarferol a ffawna.	
Datblygiad presennol		
Y profiad gweledol	Bryniau Pen Llŷn yn dirnodau tuag at y gogledd. ACM weladwy o leoliadau arfordirol poblogaidd.	
Tawelwch	Ychydig o gychod mawr oherwydd y dŵr bas ac agosatrwydd at dir.	

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 34: BAE ABERMAW

### Lleoliad a Chyd destun

Mae'r ACM alldraeth hon wedi ei lleoli tua'r de o Ardal yr Astudiaeth, rhwng Sarn Badrig i'r gogledd a Sarn-y-bwch tuag at y de. I'r gogledd a'r dwyrain mae ACM 22: Mochras i'r Friog, ac i'r de-ddwyrain mae ACM 24: Y Friog i Donfannau. I'r gorllewin mae ACM 36: Bae Ceredigion.



*Edrych ar draws Bae Abermaw uwchben Llwyngwril. Mae Pen Llŷn yn weladwy ar y gorwel.  
Delwedd © John Briggs*

### Crynodeb Disgrifiad


Mae gwely'r môr yn yr ACM hwn yn cynnwys tywod bas. Tua'r gorllewin mae gwaddodion gwely'r môr yn fwy bras, ond mae'n parhau i fod yn fas. Mae'n ardal boblogaidd ar gyfer hwylio hamdden, yn enwedig o Harbwr Abermaw, felly yn yr haf, gall yr ACM deimlo'n eithaf prysur ac actif.

Mae'r gwastadedd arfordirol sy'n isel-orwedd yn diflannu'n gyflym o'r golwg o'r lan. Fodd bynnag, mae bryniau uchel Eryri a Phen Llŷn yn aros yn weladwy. Mae'r ACM rhwng y ddau 'fagl llongau' sef Sarn Badrig a Sarn-y-bwch ac yn cynnwys nifer o longddrylliadau. Mae'r Marciau Cardinal sy'n fflachio (bwiau) ar ben y sarnau yn nodweddion pwysig sy'n weladwy o fewn y ACM hwn ac yn rhoi ymdeimlad cryf o le, yn enwedig yn y nos.



# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.




Mathau Cymeriad Morlun yn ACM Bae Abermaw. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'H'</b>	<b>i2</b>	<b>m3b</b>	<b>m6</b>	<b>t2</b>	<b>t7c</b>
<b>Symbol 'O'</b>	<b>m2a</b>	<b>m4a</b>	<b>m7</b>	<b>t7a</b>	<b>t13a</b>
<b>Symbol 'Seren'</b>	<b>m3a</b>	<b>m5</b>	<b>m10</b>	<b>t7b</b>	

## Nodweddion Allweddol

- Mae gwaddod bas, wedi ei ddioli'n dda yn gyffredinol yn dominyddu'r ACM hon.
- Gweithrediad y tonnau yn tarfu ar y gwaddod.
- Cynefin riff / creigres greigiog yn cael ei gweld ar hyd ymyl ogleddol y ACM (Sarn Badrig).
- Creigresi carbonad prin a ffurfiwyd gan dreiddiad methan yn cefnogi pysgod creigres a chymunedau o fywyd di-asgwrn cefn (infertebratau).
- Mannau bwydo ar gyfer adar y môr.
- Amgylchedd cyfoethog, gan gynnwys morfilod, meithrinfeydd ar gyfer pysgod dyfnforol, a thiroedd bwydo ar gyfer adar y môr.
- Llongddrylliadau i'w cael ar hyd Sarn Badrig i'r gogledd o'r ACM. Llongddrylliadau o fewn y ACM hwn yn cynnwys Llongddrylliadau Gwarchodedig y 'Diamond' a 'Llongddrylliad Tal y Bont'.
- Marciau Cardinal sy'n fflachio (bwiau) i'w gweld ar ddiwedd pob Sarn.
- Gweithgaredd pysgota, potio, rhwydo a threillio ysgafn.
- Tair uned arfordirol wahanol yn weladwy, gan gynnwys traeth hir, traeth isel tywodlyd, clogwyni serth a mynyddoedd uchel mewndirol. Cewch gipolwg o olygfeydd o Aber y Fawddach hefyd.



Llongddrylliad y 'Diamond'. Delwedd © CADW Awdur: Archeoleg Wessex.

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Cysgod Trwm = eang, cysgod cyfrwng = lleol; heb unrhyw raddliwio = achlysurol

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Chwaraeon Dŵr		Naturiol	Ffurfiol	Ysbrydol
		Diwylliannol		

## Dylanwadau Naturiol

- Rhan wedi ei ddynodi fel AGA Pen Llŷn a'r Sarnau.
- Haen denau o dywod a graean cwaternaidd yn gorwedd dros greigiau gwaddodol Oligocene, Permo-Driasig a Jwrasig.
- Gwely'r môr sy'n fas a fflat gyda dyfnder mwyaf o tua 20m.
- Cerrynt llanw gwan i gymedrol gyda chyflymder mwyaf yn y gwanwyn o lai na 0.75ms - 1. Uchafswm amrediad llanw o 4 - 5m. Mae'r tonnau yn tarfu ar wely'r môr bas yn yr ACM hon.
- Wedi ei oleuo'n dda, glân, gyda thonnau yn aflonyddu ar dywod symudol a chynefinoedd graean tywodlyd. Mae cymuned creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) wedi addasu i'r aflonyddwch rheolaidd a gwaddodion ansefydlog. Cynefinoedd gwaddod a cherrig bras i'w gweld ar hyd ffiniau'r gogledd a de'r ACM sy'n dilyn ymylon y Sarnau.
- I'r gogledd-orllewin o Abermaw mae yna gynefin prin o riffiau carbonad a grëwyd yn sgil treiddiad nwy methan o'r enw Riff / Creigres Holden. Mae'r cynefin yn gorchuddio cyfanswm ardal o tua 40,000 m<sup>2</sup>. Mae strwythur y riff yn creu cynefin cymhleth gyda chymuned amrywiol gan gynnwys sbyngau, bryosoaid, sêr brau, hiatella (creadur deu gragennog sy'n tyllu i mewn i greigiau), tyweirch algaidd ac algâu coch a brown ffilamentog. Cymuned bysgod riff sy'n cynnwys gadidau (pysgod penfras tebyg) a gobïod yn bennaf gwrrachod.
- Adar y môr yn bwydo yn y dyfroedd bas.
- Gall poblogaeth breswyl o lamhdyddion / ddolffiniaid trwynbwl Bae Ceredigion gael eu gweld yn y ACM hwn.
- Mannau meithrin ar gyfer pysgod masnachol pwysig, gan gynnwys lledod chwithig a lledod.
- Rhan o'r ardal sydd wedi cael ei ddynodi'n AGA Pen Llŷn a'r Sarnau.

## Dylanwadau Diwylliannol

- Marciau Cardinal sy'n fflachio ar ddiwedd pob Sarn. Llongddrylliadau ar hyd y Sarnau i'r gogledd ac i'r de o'r ACM.
- Mae'r defnydd a wneir o'r môr yn cynnwys pysgota gyda rhwyd dreillio ysgafn, rhwydi statig yn seiliedig ar gwch a photio am gimychiaid a chrancod.
- Cychod hamdden yn cael mynediad i harbwr Abermaw.
- Dau Safle Llongddrylliadau a Ddiogelir oddi ar Sarn Badrig : 'Llongddrylliad Tal y Bont' (llog fasnachu wedi'i harfogi'n dda gyda llwyth o farmor Carrera o'r Eidal , a suddwyd yn 1702 ) a'r 'Diamond' (llog o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a adeiladwyd o bren gyda gorchuddiad copr).
- Y Sarnau wedi cael ei ddisgrifio fel 'magl llong' yng Nghyfarwyddiadau Morlys Hwyllo yr 1870au: *Argymhellir na ddylai unrhyw ddiethryn ar ei ffordd i Abermaw i beidio â chroesi o fewn pen allanol y Sarn ar ôl iddi dywyllu...*
- Angorfa draddodiadol y tu allan i Far Abermaw, lle byddai llongau yn aros am beilot cyn mynd i mewn i'r harbwr.
- Colledion milwrol yn yr ACM yn cynnwys un o'r awyrennau ymosodol cyntaf o Brydain, cafodd ei saethu i lawr yn 1961 wrth nesáu at faes awyr Llanbedr, ac awyren fomio Almaenig *Junkers 88* a aeth i mewn i'r môr ger Abermaw yn 1941.

## Rhinweddau Canfyddiadol

- Wrth edrych tuag at y tir mae yna ddau arfordir cyferbyniol o draethau tywodlyd hir (ACM 22) a chlogwyni creigiog serth (ACM 24) yn cael eu gwahanu gan aber u Fawddach (ACM 23).
- Mae naws agored i rannau helaeth o'r ACM.
- Ar lanw isel yng ngogledd yr ACM mae'r rhannau o Sarn Badrig sy'n sychu yn cyflwyno nodwedd alldraeth anarferol.
- Gall yr ACM hon brofi ynni tonnau sylweddol gydag ymchwydd de-orllewinol.
- Yn ystod y nos, mae Marciau Cardinal sy'n fflachio ar ben y sarnau yn darparu pwyntiau cyfeiriadedd ac

yn cyfrannu at y morlun nos.

## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid						
	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth
Amrywioldeb naturiol mewn cynefinoedd morol a'u cymunedau.							
Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar brosesau ecosystem forol ac amodau cyffredinol.							
Diwygiad y polisi pysgodfeydd yr UE yn debygol o newid arferion pysgota a fydd yn ei dro yn effeithio ar gynefinoedd morol.	laith Gymraeg						
Amrywiad tymhorol mewn twristiaeth a chychod hamdden.	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang						
Prosesau naturiol yn effeithio ar archeoleg forol megis llongdrylliadau drwy gyrydiad neu orchudd gan waddod.	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig						
Potensial ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar y môr.	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth						
Potensial ar gyfer archwilio am nwy ac olew.	Treftadaeth ddiwylliannol						
Ardal ar gyfer ymarfer tanio y Weinyddiaeth Amddiffyn yn yr ACM cyfagos 34 Bae Ceredigion yn effeithio ar lonyddwch yr ACM.	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb						
Bygythiad posibl i dir gorweliol o du datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir.	Mynediad i dir a dŵr ac adloniant/mwynhad						
	Nodweddion daearegol a geomorffegol						
	Ynsoedd						
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi						
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr						
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig				




## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geomtereg arfordirol a thirffurf	Agos at y lan, yn enwedig ger ACM 22, ac felly yn weladwy iawn mewn golygfeydd o'r arfordir. Amodau yn creu amgylchedd morol cyfoethog ac anarferol.	
Datblygiad presennol	Defnyddio ar gyfer pysgota.	
Y profiad gweledol	Yn weladwy mewn golygfeydd o dir uchel ar y tir, ac o leoliadau arfordirol poblogaidd.	
Tawelwch	Bathymetreg bas ac agosrwydd at y lan yn golygu mai dim ond ychydig o longau mawr sydd yna yn yr ACM hon.	

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 35: BAE ABERDYFI

### Lleoliad a Chyd destun

Mae'r ACM alldraeth hon wedi ei lleoli yn y de o Ardal yr Astudiaeth, ac mae'n cynnwys yr ardal forol i'r gorllewin o Borth a Thywyn. Mae'n cael ei wahanu oddi wrth ACM 34: Bae Abermo gan Sarn-y-bwch. Mae ffin ddeheuol yr ACM yn ymyl Ardal yr Astudiaeth. I'r dwyrain mae ACM 25: Tywyn a Sarn-y-bwch, a ACM 26: Borth. I'r gorllewin mae ACM 36: Bae Ceredigion.



*Golygfa agored ar draw Bae Aberdyfi o Borth. Delwedd © Fiona Fyfe*


### Crynodeb Disgrifiad

Tywod bas yn dominyddu gwely'r môr yn yr ACM hon. Tua'r gorllewin mae gwaddodion gwely'r môr yn mynd yn fwy garw, ond yn parhau i fod yn fas. Tonnau gorllewinol yn teithio ar draws yr ACM cyn torri ar y traethau yn ACM 25 a 26.

Mae'r gwastadedd arfordirol sy'n isel-orwedd yn diflannu'n gyflym o'r golwg i ffwrdd o'r lan. Fodd bynnag, gall bryniau uchel Eryri gael eu gweld o hyd ar y gorwel dwyreiniol. Mae bryniau Pen Llŷn yn ymddangos fel 'Ynysoedd' ar y gorwel gogleddol. Mae'r Marciau Cardinal sy'n fflachio (bwiau) ar ben y sarnau yn nodweddion pwysig yn weladwy o fewn y ACM hwn, yn enwedig yn y nos. Mae'r ACM yn cael ei defnyddio gan longau / cychod hamdden a chychod pysgota bach, ond yn rhy fas ar gyfer llongau masnachol mwy.

# Mathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol.



Mathau Cymeriad Morlun yn yr ACM Bae Aberdyfi. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'Seren'</b>	<b>m3a</b>	<b>m7</b>	<b>t2</b>	<b>t13a</b>
<b>i2</b>	<b>m4a</b>	<b>m9</b>	<b>t7a</b>	
<b>m2a</b>	<b>m6</b>	<b>m10</b>	<b>t7c</b>	

## Nodweddion Allweddol

- Swbstrad tywod bas, symudol sy'n cael eu tarfu yn rheolaidd gan y tonnau.
- Cerrynt llanw gwan i gymedrol.
- Cymuned creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) yn gwrthsefyll yr aflonyddwch.
- Cynefinoedd creigiog a ddeuir o hyd iddynt ar hyd y Sarnau sy'n ffurfio ffiniau gogleddol a deheuol i'r ACM .
- Tiroedd silio a meithrin ar gyfer pysgod dyfnforol sy'n fasnachol bwysig.
- Gall morfilod fel llamhidyddion / dolffiniaid trwynbwl gael eu gweld yn y fan hon.
- Gweithgaredd pysgota yn cynnwys rhwyd dreillio ysgafn a photio.
- Cysylltiadau hanesyddol gyda physgota penwaig, ac allforio mwyn plwm.



*Golygfa o Aberdyfi yn edrych allan tua'r môr  
Delwedd © Fiona Fyfe*

## Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd** : Bold shading = widespread; medium shading = localised; no shading = occasional

Hamdden, adloniant a thwristiaeth	Iechyd	Treftadaeth	Addysg	Crefyddol ac ysbrydol
Chwaraeon Dŵr		Naturiol	Ffurfiol	Ysbrydol
		Diwyllianol		



## Dylanwadau Naturiol

- Rhan wedi ei ddynodi'n AGA Pen Llŷn a'r Sarnau.
- Haen denau o dywod cwaternaidd yn gorwedd dros greigiau gwaddodol ac anwahanedig Jwrasig.
- Gwely'r môr yn y fan hon yn fas a gwastad gyda dyfnder o 10 - 20m islaw datwm y siart.
- Cerrynt llanw gwan i gymedrol â chyflymder brig y gwanwyn o lai na 0.5 ms-1. Amrediad llanw uchaf yw 4-5m. Symudiad y tonnau yn tarfu ar waddod ar draws yr ACM hon.
- Tywod symudol yn bennaf â chymuned creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) yn gwrthsefyll aflonyddwch. Clytiau bach o waddod bras a chymysg hefyd yn bresennol.
- Mae'r gwaddod bas yn cael ei ddefnyddio fel tir bwydo ar gyfer adar y môr.
- Gall poblogaeth breswyl o lamhdyddion / ddolffiniaid trwynbwl Bae Ceredigion yn cael eu gweld yn yr ACM hon.
- Mae lledod yn silio yn yr ardal o fis Rhagfyr hyd fis Mawrth.
- Mannau meithrin ar gyfer pysgod masnachol bwysig, gan gynnwys lledod chwithig a lledod.
- Rhan o'r ACM wedi'i ddynodi'n AGA Pen Llŷn a'r Sarnau.

## Dylanwadau Diwyllianol

- Gweithgaredd pysgota yn cynnwys rhwyd dreillio ysgafn, rhwydi sefydlog yn seiliedig ar gwch a photio am gimychiaid, crancod a chorgimychiaid.
- Hwyllo ar gyfer dibenion hamdden yn digwydd yn yr ACM hon, gan gynnwys rhwyfo arfordirol.
- Marciau Cardinal sy'n fflachio (bwiau) i'w gweld ar ddiwedd pob sarn.
- Cysylltiad hanesyddol gyda physgodfa penwaig sy'n dyddio'n ôl o leiaf i oes Elisabeth. Gallai'r llongau dec agored bach gael eu tynnu i fyny ar y traeth yn Borth Uchaf os oedd eu meistri yn dewis peidio dod â nhw i mewn i Far Aberdyfi.
- Y Borth a'r Dyfi yn cael eu crybwyll fel lleoliadau ymgynnull ar gyfer llynges pysgota yn y *Rhestrau o longau a morwyr* a grëwyd gan Gyngor Cyfrin Elizabeth rhwng 1555 a 1558.
- Yn hanesyddol, pasiodd masnach forwrol bwysig ar draws yr ACM hon : Yn y 1830au, allforion blynyddol cyfartalog o Aberdyfi yn 500 tonnell o risgl; 40,000 troedfedd o bren derw; 150,000 troedfedd o bolion derw; 100 tonnell o fwyn plwm, a 1500 tonnell o lechi. Yr oedd y mewnforyn yn cynnwys 5000 o dunelli o rawn; 1000 o dunelli o lo; 500 tonnell o lo mân, 2000 tonnell o galchfaen, a bwydydd a nwyddau llongau eraill.
- Yr oedd mordwyaeth wrth agosáu at aber yr Afon Dyfi yn dibynnu ar weld Pendinas mewn perthynas â Chraig Las, er mwyn clirio Bar Aberdyfi. Yr oedd polyn llusern ym Moel Ynys, Ynyslas yn darparu marc blaenllaw yn y Ddeunawfed Ganrif.
- Drylliad awyren *Avro Anson* a ddisgynnodd i mewn i'r môr ger Aberdyfi yn 1941.

## Rhinweddau Canfyddiadol

- Golygfeydd o arfordir agored wedi ei ddominyddu gan draeth isel sydd â gwastadedd arfordirol yn gefnlen iddo, gyda bryniau uwch yn fewndirol.
- Cipolwg o olygfeydd i Aber y Ddyfi.
- Mae'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chychod yn cynnwys cychod hamdden a llongau pysgota bach.
- Gall yr ACM hon weld gweithrediad tonnau sylweddol, yn enwedig dan amodau gorfudol o'r de-orllewin, gan greu awyrgylch ddramatig.
- Gellir gweld Marciau Cardinal sy'n fflachio ar ddiwedd pob sarn, sy'n darparu cyfeiriadedd ac mae'n creu ymdeimlad cryf o le yn y nos.

## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth	
Amrywiaeth naturiol mewn cynefinoedd morol a'u cymunedau.  Fe all newid yn yr hinsawdd effeithio ar brosesau ecosystem morol a'r amodau cyffredinol.  Mae diwygiad polisi pysgodfeydd yr UE yn debygol o newid arferion pysgota a fyddai yn ei dro yn effeithio ar gynefinoedd morol.  Amrywiad tymhorol mewn twristiaeth a'r defnydd o gychoch / hwylio.  Mae prosesau naturiol yn effeithio ar yr archeoleg forol fel llongdrylliadau trwy gorydu neu gael eu gorchuddio á gwaddodion.  Potensial ar gyfer datblygiad ffermydd gwynt alldraeth.  Potensial ar gyfer fforio am nwy ac olew.  Ardal ymarfer tanio y Weinyddiaeth Amddiffyn yn yr ACM 34 ogyfer sef Bae Ceredigion gan effeithio ar dawelwch yr ACM .  Bygythiad ddichonol i nenlinellau tua chyfeiriad y tir o ddatblygiad ffermydd gwynt ardraeth.	<b>Rhinweddau Arbennig</b>							
	laith Gymraeg							
	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang							
	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
	Treftadaeth ddiwylliannol							
	Pellenigrwydd, tawelwch a gwyltineb							
	Mynediad at dir a dŵr a hamddena / mwynhad							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynsoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi							
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr							
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig					


## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geomtereg arfordirol a thirffurf	Golygfeydd agored i /o'r ACM hon.	
Datblygiad presennol	Defnyddio ar gyfer pysgota.	
Y profiad gweledol	Yn weladwy mewn golygfeydd o dir uchel ar y lan, ac o leoliadau arfordirol poblogaidd.	
Tawelwch	Bathymetreg bas ac agosrwydd at y lan yn golygu mai dim ond ychydig o longau mawr sydd yn yr ACM hwn.	

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 36: BAE CEREDIGION

### Lleoliad a Chyd destun

Mae'r ACM alldraeth hon wedi ei lleoli yn y de-orllewin o ardal yr astudiaeth. Mae hi yn y môr agored tua'r gorllewin o ACM 34 : Bae Abermaw ac ACM 35 : Bae Aberdyfi.



*Yr haul yn machlud dros Fae Ceredigion, fel y'i gwelir o Aberystwyth. Delwedd © Fiona Fyfe*

### Crynodeb Disgrifiad

Mae gwely'r môr yr ACM hwn yn cael ei ddominyddu gan waddodion bras. Yn gyffredinol, mae'n fas o ran dyfnder, gydag egni uchel / cymedrol amrywiol yn bennaf oherwydd tonnau.


O'r pellter hwn allan i'r môr, mae nodweddion ar yr arfordir sy'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt, ond mae bryniau uchel Eryri yn weladwy ar y gorwel dwyreiniol, ac mae Marciau Cardinal sy'n fflachio ar ben y sarnau i'w gweld hefyd. Mae llongau mawr sy'n defnyddio sianel *St Sior / George* yn weladwy tua'r gorllewin. Mae'r ACM yn cael ei defnyddio ar gyfer treillio am gregyn bylchog, rhwyd dreillio ysgafn a photio.

Mae'r ardal yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion milwrol yn barhaus ac mae'n cynnal cymeriad milwrol. Mae'n cael ei defnyddio ar gyfer dibenion amrywiol gan gynnwys tanio taflegrynnau tir a thanio taflegrynnau wedi eu môr-lawnsio.



# Cymeriad Morlun Cyfansoddol

Cyfeiriwch at Atodiad 1 am Fathau Cymeriad Morlun Cyfansoddol os gwelwch yn dda.



Mathau Cymeriad Morlun yn yr ACM Bae Ceredigion. Cyfeiriwch at yr allwedd ar dudalennau 98-102 ar gyfer disgrifiadau llawn.

<b>Symbol 'Seren'</b>	<b>m3a</b>	<b>m3d</b>	<b>m6</b>
<b>m2a</b>	<b>m3b</b>	<b>m4a</b>	<b>m7</b>
<b>m2c</b>	<b>m3c</b>	<b>m5</b>	

### Nodweddion Allweddol

- Cymysgedd o fathau o waddod mewn 20- 30m o ddŵr.
- Mae'r gwaddodion ar wely'r môr yn cael ei aflonyddu'n rheolaidd gan y tonnau.
- Creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) gwydn sy'n addasu yn unol â'r gwaddod bras symudol.
- Morfilod yn cael eu gweld yn rheolaidd gan gynnwys llamhidyddion / dolffiniaid trwynbwl.
- Mannau silio pysgod dyfnforol, a thirfor pwysig ar gyfer pysgota cregyn bylchog.
- Gellir gweld llongau masnachol tua'r gorllewin. Gall Marciau Cardinal sy'n fflachio (bwiau) ar ben y sarnau hefyd gael eu gweld, yn enwedig yn y nos.
- Dŵr pellennig agored gyda dim ond golygfeydd cyfyngedig iawn o dir.
- Defnydd milwrol parhaus, gan gynnwys profion taflegrynnau.

### Gwasanaethau a Buddion Diwylliannol

**Allwedd:** Bold shading = widespread; medium shading = localised; no shading = occasional

<b>Hamdden, adloniant a thwristiaeth</b>	<b>Iechyd</b>	<b>Treftadaeth</b>	<b>Addysg</b>	<b>Crefyddol ac ysbrydol</b>
Chwaraeon Dŵr		Naturiol	Ffurfiol	Ysbrydol
		Diwyllianol		

## Dylanwadau Naturiol

- Tywod Cwaternaidd, graean tywodlyd a gwaddodion cymysg yn gorwedd dros graig waddodol Jwrasig a Phermo-Triasig.
- Gwely'r môr yn gymharol fas a gwastad o 20-30m is law datwm y siart mewn dyfnder. Ffurfiâu gwely actif gan gynnwys tonnau tywod ac mae crychdonnau tywod yn bresennol.
- Ceryntau llanw cymedrol hyd at 1ms-1 brig mewn cyflymder yn y gwanwyn. Uchafswm amrediad llanw o tua 4m. Agored i donnau de orllewinol sy'n aflonyddu ar y gwaddod bas.
- Gwaddodion bras symudol gyda creaduriaid y llaid dyfrol (endobenthos) gwydn yn bennaf. Gall darnau o riffiau crynion hefyd fod yn bresennol mewn mannau gydag epiffawna gan gynnwys hydroïdau, cwrelau meddal a bryosoaid fel cwrel ros.
- Gall morfilod / cetaceaïd gael eu gweld yn yr ACM hwn.
- Lleden a mannau silio gwyniaid y môr.

## Dylanwadau Diwyllianol

- Meysydd pysgota cregyn bylchog.
- Gweithgaredd pysgota yn cynnwys treillio am gregyn bylchog, rhwyd dreillio ysgafn a photio (ar gyfer cimychiaid, crancod a gwichiaid).
- Ymarfer tanio ac ardal arbrofi'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn cwmpasu 6500sq. km o forlun a ddiffinnir fel maes awyr glanweithiol.
- Adroddiadau ynghylch awyrennau o'r Ail Ryfel Byd wedi disgyn, gan gynnwys *Bomber Vickers Wellington*.
- Defnydd milwrol parhaus wedi arwain at 'dwl' yn y data o longdrylliadau. Fodd bynnag, mae yna nifer adroddiadau bod rhai wedi suddo yn yr ardal hon, gan gynnwys yr agerlong gynnar iawn y *Lee* yn 1840, tra ar daith o Cork i Lerpwl.

## Rhinweddau Canfyddiadol

- Dŵr agored, gyda thir prin yn weladwy. Mae hyn yn creu ymdeimlad o ddryswch, a hefyd naws o fod yn anghysbell.
- Gall ynni tonnau fod yn sylweddol, gan greu ansawdd dramatig a gwyllt.
- Defnydd achlysurol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn effeithio ar y llonyddwch.
- Marciau Cardinal sy'n fflachio ar ben y sarnau yn weladwy yn y nos, ac mae hynny'n rhoi cyfeiriadedd ac ymdeimlad o le.

## Grymoedd Dros Newid

Crynodeb	Allwedd Grymoedd Dros Newid							
	Rhinweddau Arbennig	Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd	Pwysau ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni neu fwynau alldraeth	Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant	Newidiadau rheolaeth tir	Defnydd y Weinyddiaeth
Amrywioldeb naturiol o ran cynefinoedd morol a'u cymunedau.								
Fe all newid hinsawdd gael effaith ar brosesau ecosystem morol a'r amodau cyffredinol.								
Mae diwygio polisi pysgodfeydd yr UE yn debygol o newid arferion pysgota sydd yn ei dro yn effeithio ar gynefinoedd morol.	laith Gymraeg							
Prosesau naturiol yn effeithio ar archeoleg forol megis llongddrylliadau, drwy grydiad neu orchudd gan waddod.	Amrywiaeth tirweddau, gan gynnwys nodweddion tirwedd arfordirol & golygfeydd eang							
Potensial ar gyfer datblygiad fferm wynt alldraeth.	Cymunedau amaethyddol gwledig a'u nodweddion cysylltiedig							
Potensial ar gyfer chwilio am nwy ac olew.	Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth							
Ardal ymarfer saethu y WA yn effeithio ar dawelwch yr ACM.	Treftadaeth ddiwylliannol							
Bygythiad dichonol i nenlinellau mewndirol yn sgil datblygiad fferm wynt.	Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb							
	Mynediad i dir a dŵr ac adloniant/mwynhad							
	Nodweddion daearegol a geomorffegol							
	Ynsoedd							
	Archeoleg a hanes gan gynnwys parciau hanesyddol a gerddi							
	Ansawdd y pridd, aer a'r dŵr							
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y rhinwedd arbennig					



## Sensitifrwydd Cynhenid

Thema	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn fwy sensitif	Ffactorau sy'n gwneud yr ardal yn llai sensitif
Geometreg arfordirol a thirffurf		
Datblygiad presennol	Defnydd fel lleoedd pysgota.	
Y profiad gweledol		O'r pellter hwn alldraeth, ychydig o ryngweledd rhwng yr arfordir ac arwyneb y môr, yn arwain at ymdeimlad o bellnigrwydd.
Tawelwch	Lefelau uchel o dawelwch, oherwydd does ond ychydig o longau pleser o ran y pellter hwn alldraeth.	Presenoldeb llongau mwy tua'r gorllewin yn lleihau'r ymdeimlad o dawelwch, yn yr un modd â'r defnydd militaraid achlysurol.

## GRYMOEDD DROS NEWID

### Cyflwyniad

Mae morluniau Eryri yn parhau i newid o ganlyniad i brosesau naturiol ac yn sgil gwaith dyn. Mae'r adran hon yn disgrifio'r Grymoedd Dros Newid hyn yn fanwl. Mae'r Grymoedd Dros Newid a ddisgrifir yn y Proffiliau ACM wedi cael eu nodi gan ddefnyddio'r ffynonellau a ganlyn:

- Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhT 2: Fersiynau Ymgynghorol, 2011)
- Aseidiadau Tirwedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri ac Ynys Môn
- Gwybodaeth leol am faterion morol gan aelodau o'r tîm SEACAMS
- Mewnbwn gan Barc Cenedlaethol Eryri, AOHNE a Staff Cyngor Gwynedd
- Arsylwadau a wnaed yn ystod astudiaeth maes a desg

Er lles eglurder a'i wneud yn hawdd i'w ddefnyddio, mae'r Grymoedd Dros Newid wedi cael eu rhannu i gyfres o themâu.

### Prosesau naturiol / newid yn yr hinsawdd

- **Erydiad arfordirol** newid cymeriad yr arfordir e.e. symud tywod oddi ar draethau. Fe all hefyd arwain at golli adnodd archeolegol e.e. posibilrwydd o golli caerâu arfordirol cynhanesyddol, a / neu flocio neu wro llwybr yr arfordir neu fynediad i dir mynediad agored neu ardaloedd hamdden eraill. Gall erydiad arfordirol arwain at golled uniongyrchol neu ddarnio cynefinoedd, e.e. manau ar ben clogwynni neu rostiroedd lled-naturiol, twyni tywod, ecosystemau aberol
- **Gwaddodiad arfordirol** yn effeithio ar gynefinoedd arfordirol (e.e. twyni ac aberoedd), a chreu newid defnydd harbwrs, angorfeydd ac aneddiadau.
- **Cynnydd mewn amllder tywydd eithafol** e.e. stormydd yn gwaethygu llifogydd ac erydiad e.e. ar dwyni a thraethau graean bras. Mwy o lifogydd yn effeithio ar gynefinoedd iseldir, corysdd pori ac aneddiadau. Fe all tywydd eithafol a llifogydd hefyd yn achosi straen i adeiladau a nodweddion a wnaed gan ddyn eraill (ee porthladdoedd), a gorlifo tirweddau hanesyddol arfordirol. Fe all llifogydd / newidiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd flocio / gwro llwybrau arfordirol a mynediad i ardaloedd hamdden, ac effeithio ar batrymau twristiaeth a gweithgareddau hamdden.
- **Amddiffynfeydd morol a mesurau diogelu rhag llifogydd** effeithio ar gymeriad naturiol yr arfordir mewn ardaloedd sy'n gorwedd yn isel e.e. twyni, traethau graean bras, gan effeithio ar gynefinoedd arfordirol (e.e. corysdd halen\_ ac effeithio ar gymeriad fernaciwlar aneddiadau traddodiadol e.e. harbwrs.
- Bydd **Codiad yn lefel y môr**, o ganlyniad i amrywiad hinsoddol yn gallu gwaethygu'r prosesau a'r digwyddiadau hyn i gyd.

### Pwysau ymwelwyr

- Gall **croniant o ymwelwyr** ar safleoedd arfordirol 'pot mêl' arwain at lefelau cynyddol o draffig, sbwriel, erydiad cynefinoedd (ee twyni tywod) ac ati a cholli llonyddwch

- Mwy o ddefnydd o **gychod hamdden** (gan gynnwys chwaraeon dŵr sy'n defnyddio injan) effeithio ar gymeriad yr arfordir, llonyddwch, a chynefinoedd morol sensitif (ee mannau nythu a chynefinoedd aberol)
- Mwy o **weithgarwch hamdden**, gan gynnwys **chwaraeon arfordirol** (ee dringo creigiau) gan arwain at niweidio / darnio cynefinoedd (ee rhostir arfordirol), ac erydu llwybrau troed
- **Gwrthdaro diddordeb** rhwng defnyddwyr hamdden gwahanol (e.e. pysgotwyr a chychod pŵer / canwiau).
- Effeithiau ar **nodweddion treftadaeth a'u gosodiad** trwy ddifrod, erydiad, parcio, ysbwriel ayyb.
- Cynyddiadau tymhorol mewn lefelau **traffig**, a chanlyniad hynny yw tagfeydd (yn enwedig ar hyd lonydd cul), parcio anffurfiol ayyb.
- Galw am **ddatblygiadau newydd** / estyniadau i ddatblygiad presennol meysydd carafannau, gwerylloedd ayyb., yn cael effaith ddichonol ar ansawdd weledol a chymeriad yr arfordir.

### Defnydd morol - masnachol a physgota

- **Symudiadau llongau masnachol** ac angorfeydd yn effeithio ar gymeriad a thawelwch dyfroedd arfordirol.
- **Treillio** sianelau / harbws a'r effeithiau cysylltiedig amgylchedd gwely'r môr a'r prosesau arfordirol naturiol.
- Effeithiau Posibl o **sbwriel morol**, gollyngiadau olew ac ati o longau masnachol ar fywyd gwyllt, cynefinoedd ac ymddangosiad yr amgylchedd arfordirol.
- Effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i ddwysáu **pysgota sefydlog** (ee potiau abwyd a llinellau sefydlog).
- Effeithiau **pysgota cwch** (e.e. treill rwydo a threillio) ar wely'r môr a'r cynefinoedd cysylltiedig, a'r materion ehangach o bwysau cynyddedig ar boblogaethau pysgod.
- Effeithiau **ffermio cregyn gleision** ar ansawdd dwr ac amgylchedd morol.
- **Colli pysgodfeydd cwch bach traddodiadol** a seilwaith prosesu a dosbarthu cysylltiedig

### Ynni neu fwynau alldraeth

- **Gosodiadau gwynt, ynni llanw a / neu ynni tonnau** sy'n effeithio ar, amgylcheddau morol a chynefinoedd, cymeriad y morlun, a'r effeithiau cysylltiedig ar lonyddwch ac amwynder gweledol.
- **Effeithiau cysylltiedig ar y tir** o seilwaith ynni ar y môr, megis is orsafoedd a llinellau pŵer

### Pwysau datblygu / llwybr ffyrdd cludiant

- **Seilwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth arfordirol**, gan gynnwys datblygu marina, parcio, cyfleusterau ymwelwyr, llwybrau, llithrfeydd, angorfeydd ac ati
- **Datblygu ynni ar y tir**, gan gynnwys tyrbinau gwynt (sy'n effeithio ar y lleoliadau mewndirol Ardaloedd Cymeriad Morluniau), celloedd ffotofoltäig solar (graddfa ddomestig a masnachol) a llinellau trosglwyddo foltedd uchel.

- **Datblygiadau tai newydd neu ddatblygiad arall** a allai fod yn gwneud yr arfordir yn drefol sydd ddim yn ymateb neu'n parchu'r dirwedd neu gymeriad traddodiadol anheddiad. Gall adeiladu cartrefi gwyliau / ymdeol ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn lleol effeithio ar y diwylliant lleol hefyd ac effeithio ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.
- **Llygredd golau** o ddatblygiad masnachol, preswyl a datblygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth .
- Mwy o ddatblygiad yn arwain at **lygru** dŵr neu aer, a chyda goblygiadau ar draffig, rheoli gwastraff , colli cynefinoedd arfordirol a llai o fynediad.
- **Arallgyfeirio ar ffermydd** / datblygu ar gyfer defnydd twristiaeth ( ee nifer cynyddol o feysydd carfannau / gwersyllfaoedd, trosi adeiladau / bythynnod fferm i'w defnyddio fel cartrefi gwyliau ) yn effeithio cymunedau lleol a phatrymau anheddiad.
- Potensial o ail - ddatblygu **safleoedd diwydiant ar raddfa fawr**.
- Mae'r galw am **welliannau i'r ffyrdd / rheilffyrdd** gydag effeithiau o ganlyniad i hynny ar lonyddwch, llygredd aer, sŵn a golau

### Newidiadau rheolaeth tir

**Colli / gostyngiad mewn rheolaeth amaethyddol draddodiadol** oherwydd diffyg hyfywedd busnesau fferm traddodiadol.

- **Colli / lleihad o ran rheolaeth amaethyddol draddodiadol** oherwydd anhyfywedd busnesau fferm traddodiadol.
- Newidiadau mewn **patrymau pori** gan arwain at ymlediad rhedyn i gynefinoedd arfordirol lled-naturiol megis rhostir arfordirol, a cholli porfa sy'n llawn rhywogaethau.
- **Rheolaeth wael o nodweddion treftadaeth**, e.e. safleoedd archeolegol arfordirol a chanlyniad hynny yw difrod gan redyn a phrysgwydd.
- Mwy o **ddwysau amaethyddiaeth** gan arwain at golli nodweddion tirwedd traddodiadol (ee gwrychoedd, cloddiau ac ati) gydag effeithiau canlyniadol ar ymddangosiad y dirwedd a llai o lefelau bioamrywiaeth.
- Newidiadau mewn polisiau **rheoli coedwigoedd** (ar yr arfordir ac ymhellach yn fewndirol)- yn enwedig mewn perthynas â'r galw am danwydd coed - gan effeithio ar gymeriad y dirwedd.
- Llygru cyrsiau dwr ac ecosystemau morol o du **ymgyfoethgiad**.
- Newidiadau dichonol yn y dyfodol mewn **rheolaeth stad**, a chanlyniad hynny fyddai llai o reoli parciau, gerddi coedydd parcdir a ffermydd a choedlannau ffermydd stad.

### Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn

- Mynediad cyfyngedig at y môr yn **Ardal brofi Bae Ceredigion**.



- Cynllyn Datblygu Lleol Eryri 2007 - 2022 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2010-2015 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## ATODIAD 1: POLISIŌAU CDLIE PERTHNASOL

### Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy (A)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd sy'n hybu pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol, gan warchod a gwella 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yr un pryd. Bydd cynigion sy'n peryglu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu gwrthod. Dylid cadw'r ystyriaethau isod mewn cof er mwyn helpu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy yn Eryri:

- i. Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol.
- ii. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.
- iii. Diogelu a gwella iechyd, diogelwch a lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.
- iv. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol Eryri.
- v. Parchu a gwella'r amgylchedd hanesyddol.
- vi. Gwneud defnydd effeithlon o dir ac isadeiledd.
- vii. Gwarchod ansawdd a nifer yr adnoddau naturiol gan gynnwys dŵr, aer, pridd a geoamrywiaeth.
- viii. Annog datblygiad cynaliadwy aneddiadau mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu cymeriad a pwrpas o fewn y strategaeth aneddiadau.
- ix. Galluogi mynediad cynhwysol at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth gan leihau effaith cludiant ar yr amgylchedd.
- x. Darparu dyluniadau cynaliadwy o ansawdd da.
- xi. Hyrwyddo datblygiadau sy'n diwallu anghenion tai'r cymunedau lleol trwy gymysgedd o wahanol fathau o dai, a deiliadaeth yn bennaf trwy dai fforddiadwy er mwyn diwallu

angen lleol.

- xii. Annog datblygiadau sy'n gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella treftadaeth ieithyddol cymunedau Eryri.
- xiii. Sicrhau datblygiad o dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (tir llwyd) pan fo'r tir hwnnw mewn lleoliad cynaliadwy, yn hytrach na safleoedd tir glas.
- xiv. Rhwystro datblygiadau anaddas mewn ardaloedd lle gwyddys fod perygl llifogydd neu sy'n cyfrannu at berygl llifogydd.

## **Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)**

Caiff adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a 'Rhinweddau Arbennig' Parc Cenedlaethol Eryri eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol. Pan ystyrir bod datblygiad yn dderbyniol, disgwylir i ddatblygwyr sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod a'i wella.

Ni ddyliau cynigion effeithio yn andwyol ar fioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig yn amrywio o lefel ryngwladol i lefel leol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. cynefinoedd a rhywogaethau tu allan i safleoedd dynodedig.

Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd a ddynodir yn Ewropeaidd (un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) oni chyflawnir gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac felly gellid diwallu'r meini prawf a ganlyn:

- i. Does dim ateb arall.
- ii. Mae yna resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig am y datblygiad.

Bydd y gofynion a ganlyn yn berthnasol i ddatblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol:

- iii. Mae lleoliad, dyluniad ac adeiledd y datblygiad wedi'i wneud yn y fath fodd fel bod y difrod i nodweddion cadwraeth natur yn cael ei liniaru, a manteisir ar gyfleoedd i warchod natur.

- iv. Darperir mesurau cydadferol os oes angen.
- v. Caiff y nodweddion cadwraeth natur sy'n weddill eu gwarchod a'u gwella, a darperir ar gyfer eu rheoli.

Yr unig bryd y caniateir datblygiad ar hyd yr Arfordir Annatblygedig yw lle gellir dangos bod lleoliad arfordirol yn hanfodol. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad sy'n niweidio cymeriad y dirwedd heb ei ddifetha neu gynefinoedd bywyd gwyllt.

Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau a restrir yn y Cynllun gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn destun i Ganllaw Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth Leol.

## **Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd (2)**

Dylai graddfa a gosodiad datblygiad newydd yn cynnwys ei osodiad a thirlunio barchu a diogelu cymeriad y dirwedd. Ymwrthodir effeithiau annerbyniol ar y dirwedd a rhoddir ystyriaeth benodol iawn i warchod:

- i. Ardaloedd Adran 3 o harddwch naturiol<sup>1</sup>.
- ii. Arfordir sydd heb ei ddatblygu.
- iii. Golygfeydd sydd yn weladwy o olygfannau.
- iv. Ardaloedd cymeriad tirlun wedi ei seilio ar LANDMAP fel y dyffinnir yng Nghanllaw Atodol ar Dirweddau Eryri.

---

<sup>1</sup> Fel y diffiniwyd o dan Adran 3 o'r Ddeddf Diwygio Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985